



monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011 - 2021 Adroddiad Monitro Blynyddol

Cyfnod Monitro 1af Ebrill 2015 – 31ain Mawrth 2016

**Cyngor Sir Fynwy
Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig
2011 - 2021**

**Adroddiad Monitro
Blynyddol**

Cyfnod Monitro 1^{af} Ebrill 2015 – 31^{ain} Mawrth 2016

Gwasanaeth Polisiâu Cynllunio

Y Gyfarwyddiaeth Fenter

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01633 644644

E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk

Tudalen Gynnwys

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cyflwyniad	6
3. Gwybodaeth Gyd-destunol	10
4. Proses Fonitro'r CDLI	18
5. Monitro'r CDLI – Dadansoddiad Polisi	21
6. Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd	83
7. Casgliadau ac Argymhellion	108

1 Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy (CDLI) ar 27 Chwefror 2014. Fel rhan o broses y cynllun datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
- 1.2 Mae'r AMB yn darparu'r sylfaen ar gyfer monitro effeithiolrwydd y CDLI ac yn y pendraw yn penderfynu a yw unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun yn angenrheidiol. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisiau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith gaiff y CDLI ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.
- 1.3 Dyma'r ail AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar gyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth, 2016.

Canfyddiadau Allweddol yr Ail Broses Fonitro Flynyddol 2015-2016

Gwybodaeth Gyd-destunol

- 1.4 Mae crynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol, wedi'i gynnwys yn Adran 3. Tra gallai goblygiadau fod rai o'r newidiadau a nodwyd ar gyfer gweithredu'r CDLI yn y dyfodol, nid yw un o'r newidiadau a nodwyd yn awgrymu'r angen i adolygu'r Cynllun yn gynnar. Bydd goblygiadau i rai o'r newidiadau cyd-destunol dros y tymor hwy a bydd yr AMBau dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi

- 1.5 Mae Adran 5 yr AMB yn darparu asesiad manwl o sut mae polisiau strategol y Cynllun a'r polisiau ategol cysylltiedig yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad gwybodus am gynnydd y Cynllun o ran cyflawni'r targedau / canlyniadau a'r polisiau monitro yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithiolrwydd y polisiau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, yn seiliedig ar y sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

Targedau / canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni	49
Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd a phryderon yn dilyn ynghylch gweithredu'r polisi	17
Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni a phryderon yn dilyn dros weithredu'r polisi	11

Ar gyfer y dangosyddion hynny sydd heb darged / sbardun caiff canlyniadau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny

Canfyddiadau Allweddol yr AMB

1.6 Mae canlyniadau'r broses fonitro yn dangos y cyflawnir llawer o'r dangosyddion targed a'r canlyniadau monitro (sgôr goleuadau traffig gwyrdd), sy'n dangos bod polisiâu perthnasol y Cynllun yn perfformio fel y bwriadwyd. O bwys arbennig dros y cyfnod monitro hwn:

- Parheir i wneud cynnydd tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.
- Mae targedau polisi tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yn cael eu diwallu'n gyffredinol mewn perthynas â'r caniatadau cynllunio a roddwyd yn y prif drefi a'r prif bentrefi.
- Mae cyfanswm o 41.8ha o dir cyflogaeth ar gael gan y Sir, sy'n dangos y cynhelir digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r gyfradd dderbyn.
- Bu cynnydd o ran y caniatadau cyflogaeth yn y Sir, gyda chymeradwyo caniatadau ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth ar y safleoedd busnes a diwydiannol dynodedig (SAE1), safleoedd cyflogaeth a gwarchodedig (SAE2) a safleoedd heb eu neilltuo (cyfanswm o 4.48 hectar). Roedd y rhain yn bennaf yng Nglan Hafren. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer 3.72 hectar o dir ar safle defnydd cymysg strategol y CDLI yn Heol Wonastow, Trefynwy.
- Cafodd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig eu cymeradwyo (10).
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 10 o gyfleusterau twristiaeth, 8 ohonynt yn ymwneud â llety i dwristiaid. Nid oedd unrhyw geisiadau a ganiatawyd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth.
- Mae'r cyfraddau gwacter yn ardaloedd siopa canolog holl drefi'r Sir a'r canolfannau lleol yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae cyfran y defnyddiau manwerthu A1 o fewn Ffryntiadau Siopa Cynradd y Sir yn gyffredinol yn unol â'r trothwyon a nodir yn Ffryntiadau Siopa Cynradd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 5 cyfleuster cymunedol a hamdden ac ni chaniatawyd ceisiadau'n ymwneud â cholli cyfleusterau cymunedol / hamdden.
- Ni chollwyd adeiladau rhestredig na safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Gwneir cynnydd tuag at gyfanswm y capasiti rheoli gwastraff ar gyfer cyfnod y CDLI ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y banc tir mwynau.

- Caniatawyd cyfanswm o 8 cynllun yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (heblaw am ddefnydd deiliaid tai, newid defnydd a defnydd amaethyddol).
- Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 / C2 nad oeddent yn cwrdd â phroffion TAN15.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod amrywiol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni, ond heb unrhyw bryderon cyfatebol dros weithredu polisïau, fel y manylir yn Adran 5 (sgôr goleuadau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod rhesymau dros gyfiawnhau'r perfformiad a gofnodwyd ac nid yw hyn yn gynrychioliadol o unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu fframwaith y polisi neu'r strategaeth ar hyn o bryd.

Mae yna, fodd bynnag, nifer o ddangosyddion targed / monitro canlyniadau, allweddol i'r polisi, sy'n ymwneud â darpariaeth tai ac er nad ydynt yn symud ymlaen fel y bwriadwyd (sgôr goleuadau traffig coch). Yn arbennig:

- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 234 o anheddau newydd (ar gyfer y farchnad gyffredinol a fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 205 y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 439 wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a nodwyd yn y CDLI o 488 o anheddau'r flwyddyn i'w cwblhau.
- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 63 o anheddau fforddiadwy newydd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 17 o anheddau fforddiadwy y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol, yn cyfateb i gyfanswm o 80 wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a nodwyd yn y CDLI o 96 o anheddau fforddiadwy'r flwyddyn i'w cwblhau.
- Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Fynwy (CAATT) ar gyfer cyfnod 2015-16 yn dangos bod gan y Sir ddigon o dir ar gyfer tai am 4.1 flynedd (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a ragnodir yn TAN 1).
- Bu cynnydd cyfyngedig mewn darparu safleoedd tai strategol a neilltuwyd. Ac eithrio safle Ffordd Wonastow, ni chafodd un o'r safleoedd strategol ganiatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun. Manylir ar y cynnydd mewn darparu safleoedd tai strategol y CDLI yn yr adran dadansoddi polisi ar gyfer Polisi S3.
- Roedd nifer y caniatadau a roddwyd a'r anheddau a gwblhawyd mewn aneddiadau yng Nglan Hafren yn sylweddol is na'r targedau a nodwyd yn y CDLI.
-

1.9 Mae hyn yn dangos nad yw polisïau allweddol darparu tai'r CDLI yn cael eu cyflawni fel y disgwyldid a bod y diffyg dilynol mewn cyflenwad tir ar gyfer adeiladu tai dros 5 mlynedd yn fater o bryder. Un ffactor sy'n cyfrannu'n sylfaenol at y diffyg hwn yw bod y cynnydd yn y safleoedd tai strategol a neilltuwyd yn arafach na'r disgwyl, er bod cynnydd yn digwydd wrth ddwyn y safleoedd hyn ymlaen ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ellir cyflawni'r dyraniadau (fel y nodir yn Adran 5). Serch hynny, roedd y gyfradd gyflenwi'n arafach na'r disgwyl sy'n awgrymu bod angen dyrannu safleoedd ychwanegol.

Ystyrir, felly, bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun a fabwysiadwyd, o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer adeiladu tai a hwyluso adnabod a dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai a fydd yn hyfyw ac yn gyflawnadwy.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Gwnaed cynnydd gyda'r gwaith o baratoi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol fydd o gymorth wrth hwyluso gyda dehongli a gweithredu polisi'r CDLI y manylir arno yn Adran 3. Bydd paratoi a mabwysiadu'r CCA yn parhau yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)

Mae Adran 6 yn ehangu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Ceir gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y CDLI a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n helpu i ddangos sut mae monitro'r CDLI a monitro'r AG yn gysylltiedig â'i gilydd.

Mae rhai o'r canfyddiadau mwyaf nodedig sy'n benodol i'r AG yn ystod cyfnod y monitro presennol yn cynnwys:

- Mae 100% o'r datblygiadau mawr newydd a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro hwn wedi'u lleoli o fewn 10 munud ar droed o'r gwasanaeth bws sy'n rhedeg yn aml ac yn rheolaidd.
- Crëwyd 4.6 hectar o dir agored o ganlyniad i ganiatadau cynllunio.
- Un goeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed wedi'i cholli i ddatblygiad.
- Un lleoliad lle'r oedd gwell lefelau blynyddol gwrthrychol o nitrogen deuocsid.
- 4 o'r 5 safle a neilltuwyd a'r holl ddatblygiadau eraill o fwy na 10 annedd / 1ha yn cynnwys SDCau yn y cynllun.
- 100% o gyrff dŵr daear â statws maint 'da'.
- Dim un achlysur lle profodd afonydd ar draws y Sir lif isel yn yr haf.
- Dim un hectar o dir amaethyddol Gradd 3a a gwell wedi'i cholli i ddatblygiad mawr.
- Cynnydd o 6.6% yng ngwariant twristiaeth (£ 186,650,000).

Mae monitro'r AG yn darparu datganiad sefyllfa yn y tymor byr ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. Mae'n cael ei gymharu fel y cyfryw â'r data gwaelodlin a nodir yn yr AMB blaenorol yn unig, a bydd tueddiadau a ddaw i'r amlwg yn dod yn amlycach yn AMBau y dyfodol.

Casgliadau ac Argymhellion

Mae AMB 2015-16 yn casglu, er bod cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu llawer o bolisiau'r Cynllun a bod y strategaeth yn gyffredinol yn parhau i fod yn gadarn, nad yw nifer o dargedau allweddol y polisi darpariaeth tai yn cael eu diwallu, sy'n dangos na weithredwyd y polisiau hyn fel y bwriadwyd. Mae diffyg cyflenwad tir ar gyfer adeiladu tai dros y 5 mlynedd yn destun pryder y mae angen mynd i'r afael ag ef os yw gofynion tai'r Cynllun i gael eu gwireddu.

Mae adolygiad cynnar o'r CDLI felly yn angenrheidiol oherwydd y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Gan nad oes unrhyw bryderon ynghylch polisiau eraill y Cynllun ar hyn o bryd mae'r AMB yn casglu nad ystyrir ei bod yn angenrheidiol adolygu agweddau eraill o'r Cynllun ar hyn o bryd.

Yn unol â hynny, mae'r AMB yn argymhell y canlynol:

1. Dechrau adolygiad cynnar o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn sgil yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso adnabod / dyrannu tir ar gyfer tai ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu Adroddiad Adolygu a fydd yn nodi ac yn esbonio'r cwmpas sy'n ofynnol i'r Cynllun Adolygu.
2. Cyflwyno'r yr ail AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r AMB ar wefan y Cyngor.
3. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi AMBau yn olynol.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn darparu'r sylfaen ar gyfer monitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pendraw yn penderfynu a yw unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun yn angenrheidiol. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisiau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith gaiff y CDLI ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.
- 2.2 Mae monitro'n rhan barhaus o broses gwneud y cynllun. Mae'n darparu'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a llunio polisi, gweithredu'r polisi, gwerthuso'r cynllun a'i adolygu.

Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

- 2.3 O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a'r Rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'r CDLI yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n ffurfio sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol yn y Sir, gan gynnwys ceisiadau cynllunio, yn seiliedig arnynt.
- 2.4 Dyma'r ail AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar gyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth, 2016.

Y Gofyniad ar gyfer Monitro

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

- 2.5 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol, o dan adran 61 o Ddeddf 2004, i gadw golwg ar yr holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ogystal, o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Felly, mae paratoi AMB yn rhan annatod o broses y cynllun datblygu statudol.
- 2.6 Er mwyn monitro perfformiad y CDLI yn gyson, dylai cynlluniau gael eu hystyried yn erbyn set safonol o ddangosyddion a thargedau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar gynnwys gofynnol AMBau.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

- 2.7 Diwygiwyd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) er mwyn symleiddio rhai agweddau ar weithdrefnau'r cynllun datblygu lleol, fodd

bynnag, nid yw'r rhain yn effeithio ar broses monitro'r CDLI. Dan Reoliad 37, mae'n ofynnol i'r AMB:

- Nodi polisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu;
Ac ar gyfer pob polisi:
- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
- Nodi'r camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd er mwyn i'r polisi gael ei weithredu;
- Archwilio a oes angen adolygu'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.

2.8 Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r AMB fonitro'r dangosyddion craidd dynodedig drwy bennu:

- Y cyflenwad tir cyfredol ar gyfer tai o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, a;
- Nifer (os oes rhai) yr anheddau fforddiadwy a'r anheddau marchnad gyffredinol net ychwanegol a adeiladwyd yn ardal yr ACLL.

Mae'r rhain ar gyfer blwyddyn yr AMB ynghyd â'r cyfnod llawn ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu gyntaf.

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015)

2.9 Amlinellodd Llawlyfr CDLI 2006 ddangosyddion ychwanegol y CDLI y dylai'r AMB adrodd arnynt. Cafodd y rhain eu hymgorffori yn fframwaith monitro'r CDLI lle'r oedd hynny'n berthnasol. Addaswyd rhai o'r dangosyddion hyn er mwyn gweddu'n well i'r amgylchiadau lleol a diystyrwyd rhai fel dangosyddion amhriodol. Mae'r Llawlyfr CDLI diwygiedig wedi dileu llawer o ddangosyddion ychwanegol y CDLI a gynhwysir yn y Llawlyfr cyntaf. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys yn fframwaith monitro'r CDLI mabwysiedig, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r rhain er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r llawlyfr diwygiedig yn cynnwys llawer llai o ddangosyddion allbwn craidd ychwanegol yn ymwneud â darpariaeth tai, cyflogaeth a materion manwerthu. Fodd bynnag, gan nad yw'r rhain yn cael eu cynnwys yn y fframwaith monitro a fabwysiadwyd nid ystyrir yn briodol eu cynnwys yn ôl-weithredol. Yn hytrach, bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith monitro'n cael eu hystyried fel rhan o adolygiad y CDLI.

Fframwaith Monitro CDLI Sir Fynwy

2.10 Darperir Fframwaith Monitro ym Mhennod Wyth y CDLI gan gynnwys cyfres o 50 o ddangosyddion, gyda thargedau a sbardunau cyfatebol ar gyfer gweithredu pellach, mewn perthynas â pholisiau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn nodi cysylltiadau rhwng themâu'r Cynllun, amcanion, polisiau strategol a pholisiau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â'r Rheoliadau a'r canllawiau uchod ar fonitro gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Monitro yn sail i'r AMB.

Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011)

- 2.11 Yn ogystal, mae'n rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwydddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae Atodiad Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (2014) yn nodi cyfres bellach o ddangosyddion (60) a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er eu bod yn gydgysylltiedig, mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi'r CDLI ac wedi'u defnyddio yn yr AMB i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI.
- 2.12 Mae cwblhau'r AMB yn cyd-daro â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun trwy Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011).

Fformat a Chynnwys yr AMB

- 2.13 Cynlluniwyd yr AMB i fod yn ddogfen gryno, hygyrch, y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfleus ar gyfer cyfeirio at bob maes polisi strategol.
- 2.14 Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

Adran 1 Crynodeb Gweithredol - Mae'n darparu crynodeb ysgrifenedig cryno o'r canfyddiadau monitro allweddol.

Adran 2 Cyflwyniad - Mae'n amlinellu'r angen am yr AMB ac amlinellu'i strwythur.

Adran 3 Gwybodaeth Gyd-destunol - Yn rhoi trosolwg byr o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol benodol ar bolisi yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi.

Adran 4 Proses Fonitro'r CDLI – Mae'n esbonio'r broses a gymerwyd wrth fonitro.

Adran 5 Monitro'r CDLI - Dadansoddiad Polisi – Mae'n darparu dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd fframwaith polisi'r CDLI o ran cyflawni'r nodau / canlyniadau a thargedau dynodedig, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gweithredu pellach.

Adran 6 Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd – Mae'n darparu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn dangosyddion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion - Mae'n rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r AMB gan gyfeirio at y dadansoddiad a wnaed yn yr adrannau blaenorol a, lle bo'n berthnasol, yn darparu argymhellion ar faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

Cyhoeddi - Bydd yr AMB yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Monitro yn y Dyfodol

- 2.15 Dylai strwythur bras yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn fel ei bod yn rhwydd dilyn y dadansoddiadau rhwng adroddiadau olynol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol, sy'n cael ei

chyflenwi gan y Cyngor a'r ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n hen-ffasiwn. Yn unol â hynny, gallai'r fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a defnyddir AMBau fel ffordd o nodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

- 2.16 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd. Mae hyn yn golygu, o ddyddiad cychwynnol mabwysiadu'r CDLI ni fyddai angen i adolygiad llawn gychwyn tan 2018, yn unol â phroses statudol y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd adolygiad o'r CDLI cyn yr adolygiad ffurfiol yn digwydd yn unig os bydd casgliadau'r AMB neu amgylchiadau eithriadol eraill (fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4) yn nodi fel arall.

3 Gwybodaeth Gyd-destunol

- 3.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y CDLI lle bo'n briodol. Amlinellir hefyd y tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r CDLI, ynghyd â'r datblygiad ar y canllawiau cynllunio atodol allweddol.
- 3.2 Darperir gwybodaeth gyd-destunol, sy'n arbennig i faes polisi penodol y CDLI, yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi, ac felly, er hwylustod, ni chaiff ei hailadrodd yma.

Newidiadau Deddfwriaethol

Deddf Gynllunio (Cymru) 2015

- 3.3 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i geisio diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygu. Mae'r Ddeddf yn rhoi sylw i 5 amcan allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull o gynllunio a arweinir gan gynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Mae'r FfDC yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a fydd yn amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Disgwylir cynhyrchu'r cynllun hwn yn 2018/9 pan fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd CDSiau yn mynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol megis tai, cyflogaeth a gwastraff ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r FfDC. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at dair ardal gynllunio strategol, gan gynnwys y De-ddwyrain. Rhagwelir y bydd Sir Fynwy yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, yn unol â'r cynigion datblygol ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd Y CDLIau yn parhau â rôl sylfaenol yn y system a arweinir gan gynllun. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC ac unrhyw Gynllun Datblygu Strategol sydd yn cynnwys y cyfan neu ran o ardal yr awdurdod.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

- 3.4 Cyflawnwyd diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad Ymarfer Caboli'r CDLI a'i nod yw symleiddio rhai agweddau o broses y cynllun datblygu lleol. Mae'r Rheoliadau diwygiedig:
- Yn symud y gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol;

- Yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r cynllun datblygu lleol lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn;
- Yn gwneud i ffwrdd â'r angen i alw am ac ymgynghori ar safleoedd amgen yn dilyn y blaendal ymgynghori; ac
- Yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Daeth y Rheoliadau CDLI diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015, ac ynghyd â'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Llawlyfr diwygiedig y CDLI, y nod yw gwneud y broses CDLI yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi ac adolygu'r cynllun yn gyflymach heb osod amodau diangen). Nid oes gan y Rheoliadau diwygiedig unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI presennol ond bydd angen eu hystyried mewn perthynas ag unrhyw adolygiad ar y Cynllun a byddant yn cael eu hystyried ymhellach yn ôl yr angen.

Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.5 Enillodd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau lles gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Lles Lleol a fydd yn disodli'r Cynlluniau Integredig Sengl. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol greiddiol y CDLI (a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLI a'r Ddeddf / a'r Cynlluniau Lles Lleol. Yn wir, credir y bydd sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol / yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn llywio Cynllun Lles Lleol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i lywio unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 3.6 Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cymryd ei lle ochr yn ochr â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheoli a datblygu adnoddau Cymreig. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac mae'n darparu fframwaith iteraidd sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn ystyriaeth greiddiol wrth lunio penderfyniadau. Mae'n ofynnol bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn paratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol sy'n darparu asesiad o adnoddau naturiol ac yn ystyried i ba raddau y rheolir hwy'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n amlinellu'r blaenoriaethau, y

risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol (Datganiadau Ardal) er mwyn helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a ddynodir yn y Polisi Cenedlaethol a nodi sut mae mynd i'r afael â'r rhain. Rhoddir ystyriaeth bellach, yn ôl yr angen, i unrhyw oblygiadau dilynol i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

- 3.7 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i ddwy brif gyfraith y DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol: Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Gynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth). Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion hynafol cofrestredig gwella rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a wnaed ar yr amgylchedd hanesyddol. Er y bydd rhai o fesurau'r Ddeddf yn dod i rym ym mis Mai 2016, bydd y rhan fwyaf angen deddfwriaeth eilaidd bellach neu baratodau eraill cyn iddynt gael eu dwyn i rym yn ddiweddarach yn 2016 neu yn 2017. Bydd unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ystyriaeth bellach yn ôl yr angen.

Diwygiadau Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 3.8 Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) ym mis Ionawr 2016. prif newidiadau a geir yn Argraffiad 8 yn ymwneud â'r materion canlynol:
- ***Cynlluniau Datblygu Lleol (Pennod 2):***
Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bennod 2 ar 25 Medi 2015 yn dilyn mireinio proses y CDLI. Mae'n ystyried y diwygiadau cysylltiedig i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, at ganllawiau Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015) ac at dynnu nôl Gynlluniau Datblygu Lleol Cymru: Polisi ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (2005).
 - ***Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (Pennod 4):***
Mae Pennod 4 wedi cael ei diweddarau i ystyried Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r diwygiadau'n mewnosod gwybodaeth am ddarpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys y saith nod lles ac egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r disgrifiad o'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio hefyd wedi cael ei ddiweddarau Mae'r newidiadau hefyd yn dangos sut mae amcanion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r nodau lles. Mae hefyd wedi cael ei ddiweddarau i

adlewyrchu darpariaethau iaith Gymraeg Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 sy'n cryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio.

- **Mwynau (Pennod 14):**

Mae'r Bennod newydd hon yn integreiddio i mewn i Bolisi Cynllunio Cymru bolisiau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau a gafodd eu hamlinellu'n flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Ni wnaed newidiadau i'r polisi presennol fel rhan o'r ymarfer integreiddio hwn ac o ganlyniad fe gafodd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ei ddiddymu.

Nodiadau Cyngor Technegol

- 3.9 yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae goblygiadau posibl y newidiadau i'r NCT hwn ar gyfer y CDLI yn cael eu hamlinellu yn yr adran ar ddadansoddiad polisi perthnasol.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig

- 3.10 Dynodir De-ddwyrain Cymru fel dinas-ranbarth newydd yng Nghymru, sy'n cwmpasu Caerdydd a De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Sir Fynwy. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad 'Sbarduno Economi Cymru'¹, bwriedir i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill yn ei ffiniau i weithio gyda'i gilydd a chydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae bwrdd pontio wedi'i sefydlu, ac am ei bod eto'n ddyddiau cynnar, nid yw'r canlyniadau posibl ar gyfer y CDLI hyd yn hyn yn glir. Yn yr un modd mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio Rhanbarth y Brifddinas yn parhau i weithio ar gais Bargaen Ddinesig i ariannu prosiectau sy'n anelu at roi hwb i gystadleurwydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. O bwys, cafodd dogfen y Fargen Ddinesig ei llofnodi gan y 10 arweinydd awdurdodau lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a Phrif Weinidog Cymru ym Mawrth 2015. Rhagwelir cytundeb terfynol yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i ddatblygiad agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cais y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mewn AMB dilynol, lle bo hynny'n briodol.

¹ Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, 'Sbarduno Economi Cymru', 2015

Y Cyd-destun Lleol

Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy, 2013-2017

- 3.11 Disodlodd Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy (CIS) y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Cynllun Diogelwch Gymunedol a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Yn seiliedig ar asesiad cyfoethog a chynhwysfawr o anghenion unedig a phroses ymgysylltu eang ei chyrhaeddiad, ei nod yw ysgogi gwelliant o fewn y Sir, gan roi sylw penodol i rai blaenoriaethau sy'n ffurfio'r agenda creiddiol ar gyfer gwelliant. Ystyrir bod y CDLI yn gyson â'r CIS cyfredol o gofio'u blaenoriaethau ar y cyd gan gynnwys tai fforddiadwy, busnes a menter, hygyrchedd, a gwarchod a gwella'r amgylchedd. Fel y nodwyd uchod (3.4), o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y CIS yn

cael ei ddisodli gan Gynllun Lles Lleol, a fydd hefyd â chysylltiadau clir â'r CDLI. Bydd y datblygiad ar y gwaith o baratoi'r Cynllun Lles Lleol yn cael ei adrodd mewn AMBau dilynol.

Sir Fynwy'r Dyfodol

- 3.12 Mae Cyngor Sir Fynwy'n dechrau ar brosiect i ail-werthuso anghenion a dyheadau'n cymunedau a'r modd y bydd 'Cyngor y Dyfodol' yn ceisio bodloni'r heriau hynny. Bydd y gwaith ymgysylltu cymunedol yn rhedeg ochr yn ochr ac yn rhan annatod o weithio ar y Cynllun Lles Lleol. Bydd canlyniadau'r ymgysylltu hwn a thystiolaeth berthnasol arall a gasglwyd ar gyfer yr ymarfer hwn yn berthnasol i unrhyw adolygiad ar y CDLI, a gallai hefyd fod yn berthnasol i'r AMB nesaf.

Diweddariad ar Ardoll Seilwaith Cymunedol Sir Fynwy (ASC)

- 3.13 Dechreuodd ymgynghoriad ar Ffurf Ddrafft Atodlen Codi Tâl ASC yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Disgwylir Archwiliad yr ASC a mabwysiadu dilynol yr ASC yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i ddatblygiad yr ASC ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mewn AMBau olynol lle bo'n briodol.

Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

Gweithgarwch Economaidd

- 3.14 Dangosir yn y tablau isod y data gweithgarwch economaidd allweddol ar gyfer Sir Fynwy a Chymru o ddyddiad sylfaen y CDLI yn 2011 at y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r data'n dangos bod dangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac enillion wedi cyfleu gwelliant dros y cyfnod hwn ar gyfer y ddwy ardal, er bod Sir Fynwy'n perfformio'n well na Chymru'n gyffredinol. O bwys, mae Sir Fynwy wedi profi gwell perfformiad economaidd mewn perthynas â'r dangosyddion hyn yn ystod y cyfnod monitro cyfredol gyda chyflogaeth ac enillion ar y lefel uchaf ers 2011 ac mae diweithdra ar y lefel isaf ers 2011. Fodd bynnag, nid ystyrir newidiadau o'r fath mor arwyddocaol i beri unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI. Rhoddir ystyriaeth i'r dangosyddion economaidd hyn mewn AMBau dilynol a chofnodir unrhyw oblygiadau posibl.

Economaidd Weithgar - Mewn Cyflogaeth

	Sir Fynwy	Cymru
2011-Mawrth 2012	73.8%	66.7%
2012-Mawrth 2013	74.2%	67.6%
2013-Mawrth 2014	73.0%	69.5%
2014-Mawrth 2015	74.5%	69.3%
2015-Mawrth 2016	78.8%	71.1%

Ffynhonnell: Nomis

Economaidd Weithgar - Di-waith

	Sir Fynwy	Cymru
2011-Mawrth 2012	5.1%	8.4%
2012-Mawrth 2013	5.6%	8.3%
2013-Mawrth 2014	5.1%	7.4%
2014-Mawrth 2015	4.9%	6.8%
2015-Mawrth 2016	3.3%	5.4%

Ffynhonnell: Nomis

Cyflogau Crynswth Wythnosol Gweithwyr Amser Llawn (Enillion yn ôl Preswyliaeth)


	Sir Fynwy	Cymru
2011	£ 560.3	£ 455.1
2012	£ 530.7	£ 454.9
2013	£ 579.5	£ 475.3
2014	£ 577.6	£ 479.4
2015	£ 610.1	£ 484.4

Ffynhonnell: Nomis

- 3.15 Mae'r dystiolaeth a amlygir yn awgrymu bod yr incwm ar gyfer gwagedd economaidd weithgar sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Sir yn sylweddol is nag ar gyfer dynion o fewn yr un categori. Mae'n annhebygol bod hyn yn rhywbeth y gall y system gynllunio defnydd tir ddylanwadu'n uniongyrchol arno, fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i hyn fel rhan o brosiect Sir Fynwy'r Dyfodol ac, os yw'n berthnasol, drwy gyfrwng adolygu'r Cynllun yn y dyfodol.

Prisiau Tai

- 3.16 Fel y dangosir yn y graff isod, mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos bod prisiau tai cyfartalog cyffredinol yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol, ac eithrio chwarter 2 2015 (mis Ebrill i Fehefin). Yn dilyn hynny, mae prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2016 (Ionawr i Fawrth) ar £ 220,640, yn uwch na phris sylfaen chwarter 4 2012 (£ 188,640). Os bydd data'r tueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd yn uwch na'r sbardun dynodedig ar gyfer ymchwiliad pellach a amlinellir mewn perthynas â Pholisi S4, bydd y Cyngor yn ystyried ail-asesu'r dystiolaeth hyfywedd a ddefnyddiwyd ar gyfer targedau polisi tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn yr adran dadansoddi polisi mewn perthynas â Pholisi S4.



Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae nifer o ddogfennau canllawiau cynllunio atodol (CCA) i gefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI wedi'u mabwysiadu yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Y rhain yw

- Seilwaith Gwyrdd
- Tai fforddiadwy
- Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni
- Canllawiau Dylunio ar Addasu Adeiladau Amaethyddol
- Polisi CDLI H4 (g) Addasu / Adsefydlu adeiladau yn y Cefn Gwlad Agored i Asesiad Defnydd Preswyl o Ailddefnydd at Ddibenion Busnes
- Polisiâu CDLI Anheddau Amgen yn y Cefn Gwlad Agored ac Estyn Anheddau Gwledig

3.18 Cymeradwywyd yn ogystal Nodyn Cynllunio Technegol mewn perthynas â Datblygiadau Tyrbinau Gwynt: Gofynion i Asesu Effaith ar Dirwedd ac Effaith Gweledol gan Benderfyniad Aelod Cabinet Sengl yn ystod y cyfnod hwn.

3.19 a'u mabwysiadu'n ddiweddarach fel CCA yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

3.20 Paratowyd CCA ar Ffryntiadau Siopa Cynradd ac ymgynghorwyd arno yn ystod y cyfnod monitro hwn. Rhagwelir y symudir hwn ymlaen hyd at ei fabwysiadu yn ystod rhan gynnar y cyfnod monitro nesaf. Mae'r gwaith ar y CCA Tirwedd yn mynd rhagddo. Adroddir ar y cynnydd yn y rhain ac ar Ganllaw Cynllunio Atodol ychwanegol yn yr AMB nesaf.

Crynodeb

- 3.21 Fel y manylwyd uchod, mae deddfwriaeth newydd a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, polisïau a strategaethau wedi amlygu’u hunain yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, y gallai rhai ohonynt fod â goblygiadau ar gyfer gweithredu'r CDLI yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw un o'r newidiadau cyd-destunol a nodwyd hyd yma yn awgrymu bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd AMBau dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

4 Proses Monitro'r CDLI

Sut caiff y CDLI ei fonitro?

Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd fframwaith polisi'r CDLI o ran cyflawni nodau / canlyniadau a thargedau'r polisi dynodedig, ynghyd ag argymhellion priodol ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud yn benodol â pholisi sydd wedi codi yn ystod y cyfnod monitro ac a allai effeithio ar weithredu polisi. Yn gysylltiedig â fframwaith monitro'r CDLI, mae'r dadansoddiad yn cael ei grwpio yn ôl polisiâu strategol y Cynllun ac wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Canlyniadau Monitro	Mae'r nod monitro / canlyniad yn nodi'r hyn mae pob polisi strategol yn ceisio'i gyflawni. Nodir amcanion ategol, polisiâu rheoli datblygu a dyrannu safle hefyd er mwyn dangos y rhyng-gysylltiad rhwng y polisiâu.
Gwybodaeth gyd-destunol	Amlinellir gwybodaeth gyd-destunol sylweddol sydd wedi cael ei chyhoeddi ers mabwysiadu'r Cynllun, lle bo'n berthnasol i bolisi strategol penodol. Bydd hyn yn galluogi'r AMB i benderfynu a effeithiwyd ar berfformiad y polisi gan newidiadau cyd-destunol. Gall y rhain gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, y cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, polisiâu neu strategaethau yn ogystal â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol a allai effeithio ar ddarparu'r CDLI, megis amodau economaidd. Mae unrhyw newidiadau o'r fath yn gorwedd y tu allan i gylch gwaith y CDLI.
Dangosyddion, targedau a sbardunau	Cofnodir perfformiad polisi yn ystod y cyfnod monitro mewn perthynas â'r dangosyddion a thargedau / sbardunau perthnasol ar gyfer ymchwiliad pellach a nodir hyn ar gyfer pob polisi strategol. Is-rannwyd y targedau a'r sbardunau ar gyfer rhai dangosyddion i alluogi monitro'r dangosyddion hyn yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â'r polisiâu strategol canlynol: • S1 Strategaeth Ofodol • S3 Safleoedd Tai Strategol • S4 Tai Fforddiadwy • S6 Manwerthu • S8 / S9 Menter ac Economi / Darparu Safleoedd Cyflogaeth Mae cyfanswm nifer y targedau a'r sbardunau yn y fframwaith monitro wedi cynyddu ers hynny.

Dadansoddiad	Gan ystyried y dangosyddion, y targedau perthnasol, y sbardunau a'r canlyniadau monitro, mae'r AMB yn asesu a yw polisiâu strategol y Cynllun yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymchwilio ymhellach unrhyw bolisi sy'n methu â chyrraedd ei darged a / neu wedi cyrraedd ei bwynt sbardun. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod polisi yn cyrraedd ei lefel sbardun yn awgrymu'n awtomatig bod y polisi yn methu. Bydd y dadansoddiad yn ystyried a yw perfformiad o'r fath o ganlyniad i amgylchiadau allanol neu a ellid ei gyfiawnhau yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol. Mewn rhai achosion bu'n anodd nodi tueddiadau ystyrion oherwydd swm cyfyngedig y data sydd ar gael, ac o ganlyniad mae rhai o'r casgliadau a luniwyd yn rhagarweiniol, a bydd angen eu gwirio gan gyfnod hwy o fonitro. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys targedau dangosyddion y mae rhai ohonynt heb unrhyw geisiadau cynllunio y gellid eu cymhwyso iddynt neu a gwblhawyd i'w hasesu yn ystod y cyfnod monitro. Daw'r rhain i gyfanswm o 8 yn ystod y cyfnod monitro cyffredol.
Argymhellion	Gan ystyried y dadansoddiad polisi, darperir argymhellion priodol gan gynnwys datganiad o unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol sydd eu hangen. Os canfyddir bod polisiâu'n methu bydd yr AMB yn nodi argymhellion clir ar yr hyn sydd angen ei wneud, os oes rhywbeth, i fynd i'r afael â hyn. Bydd ystyried y CDLI yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod monitro yn galluogi'r Cyngor i benderfynu a oes angen cynnal adolygiad o'r Cynllun.

Polisi Perfformiad Graddfeydd Goleuadau Traffig

- 4.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu strategol y Cynllun ac er mwyn darparu trosolwg cyfeiriadol cyflym at berfformiad polisi cynhwysir graddfeydd 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

	Targedau polisi / canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni
	Targedau polisi / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd, ond nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi
	Targedau polisi / canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gyda phryderon dilynol dros weithredu'r polisi
	Ni ellir ffurfio unrhyw gasgliad yn sgil data cyfyngedig

* Ar gyfer y dangosyddion hynny sydd heb darged / sbardun aserir y canlyniadau monitro a'u graddio'n unol â hynny.

Dangosyddion Amgen

- 4.3 Mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi methu â monitro dangosydd neu pan fydd dangosydd wedi cael ei ddisodli, rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a, lle bo'n briodol, bydd dangosydd arall yn cael ei nodi. Efallai hefyd y bydd achosion lle mae angen diwygio dangosydd, er enghraifft, er mwyn gwella eglurder y dangosydd neu'i adlinio gyda setiau data perthnasol. Mewn achosion o'r fath rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a chaiff y dangosydd ei ddiwygio fel bo'n briodol.

Sbardunau ar gyfer Adolygu'r Cynllun

- 4.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gallai'r amgylchiadau eithriadol canlynol ennyn adolygiad cynnar o'r Cynllun:

- Newid sylweddol mewn amodau allanol
- Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth
- Newid arwyddocaol mewn amgylchiadau lleol e.e. cau safle cyflogaeth sylweddol sy'n gwanhau'r economi leol
- Newid sylweddol mewn pwysau datblygu neu anghenion a strategaethau buddsoddi cyhoeddus mawr a buddsoddwyr preifat
- Pryderon sylweddol ynghylch canlyniadau'r AMB yn nhermau effeithiolrwydd / gweithredu polisi / a chyflenwi safleoedd, gan gynnwys y ffaith bod gostyngiad yn y cyflenwad tir ar gyfer tai yn is na 5 mlynedd.

Bydd pob un o'r materion hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun yn angenrheidiol.

Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 4.5 Mae Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Mae'r AC yn nodi 17 o amcanion a 63 o ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Mae hyn wedi'i nodi yn Adran 6 yr AMB.

Mae'r adran hon yn rhoi asesiad manwl i weld a yw polisiâu strategol y Cynllun, a'r polisiâu ategol cysylltiedig, yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Darperir argymhellion priodol wedi hynny, ynghyd â chymau gweithredu sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro. Yn gysylltiedig â'r CDLI, amlinellir y dadansoddiad yn nhrefn polisiâu strategol.

Strategaeth Ofodol

Monitro Nod / Canlyniad: Datblygiadau tai newydd yn cael eu dosbarthu yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol

Polisi Strategol: S1 / S2 Dosbarthiad Gofodol y Ddarpariaeth Dai Newydd

Amcanion y CDLI a Gefnogir:

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol sy'n ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

(O bwys, mae gwybodaeth ychwanegol am argaeledd tir ar gyfer tai presennol Sir Fynwy, gan gynnwys anheddau a gwblhawyd / a gafodd ganiatâd a'u lleoliad, ar gael yn y ddogfen Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 (CAATT) y gellir ei chyrchu drwy'r ddolen ganlynol: <http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2016/07/JHLA-Study-2016.doc.pdf>)

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
Cyfran y datblygiadau tai newydd a ddarperir yn unol â Pholisi S1 y Strategaeth Ofodol / amlinellir hierarchaeth aneddiadau ym Mholisi S2 *	Dylid lleoli datblygiadau preswyl newydd yn cyfateb i'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2:	Mae'r tai a gwblhawyd yn +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn	Anheddau a Gwblhawyd
	a. Prif drefi 41%		
	b. Aneddiadau Glan Hafren 33%		8.1%
	c. Aneddiadau Eilaidd Gwledig 10%		37.2%
	ch. Cyffredinol Gwledig 16%		14.5%

Dadansoddiad – Anheddau a Gwblhawyd

a. Prif Drefi

O blith y 234 o anheddau y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, roedd 40.2% (94 o unedau) ym mhrif drefi'r Sir, sydd yn y bôn yn cyfateb i'r targed dynodedig o 41%. Mae bron hanner yr anheddau a gwblhawyd (49%, 46 uned) ar hap-safleoedd, 44 uned yng Nghas-gwent a 2 uned yn Nhrefynwy. Mae gweddill y tai a gwblhawyd ar safleoedd bychain, (gan gynnwys addasiadau a newid defnydd) - 20 wedi'u cwblhau yn Y Fenni, 19 yng Nghas-gwent a 9 yn Nhrefynwy. O'r rhain, roedd 64 (68%) yn anheddau marchnad gyffredinol a 30 (32%) yn dai fforddiadwy.

Fel y gellid disgwyl, o ystyried mai hwn yw'r ail gyfnod monitro'n unig yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ac mai dim ond un o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y brif dref sydd wedi cael caniatâd cynllunio, ni chafodd unrhyw dai eu cwblhau ar y safleoedd hyn dros y cyfnod monitro cyfredol. Yn hytrach, mae cyfradd y tai a gwblhawyd, 40.2%, yn bennaf ar oherwydd hap-safleoedd. Yn wir, mae cyfran gymharol uchel o anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi yn adlewyrchu'r ffaith bod hap-safleoedd yn cyfrif am 58% o'r holl unedau y cofnodwyd eu cwblhau yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod monitro.

Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gwaith o gyflawni'r dyraniadau tai strategol yn y prif drefi yn sicrhau bod anheddau a gwblheir yn yr aneddiadau allweddol hyn yn parhau i gyd-fynd â'r strategaeth ofodol.

Mae'r anheddau y cofnodwyd eu cwblhau yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro hwn yn cymharu'n fwy ffafriol â rhai'r llynedd (27%). Unwaith eto, mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r nifer uchel o dai a gwblhawyd ar hap-safleoedd, yn hytrach na'r cynnydd / datblygiad yn y dyraniadau safleoedd strategol.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas ag anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi. Er y cydnabyddir bod hap-safleoedd yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r anheddau hyn a gwblhawyd yn unol â'r strategaeth ofodol, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol fu'r strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

b. Aneddiadau Glan Hafren

Roedd 8.1% (19 o unedau) o'r anheddau y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro mewn aneddiadau yng Nglan Hafren, sydd gryn dipyn yn is na'r targed dynodedig o 33% ar gyfer yr ardal hon. Mae hyn yn nodi bod y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni. Roedd 53% o'r tai hyn a gwblhawyd ar safleoedd bach - 6 wedi'u cwblhau ym Magwyr / Gwndy a 4 wedi'u cwblhau yng Nghil-y-coed, pob un ohonynt yn anheddau marchnad gyffredinol. Mae gweddill yr anheddau a gwblhawyd (9) ar hap-safleoedd yng Nghil-y-coed, pob un ohonynt yn dai fforddiadwy.

Efallai y gellid disgwyl cyfradd gwblhau isel gan nad yw'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI yn ardal Glan Hafren, sydd yn unol â'r strategaeth ofodol, wedi symud ymlaen i'r cam cwblhau. Rhagwelir, wrth i'r safleoedd hyn gael caniatâd a chael eu datblygu, bydd cyfran y tai a gwblhawyd yn aneddiadau Glan Hafren yn fwy cydnaws â'r ffigwr targed o 33%. Fodd bynnag, mae cyflawni'r gweithredu ar y safleoedd hyn yn arafach na'r disgwyl fel y nodir yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).

Mae'r gyfradd gwblhau yn sylweddol is na'r hyn a gofnodwyd yn AMB y llynedd a oedd ar 43%, yn uwch na'r targed a nodwyd. Fodd bynnag, priodolwyd hyn i'r tai a gwblhawyd ar safleoedd gweddilliol y CDU sy'n cael eu hadeiladu allan nawr.

Ystyrir bod y dangosydd hwn yn arwydd o broblem dros dro gyda chyflwyno strategaeth ofodol y Cynllun, yn hytrach na phroblem gydag addasrwydd neu effeithiolrwydd y strategaeth ei hun.

c) Aneddiadau Eilaidd Gwledig

Roedd 37.2% (87 o unedau) o'r holl anheddau y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro o fewn aneddiadau eilaidd gwledig y Sir. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r targed a nodwyd o 10% ac fel y cyfryw mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd.

Roedd mwyafrif helaeth y tai a gwblhawyd (92%) ar hap-safleoedd yn Llan-ffwyst - Westgate (Tir oddi ar Ffordd Merthyr) 37 o anheddau a Gate Gavenny (Hen safle Filter Coopers) 43 o anheddau. O'r rhain, roedd 57 yn anheddau marchnad gyffredinol a 23 yn anheddau fforddiadwy. Roedd gweddill yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bychain - 3 annedd yn Llan-ffwyst, 3 yn Rhaglan ac 1 ym Mrynbuga - pob un ohonynt yn anheddau marchnad gyffredinol.

Mae'r gyfran uchel o anheddau a gwblhawyd ar hap-safleoedd wedi arwain at ffigur targed uwch yn yr aneddiadau eilaidd gwledig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth y CDU neu'r dyraniadau gan i'r safleoedd hyn gael eu cymeradwyo fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Unedol Mae'r gyfran gymharol uchel o anheddau a gwblhawyd yn yr aneddiadau eilaidd gwledig hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod hap-safleoedd yn cyfrif am 58% o'r holl unedau y cofnodwyd eu cwblhau yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod monitro.

Ar ben hynny, o ystyried mai dyma'r ail flwyddyn i'r CDLI fod yn weithredol, nid oedd y safleoedd a neilltuwyd yn yr aneddiadau eilaidd gwledig wedi gwneud cynnydd digonol i fedru cwblhau anheddau yn ystod y cyfnod monitro presennol. Rhagwelir, fel bydd yr hap-safleoedd a nodwyd uchod yn cael eu hadeiladu a'u dyrannu a safleoedd a neilltuwyd yn cael eu datblygu yn Rhaglan, Brynbuga a Phenperllenni (cafodd yr olaf ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro hwn) bydd y gyfran a gwblhawyd yn yr aneddiadau hyn yn nes at y ffigwr targed.

Mae'r gyfradd gwblhau yn sylweddol uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr AMB y llynedd, ac ar 6%, yn is na'r targed dynodedig. Fodd bynnag, mae hyn i'w briodoli i anheddau, a gwblhawyd ar hap-safleoedd a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Unedol, yn dod ymlaen dros y cyfnod monitro hwn.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem gyda strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas ag anheddau a gwblhawyd yn yr aneddiadau eilaidd gwledig. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol fu'r strategaeth ofodol yn ystod cyfnod y CDLI.

ch. Cyffredinol Gwledig

Roedd (34 o unedau) o'r holl anheddau y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau gwledig eilaidd y Sir, sydd ychydig yn is na'r targed dynodedig (16%). Yn unol â hynny, nid oedd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd.

Fel y gellid disgwyl mewn aneddiadau gwledig safleoedd bach oedd yn cyfrif am yr holl anheddau a gwblhawyd, dros hanner ohonynt ar gyfer addasiadau / newid defnydd. Fel y datblygir safleoedd a neilltuwyd ym mhrif bentrefi'r Cynllun, ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer addasiadau mewn safleoedd bychain a datblygiadau mewnlenwi, rhagwelir y bydd y gyfran o gwblhawyd yn yr aneddiadau hyn yn cyd-fynd â'r ffigur targed o 16% dros gyfnod y cynllun.

Mae'r gyfradd gwblhau yn is na'r hyn a gofnodwyd yn AMB y llynedd, a oedd ar 24%, yn uwch na'r targed dynodedig ac yn adlewyrchu'r ffaith bod safleoedd bach yn cyfrif am bron hanner yr holl unedau a gwblhawyd yn y Sir.

O ystyried hyn, nid ystyrir bod unrhyw broblem gyda strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas ag anheddau a gwblhawyd yn yr ardaloedd cyffredinol gwledig, fel y nodir ym Mholisi S1 ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

Argymhelliad

- a. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
- b. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â strategaeth y Cynllun. Parhau i fonitro, fodd bynnag, gweler y sylwadau mewn perthynas â safleoedd tai strategol a neilltuwyd (Polisi S3).
- c. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
- ch Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Caiff anheddau a gwblhawyd a chaniatadau eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o'r modd y gweithredir y strategaeth ofodol.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
Cyfran y datblygiadau tai newydd a ganiatawyd yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1 hierarchaeth / aneddiadau a nodir ym Mholisi S2 *	Dylid lleoli datblygiadau preswyl newydd yn cyfateb i'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2:	Mae tai a gwblhawyd yn +/- 10% o'r gofynion a amlinellir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn	Caniatadau i Anheddau
	d. Prif drefi 41%		31%
	dd. Aneddiadau Glan Hafren 33%		10%
	e. Aneddiadau Eilaidd Gwledig 10%		37%
	f. Cyffredinol Gwledig 16%		22%

Dadansoddiad - Caniatadau i Anheddau

d. Prif Drefi

O'r 212 o unedau annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro, roedd 31% (65 o unedau) ym mhrif drefi'r Sir. Er bod hyn 10% yn llai na tharged dynodedig y CDLI, nid oedd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd gan fod hyn yn caniatáu ar gyfer byffer +/- 10%.

Roedd safleoedd bychain yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o ganiatadau yn y prif drefi, sy'n cyfrif am gyfanswm o 53 o anheddau (82%), 25 annedd yng Nghas-gwent, 18 yn y Fenni a 10 yn Nhrefynwy. Roedd gweddill y caniatadau i anheddau a gofnodwyd i'w briodoli i hap-safle yn y Fenni am 12 o fflatiau ymddeol. O bwys, roedd 39 o'r anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer anheddau marchnad gyffredinol a 26 ar gyfer tai fforddiadwy (18 yn y Fenni ac 8 yng Nghas-gwent).

O ran neilltuadau yn y CDLI, cafodd cais materion a gedwir yn ôl ar gyfer safle Heol Wonastow yn Nhrefynwy ganiatâd ar gyfer 340 o unedau (238 marchnad, 102 o unedau fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Fodd bynnag, ni chynhwysir y cais hwn yn y ffigurau monitro ar gyfer eleni gan i'r caniatâd amlinellol gael ei gynnwys yn AMB y llynedd. Ni chafodd neilltuadau eraill y CDLI yn y prif drefi (Fferm Deri a Choed Glas Y Fenni, Fairfield Mabey Cas-gwent, Heol Tudor Mynwy) ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau. Fodd bynnag, fel bydd y safleoedd hyn yn datblygu a chael caniatâd rhagwelir y bydd cyfran y caniatadau yn y prif drefi yn cynyddu yn unol â'r

targed dynodedig gan felly sicrhau gwell aliniad â strategaeth ofodol y CDLI. Darperir diweddariad ar ddatblygiad y safleoedd a neilltuwyd yn y prif drefi yn nadansoddiad polisi safleoedd strategol (Polisi S3).

Mae cymhariaeth gydag AMB y llynedd yn dangos gostyngiad sylweddol mewn caniatadau yn y prif drefi, o 81% i 31%. Mae'r gyfran uwch a gyflawnwyd y llynedd, a oedd yn sylweddol uwch na tharged y CDLI, i'w briodoli i'r caniatâd amlinellol yn Heol Wonastow Trefynwy a oedd yn cyfrif am 88% o ganiatadau'r prif drefi. Yn wir, mae'r caniatadau i anheddau ar gyfer Sir Fynwy yn ei chyfanrwydd yn is nag yn y cyfnod monitro diwethaf (i lawr o 519 i 212) sydd unwaith eto i'w briodoli i'r caniatâd a gafwyd ar gyfer safle strategol y CDLI yn Heol Wonastow.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau a roddwyd i anheddau yn y prif drefi ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

dd. Aneddiadau Glan Hafren

Roedd 22 (10%) o'r 212 o anheddau a ganiatwyd yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau Glan Hafren sydd yn is na'r targed dynodedig ar gyfer yr ardal hon, sy'n golygu bod y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd.

Roedd safleoedd bach yn cyfrif am yr holl ganiatadau a gofnodwyd yn ardal Glan Hafren - 9 o anheddau yng Nghil-y-coed, 5 yn Sudbrook, 4 yng Ngwndy, 3 ym Magwyr ac 1 ym Mhorth Sgiwed. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar gyfer anheddau marchnad gyffredinol (17), gyda 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yng Nghil-y-coed (yn cynnwys dau safle tai fforddiadwy 100%).

Mae'r gyfran isel o ganiatadau a gofnodwyd yn aneddiadau Glan Hafren i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith nad oedd yr un o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI wedi datblygu'n ddigonol i gael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae 4 safle tai strategol wedi'u neilltuo yng Nglan Hafren ac fel bydd y safleoedd hyn yn datblygu, disgwylir y bydd cyfran y caniatadau yn yr aneddiadau hyn yn cyd-fynd yn agosach â'r ffigwr targed o 33%. Dylai hyn, ynghyd â chyfluoedd parhaus ar gyfer hap-safleoedd/safleoedd bychain, sicrhau gwell aliniad â'r strategaeth ofodol fel yr amlinellir ym Mholisi S1. Darperir diweddariad ar ddatblygiad y safleoedd a neilltuwyd yng Nglan Hafren yn nadansoddiad polisi Safleoedd Strategol.

O bwys, mae cyfran y caniatadau a gofnodwyd yn aneddiadau Glan Hafren yn ystod y cyfnod monitro presennol yn debyg i ffigur y llynedd o 11%. Unwaith eto, roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith na chafodd y safleoedd a neilltuwyd ganiatâd cynllunio y gallid bod wedi'i ddisgwyl gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf gweithredu'r CDLI.

Ystyrir bod y ffaith nad oedd un o'r safleoedd a neilltuwyd yn yr ardal wedi cael caniatâd yn arwydd o broblem dros dro, yn hytrach na phroblem gydag addasrwydd neu effeithiolrwydd y strategaeth ei hun. Fel y nodwyd yn nadansoddiad Polisi S3, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r safleoedd a neilltuwyd yng Nglan Hafren yn gyflawnadwy na bod angen adolygu'u dyraniad. Mae'r oedi wrth eu datblygu, fodd bynnag, â goblygiadau ar gyfer

targedau a sbardunau monitro eraill ac ystyrir yr angen am unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â'r dangosyddion penodol hynny.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

e. Aneddiadau Eilaidd Gwledig

Roedd 78 (37%) o'r holl anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro o fewn aneddiadau eilaidd gwledig y Sir sydd yn sylweddol uwch na tharged dynodedig y CDLI o 10%. Mae cyfran uchel y caniatadau a roddwyd yn yr aneddiadau eilaidd gwledig yn ganlyniad caniatâd ar gyfer 65 o unedau ar safle dynodedig y CDLI ym Mhenperllenni a oedd yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o ganiatadau (83%). Roedd safleoedd bychain yn cyfrif am y caniatadau oedd yn weddill yn yr aneddiadau eilaidd gwledig, gan gyfrif am 13 o anheddau - 7 o anheddau yn Llan-ffwyst, 5 ym Mrynbuga ac 1 ym Mhenperllenni. O'r caniatadau hyn, roedd 55 ar gyfer anheddau marchnad gyffredinol a 23 ar gyfer tai fforddiadwy. Roedd dyraniad y CDLI ym Mhenperllenni yn cyfrif am bob un o'r unedau fforddiadwy a ganiatawyd.

Er y cydnabyddir bod yr aneddiadau eilaidd gwledig yn cyfrif am y gyfran uchaf o ganiatadau a roddwyd dros y cyfnod monitro, rhagwelir y bydd cyfran y caniatadau yn aneddiadau eraill y Sir, gan gynnwys y prif drefi a Glan Hafren, yn cynyddu wrth i safleoedd a neilltuwyd gael caniatâd gan felly sicrhau gwell aliniad â strategaeth ofodol y CDLI.

Mae'r caniatadau a gofnodwyd yn yr aneddiadau eilaidd gwledig yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cyferbynu â'r rhai a gofnodwyd y llynedd pan gyfrifai'r aneddiadfau hyn am 1% yn unig o'r holl ganiatadau. Unwaith eto, mae'r amrywiad hwn i'w briodoli i'r caniatâd a roddwyd i'r safle a neilltuwyd ym Mhenperllenni, ynghyd â'r diffyg cynnydd ar safleoedd a neilltuwyd (sydd yn unol â'r strategaeth ofodol) mewn mannau eraill yn y Sir.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau a roddwyd i anheddau yn aneddiadau eilaidd gwledig y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r strategaeth ofodol dros gyfnod y cynllun.

f. Cyffredinol Gwledig

Roedd o'r holl anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro o fewn ardaloedd gwledig y Sir. Er bod hyn yn uwch na tharged dynodedig y CDLI (16%), nid oedd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd am fod hyn o fewn y byffer +/- 10%.

Nid yw'n syndod mai safleoedd bychain oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r caniatadau i anheddau a gofnodwyd (68%) mewn amrywiaeth o aneddiadau gwledig ledled Sir Fynwy. Roedd nifer o'r rhain yn ymwneud ag addasu ysguboriau ac roedd pob un ar gyfer tai marchnad gyffredinol. Cafodd caniatâd ei roddi hefyd ar gyfer 15 o anheddau (9 fforddiadwy, 6 marchnad gyffredinol) ar un o safleoedd y prif bentrefi a neilltuwyd yn y CDLI (SAH11) yn Nhrellech.

Mae'r caniatadau a gofnodwyd mewn ardaloedd gwledig yn ystod y cyfnod monitro hwn yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn AMB y llynedd (7%). Gellid disgwyl hyn gan fod un o'r safleoedd a neilltuwyd yn y prif bentrefi wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

Mae targed tai'r CDLI yn dibynnu ar hap-safleoedd bychain a lleiniau unigol yn dod ymlaen ac felly nid oes pryder cynhenid yn ymwneud â nifer y caniatadau o'r fath a gymeradwywyd. Rhagwelir y bydd cynnydd yn yr holl safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI, gan gynnwys y rheiny o fewn prif bentrefi'r Sir, yn sicrhau bod cyfran y caniatadau mewn aneddiadau gwledig yn adlewyrchu'r targed dynodedig yn agosach ac yn galluogi gwell aliniad â'r strategaeth ofodol.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau a roddwyd i anheddau yn aneddiadau gwledig y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r strategaeth ofodol dros gyfnod y cynllun.

Argymhelliad

d Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

dd Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â strategaeth y Cynllun. Parhau i fonitro, fodd bynnag, gweler y sylwadau mewn perthynas â safleoedd tai a neilltuwyd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

e Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

f Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

* Mae Anheddau a gwblhawyd a chaniatadau'n cael eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o'r modd y gweithredir y strategaeth ofodol

Darpariaeth Tai

Nod/Canlyniad Monitro:	Darparu 4,500 o anheddau preswyl (gan gynnwys 960 o unedau preswyl fforddiadwy) yn y Sir dros gyfnod y cynllun.
Polisi Strategol:	S2 Darpariaeth Tai
Amcanion y CDLI a Gefnogwyd:	1, 3 & 4
Polisiâu Eraill y CDLI a Gefnogwyd:	H1-H9, SAH1-SAH11

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer yr anheddau marchnad gyffredinol a fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun *	Hyd at 488 o anheddau i'w hadeiladu bob blwyddyn 2013-2021	10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y CDLI am 2 flynedd yn olynol	234
2. Cyflenwad tir ar gyfer tai *	Cynnal lleiafswm o gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd drwy gydol cyfnod y cynllun	Llai na chyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd mewn unrhyw flwyddyn	4.1
3. Dwysedd y tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd ❖	Cwrdd â'r dwyseddau targed a amlinellir ym mholisiâu	Rhoddwyd caniatadau cynllunio nad	SAH4: 30 dwysedd yr hectar

	safleoedd a neilltuwyd SAH1 i SAH10	ydynt yn cwrdd â'r dwyseddau hyn	SAH10(ii): 34 dwysedd yr hectar
4. Adolygiad Astudiaeth o Anghenion a Safleoedd ar gyfer Llety i Sipsiwn/Teithwyr i'w gwblhau o fewn dwy flynedd i fabwysiadu'r CDLI	Os dynodir angen am safle (oedd) ychwanegol ceisio neilltuo safle addas erbyn Gwanwyn 2017	Ni chafodd yr angen dynodedig ei fodloni erbyn Gwanwyn 2017	Asesiad o Lety ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru Chwefror 2016

Dadansoddiad

1. Adeiladwyd 234 o anheddau marchnad gyffredinol a fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro (171 marchnad gyffredinol a 63 fforddiadwy). Roedd 135 (57.7%) o'r anheddau a gwblhawyd ar hap-safleoedd, gan gynnwys safleoedd yr Hen Labordy Gwyddoniaeth Fforensig, Cas-gwent a Westgate (Tir oddi ar Ffordd Merthyr) a Phorth Gavenny (yr Hen Coopers Filters), Llan-ffwyst. Roedd safleoedd bychain hefyd yn cyfrif am nifer sylweddol o anheddau a gwblhawyd dros y cyfnod hwn, sef cyfanswm o 99 (42.3%). Mae'r ffigur hwn yn sylweddol is na'r targed o 488 o anheddau'r flwyddyn a gwblhawyd rhwng 2013 a 2021. Mae'r ffigur hwn, ynghyd â'r gyfradd gwblhau o 205 o anheddau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, yn golygu y cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 439 o anheddau ers mabwysiadu'r Cynllun ac fel y cyfryw mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni.

Mae cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn dangos bod ychydig yn uwch wedi'u cwblhau dros y cyfnod monitro cyfredol. O'r rhain, mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn sylweddol uwch na'r llynedd tra mae'r anheddau marchnad gyffredinol yn is.

O ystyried bod rhai o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI wedi symud ymlaen i gyfnod datblygu, gellid disgwyl i'r gyfradd gwblhau fod yn is na'r targed. Ar ben hynny, gan mai hon yw'r ail flwyddyn yn unig ers i'r CDLI fod yn weithredol, ni ellid o reidrwydd ddisgwyl i'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI fod wedi'u cwblhau o ystyried yr amser mae'n ei gymryd i symud safleoedd drwy'r broses gynllunio. Fodd bynnag, gan fod safleoedd a neilltuwyd wedi cael caniatâd ac yn cael eu datblygu, bydd yr anheddau a gwblheir yn bendant yn cynyddu dros weddill cyfnod y Cynllun. O ystyried bod nifer o safleoedd a neilltuwyd wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhagwelir y cwblheir y safleoedd hyn yn ystod cyfnod monitro'r flwyddyn nesaf. Bydd y gwaith o gyflenwi safleoedd tai strategol y CDLI yn benodol yn gwella'r gyfradd gwblhau yn unol â'r targed dynodedig.

Mae nifer o ffactorau economaidd ehangach sy'n dylanwadu ar gyflenwi tai uwchben a thu hwnt i'r system gynllunio. Fodd bynnag, mae'r ffaith na fu caniatâd cynllunio erbyn diwedd y cyfnod monitro hwn ar unrhyw safle strategol a neilltuwyd, heblaw Heol Wonastow, yn achos pryder. Gwneir cynnydd wrth ddod â'r safleoedd hyn ymlaen, fel y

nodwyd yn y dadansoddiad o Bolisi S3 ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ellir cyflenwi'r safleoedd strategol a neilltuwyd ac nid oes angen eu hadolyguLle bo'n bosibl, bydd y Cyngor yn ceisio hwyluso darpariaeth y safleoedd a neilltuwyd sy'n bodoli eisoes. Serch hynny, ymddangosai'r gyfradd gyflenwi araf y gallai fod angen neilltuo safleoedd ychwanegol drwy ddiwygio'r CDLI neu drwy ddull pragmatig o lunio penderfyniadau ar geisiadau gwyro. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r materion hyn isod mewn perthynas â'r dangosydd cyflenwad tai.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau cwblhau anheddau yn ofalus yn AMBau y dyfodol i benderfynu ar effeithiolrwydd y fframwaith polisi wrth alluogi i gyflenwi anheddau marchnad gyffredinol a thai fforddiadwy.

2. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Fynwy (CAATT) ar gyfer y cyfnod 2015-16 yn dangos bod gan y Sir gyflenwad tir ar gyfer tai am 4.1 flynedd (yn seiliedig ar y dull gweddilliol). Mae cyfanswm y cyflenwad tir cyffredinol yn 2,647 o unedau, yn cynnwys 2,188 o unedau ar safleoedd mawr a 459 o unedau ar safleoedd bychain.

Fel y nodir yn y tabl isod, dyma'r flwyddyn gyntaf ers 2013-14 i'r cyflenwad tir ostwng yn is na 5 mlynedd. Er hynny, gan mai ffigwr 2015-16 yw 4.1 flynedd (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a ragnodir yn NCT 1), mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni.

Lle mae'r cyflenwad tir yn llai na 5 mlynedd, mae NCT1 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y rhesymau dros y diffyg ac y dylai'r CDLI gael ei adolygu naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Y rheswm sylfaenol dros y diffyg yn y cyflenwad tir yw'r gyfradd gyflenwi arafach na'r disgwyl yn y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI, fel y nodwyd yn y dadansoddiad uchod ac mewn perthynas â Pholisi S3. Mae hyn yn awgrymu bod angen neilltuo safleoedd ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Ystyrir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw drwy adolygiad cynnar o'r CDLI mabwysiedig. Er y cydnabyddir y byddai adolygiad cynnar yn digwydd cyn yr adolygiad statudol 4 blynedd (sy'n ddyledus yn 2018), o ystyried y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth fater cyflenwad tir, ystyrir bod adolygiad cynnar yn angenrheidiol. Byddai hyn hefyd yn helpu i geisio osgoi 'cynllunio trwy apelio' a datblygiadau ad hoc yn dod ymlaen y tu allan i system y cynllun datblygu a heb fod yn unol â strategaeth y Cynllun.

Bydd mabwysiadu dull pragmatig o wneud penderfyniadau ar safleoedd datblygu preswyl hefyd yn gymorth yn y cyd-destun hwn (fel y cydnabyddir yn NCT1, paragraff 6.2). Hynny yw, lle mae safleoedd yn gwyro oddi wrth y Cynllun Datblygu Lleol ond maent fel arall yn dderbyniol yng nghyd-destun cynllunio gellid argymhell ystyried eu cymeradwyo.

Ystyrir gofyniad NCT1 i Awdurdodau Cynllunio Lleol seilio'r cyfrifiadau tir ar gyfer tai 5 mlynedd ar y dull gweddilliol hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at y diffyg presennol yng nghyflenwad tir yr Awdurdod. Mae'n werth nodi, o dan ganllaw blaenorol NCT1, y gallai cyfraddau adeiladu'r gorffennol gael eu defnyddio hefyd i gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol dros y deng mlynedd diwethaf, byddai gan Sir Fynwy gyflenwad tir am 10.8 mlynedd ar gyfer tai. Tynnwyd y dull hwn o gyfrifo

nôl yn y NCT1 diwygiedig: gwneir y pwynt yn syml i helpu i ddangos nad yw'r mater hwn yn achos syml o'r CDLI yn peidio â chyflawni, ei fod yn gyfuniad cymhleth o reolau ynglŷn â'r modd mae cyflenwad tir yn cael ei fesur a ffactorau economaidd allanol sy'n effeithio ar adeiladu tai ac ar y farchnad dai. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i NCT1 a chyflenwi tir ar gyfer tai a chymerodd Sir Fynwy ran fel Awdurdod astudiaeth achos. Disgwylir canlyniadau'r ymchwil hwn yn ystod y cyfnod monitro nesaf a gall argymhell newidiadau i'r ffordd mae argaeledd tir ar gyfer tai'n cael ei gyfrifo ar hyn o bryd, fodd bynnag, hyd nes y gwneir unrhyw newidiadau, mae'r system bresennol yn berthnasol.

Dyddiad yr Astudiaeth	Cyflenwad dros Nifer o Flynyddoedd
1 Ebrill 2011-12	4.4
1 Ebrill 2012-13	3.6
1 Ebrill 2013-14	5.2
1 Ebrill 2014-15	5.0

3. Yn ystod y cyfnod monitro cafodd caniatâd ei roi ar gyfer 65 o unedau ar y safle eilaidd gwledig a neilltuwyd ym Mhenperllenni (25 Cam 1, 40 Cam 2) gyda dwysedd o 33.8 o anheddau fesul hectar. Mae'r cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer safle Heol Wynaist (ac eithrio Fferm Drewen) hefyd wedi cael caniatâd i 340 o anheddau gyda dwysedd o 3.0 annedd yr hectar.

Mae'r dwyseddau a gofnodwyd ar y ddau safle ar neu'n uwch na'r targed dwysedd a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol (30 dyh). Serch hynny, o ystyried mai hwn yw'r ail gyfnod monitro ac mai caniatâd cyfyngedig a roddwyd ar y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI, mae'r casgliadau a luniwyd mewn perthynas â dwysedd y safle yn parhau i fod yn rhagarweiniol. Daw effeithiolrwydd dwyseddau targed y CDLI yn fwy amlwg wrth i safleoedd a neilltuwyd gael eu symud ymlaen. Bydd y Cyngor felly yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol.

4. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fonitro anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac mae wedi paratoi Asesiad Llety Sipsiwn-Teithwyr (ALIST) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016. Nod yr asesiad yw darparu data a fydd yn nodi'r angen am gae i Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i alwadau a dyheadau preswyl ehangach. Un o ganfyddiadau allweddol yr asesiad yw bod angen amcangyfrifedig na chafodd ei ddiwallu ar gyfer wyth o leiniau at 2021, yn seiliedig ar orlenwi, deiliadaeth anawdurdodedig a'r tebygolrwydd o atgasedd diwylliannol at dai confensiynol. Gan fod yr angen wedi'i nodi, bydd angen chwilio am safle (oedd) addas erbyn Gwanwyn 2017, yn unol â'r targed monitro.

O ystyried hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud darpariaeth ar gyfer safle (oedd) sy'n briodol i gwrdd ag angen dynodedig sydd heb ei ddiwallu, gan weithio'n rhagweithiol gyda'r teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i sefydlu pa safle y byddent yn ei ffafrio (preifat neu Gyngor). Mae canfyddiadau'r broses ALIST yn awgrymu bod dyhead o fewn sawl cymuned Sipsiwn-Teithwyr am ddarpariaeth ar safleoedd preifat yn Sir Fynwy. Felly, mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio a chefnogi teuluoedd Sipsiwn-Teithwyr i nodi a datblygu safleoedd preifat hyfyw i ymdrin â'r angen sydd heb ei ddiwallu a nodwyd yn unol â fframwaith polisi'r CDLI. Os na ellir cyflenwi safle (oedd) preifat gallai fod angen

nodi safle sipsiwn / teithwyr cyhoeddus yn unol â fframwaith polisi'r CDLI. Fodd bynnag, gallai fod angen ystyried darparu safle(oedd) o'r fath drwy broses adolygu'r CDLI lle na ellir delio â hyn drwy'r fframwaith polisi presennol. Adroddir ar y datblygiad fu mewn cysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas ag adnabod / datblygu safleoedd preifat yn yr AMB nesaf.

Mae'r ALIST hefyd yn argymhell bod y Cyngor yn trefnu digwyddiad ymgysylltu i alluogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i wybod mwy am bolisiau a phrosesau cynllunio'r Cyngor i hwyluso Cymunedau i fanteisio ar gyngor cynllunio ac ar gyfleoedd datblygu cyn prynu tir yn y dyfodol.

O bwys, derbyniwyd 1 cais cynllunio ar gyfer llety Sipsiwn / Teithwyr ym Mawrth 2016. Mae'r cais ar gyfer safle sipsiwn preifat yn cynnwys 5 carafán ychwanegol a datblygiadau cysylltiedig ar dir yn Llangeview. Ni wnaed penderfynol ar y cais ar ddiwedd y cyfnod monitro hwn - bydd y canlyniad yn cael ei adrodd yn yr AMB nesaf.

Defnyddir polisi H8 yn seiliedig ar feini prawf y CDLI i ystyried unrhyw geisiadau am lety sipsiwn / teithwyr sy'n codi yn Sir Fynwy, gan gynnwys y cais presennol.

Argymhelliad

1. Dechrau adolygiad cynnar o'r CDLI.

2. Dechrau adolygiad cynnar o'r CDLI.

3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Dangosyddion Craidd

❖ Diwygiwyd i ddileu'r cyfeiriad at 'cyfartalog' am eglurhad. Mae'r dangosydd yn ceisio monitro'r dwysedd a gyflawnwyd ar safleoedd a neilltuwyd, yn hytrach na dwysedd cyfartalog.

Safleoedd Tai Strategol

Nod / Canlyniad Monitro: Cyflwyno'r safleoedd tai strategol yn unol â pholisi strategol S3 a pholisïau safleoedd a neilltuwyd SAH1-SAH7.

Polisi Strategol: Safleoedd Tai Strategol S3

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1, 3 a 4

Polisïau eraill y CDLI a Gefnogwyd: SAH1-SAH7

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd strategol fel y nodir ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH7	Sicrhau / cyflenwi'r angen am dai ar y safleoedd allweddol strategol a nodir ym Mholisi S3 a pholisïau safleoedd a neilltuwyd SAH1-SAH7 ystod cyfnod y cynllun:	Ni chaniateir caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014 ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol	
	a. Fferm Deri, Y Fenni		0
	b. Ffordd Crick, Porth Sgiwed		
	c. Fairfield Mabey, Cas-gwent		0
	ch. Heol Wonastow, Trefynwy		(340 *)

	d. Fferm Rockfield, Gwndy		0
	dd. Tir ym Mryn Finegr, Gwndy		0
	e.Felin Bapur, Sudbrook		0
2. Nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y nodir ym Mholisi S3 a pholisïau safleoedd a neilltuwyd SAH1 i SAH7	Anheddau a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol **	Anheddau a gwblhawyd yn syrthio o dan 10% o'r targed taflwybr tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol	
	a. Fferm Deri, Y Fenni		Amherthnasol
	b. Ffordd Crick, Porth Sgiwed		Amherthnasol
	c.Fairfield Mabey, Cas-gwent		Amherthnasol
	ch.Heol Wonastow, Trefynwy		0
	d.Fferm Rockfield, Gwndy		Amherthnasol
	dd. Tir ym Mryn Finegr, Gwndy		Amherthnasol
	e. Hen Felin Bapur, Sudbrook		Amherthnasol
	Dadansoddiad		
1. Caniatâd i Anheddau O ran safleoedd strategol a neilltuwyd, yn dilyn y caniatâd amlinellol a gafwyd yn ystod cyfnod yr AMB blaenorol, yn ystod y cyfnod cyfredol rhoddwyd caniatâd cais materion a gadwyd i 340 o unedau ar safle Heol Wonastow yn Nhrefynwy. Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw safleoedd strategol eraill ac fel y cyfryw mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i fodloni.			

O ystyried y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhai o'r safleoedd, gan gynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, hwyrach bod y dyddiad sbardun i gael caniatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 braidd yn uchelgeisiol. Mae methiant i gael caniatâd cynllunio ar unrhyw safleoedd strategol ychwanegol erbyn diwedd y cyfnod monitro cyfredol, fodd bynnag, yn fater o bryder, er y gwnaed cynnydd wrth ddod â'r safleoedd hyn ymlaen fel yr amlinellir yn gryno isod.

Fferm Deri, Y Fenni (SAH1):

Cyflwynodd Persimmon Homes gais llawn ar gyfer 250 o unedau preswyl ym mis Tachwedd 2014. Mae'r cais eto i'w benderfynu o ystyried materion sy'n weddill ac sy'n ymwneud â hyfywedd y safle (darpariaeth tai fforddiadwy) a rhedeg llinellau trydan uwchben o dan y ddaear. Rhagwelir y bydd y materion hyn yn cael eu datrys a'r cais yn cael ei symud ymlaen yn unol â hynny yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 yn disgwyl i'r safle ddarparu 185 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2017/18.

Ffordd Crick, Porth Sgiwed (SAH2):

Safle a neilltuwyd sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer 285 o unedau preswyl ac 1 hectar o dir wedi'i wasanaethu ar gyfer busnes a datblygiad diwydiannol. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori meistrgrynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyfredol i ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer y safle, er bod cais cynllunio eto i'w gyflwyno. Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 200 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2017/18.

Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3):

Cyflwynodd y tîrfeiddiannwr gais amlinellol (DC / 2014/01290) ym mis Hydref 2014 ar gyfer hyd at 600 o unedau preswyl (350 i gael eu cyflenwi o fewn cyfnod y Cynllun), gofod masnachol, gan gynnwys swyddfeydd a gweithdai (Dosbarthiad Defnydd B1) ac arwynebedd llawr ar raddfa fechan ar gyfer manwerthu / bwyd a diod (Dosbarthiadau Defnydd A1 ac A3) a mannau agored gwyrdd a glas aml-swyddogaethol. Mae'r cais eto i'w benderfynu oherwydd materion priffyrdd sy'n dal dan ystyriaeth (roedd gan Is-adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad daliad ar y cais am 18 mis ac nid oedd wedi'i ddatrys yn ystod y cyfnod monitro hwn). Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 200 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2017/18.

Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4):

Rhoddwyd caniatad amlinellol ar gyfer hyd at 370 o anheddau a 6.5 hectar o dir cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2014. Mae datblygwyr y safle (Barratt / David Wilson a Taylor Wimpey) wedi cyflwyno cais materion a gadwyd (DC / 2015/00392) ar gyfer 340 o unedau a gafodd ganiatâd ym mis Tachwedd 2015.

Mae dyraniad cyffredinol y safle yn y CDLI ar gyfer cyfanswm o 450 o unedau. Mae'r unedau ychwanegol sy'n ymwneud â'r dyraniad hwn yn cael eu cyflenwi fel estyniad i'r safle yn Fferm Drewen. Ni chyflwynwyd cais am yr elfen hon o'r safle eto. Mae tir y rhan hon o'r safle i bob perpas dan glo tan 2019 nes bydd datblygiad Taylor Wimpey yn symud ymlaen yn ddigonol i ganiatáu mynediad trwyddo.

Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 390 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2016/17.

Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5):

Safle a neilltuwyd sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer 270 o unedau preswyl a 2 hectar o dir wedi'i wasanaethu ar gyfer busnes a defnydd diwydiannol. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori meistrgrynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyfredol i ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer y safle, er bod cais cynllunio eto i'w gyflwyno. Rhagwelir y bydd cais yn cael ei gyflwyno ac yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 195 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2017/18.

Tir ym Mryn Finegr, Gwndy (SAH6):

Safle ar gyfer 225 o unedau preswyl, yn gysylltiedig â safle cyfagos Fferm Rockfield ac yn debygol o symud ymlaen ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r datblygwr wedi cyflwyno cais yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 120 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7):

Cafodd cais cynllunio llawn (DC / 2015 / 01,184) ei gyflwyno gan Ystadau Harrow (cadarnhawyd Redrow fel y datblygwr) ym mis Hydref 2015 ar gyfer 212 o unedau preswyl (192 o unedau marchnad ac 20 uned fforddiadwy). Bu nifer o faterion yn ymwneud â hyfywedd y safle'n gysylltiedig â'r cais hwn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd unrhyw faterion o'r fath yn cael eu datrys a'r cais yn symud ymlaen / yn cael ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle ddarparu 115 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun a'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2017/18.

Fel y cofnodwyd yn AMB y llynedd, cyflwynwyd cais tebyg, ond heb gynnwys tai fforddiadwy, (DC / 2014/01468) ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r ymgeiswyr yn dilyn hynny wedi gwneud apêl ar sail diffyg penderfyniad ar y cais. Mae'r apêl yn dal heb ei phenderfynu tra disgwylir canlyniad y cais mwy diweddar.

Cydnabyddir, ac eithrio Ffordd Wonastow, nad yw'r safleoedd strategol a neilltuwyd wedi symud ymlaen yn unol â'r targed dynodedig o gael caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014. Ar ben hynny, mae ffigurau taflwybr Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-16 yn dangos diffyg o 615 o anheddau o'r safleoedd strategol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae cynnydd cyfyngedig y safleoedd hyn yn golygu bod y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i fodloni am yr ail flwyddyn yn olynol. Fel y nodwyd uchod, gwneir cynnydd ar geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â llawer o'r safleoedd hyn a rhagwelir y bydd nifer o safleoedd strategol yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod monitro nesaf ac adroddir arnynt yn unol â hynny. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ellir cyflenwi'r safleoedd hyn na bod angen adolygu'u dyraniad. Mae'r oedi wrth eu symud ymlaen, fodd bynnag, â

goblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau monitro eraill a'r angen i unrhyw gamau pellach gael eu hystyried mewn perthynas â'r dangosyddion penodol hynny.

O ystyried pwysigrwydd cyflenwi'r safleoedd strategol, yn enwedig o ran eu cyfraniad at y cyflenwad tir 5 mlynedd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'u cynnydd yn ofalus.

Mae cyflenwi'r safleoedd strategol â goblygiadau amlwg ar gyfer y strategaeth ofodol. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisi S1, gan fod y safleoedd hyn yn cael eu symud ymlaen rhagwelir y bydd cyflenwi anheddau yn cyd-fynd yn agosach â strategaeth ofodol y Cynllun.

2. Anheddau a Gwblhawyd

Ni chwblhawyd unrhyw aneddiadau ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y cyfnod monitro, sydd i'w ddisgwyl, gan mai un safle o'r fath yn unig a gafodd ganiatâd. Gan fod cynnydd yn cael ei wneud ar nifer o geisiadau cynllunio ar safleoedd strategol, rhagwelir y bydd anheddau a gwblheir yn cyd-fynd â thargedau taflwybr tai'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai fel y bydd y safleoedd hyn yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhagwelodd taflwybr y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-15 yr anheddau cyntaf i'w cwblhau ar safle strategol Heol Wonastow yn 2015/16. Ni chyflawnwyd hyn wrth i broblemau godi yn ystod penderfynu ar gais materion a gadwyd a'r gweithredu manwl dilynol a oedd yn atal cychwyn ar y safle yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r materion hyn, fodd bynnag, wedi cael eu datrys ac ni fyddant yn atal y cynnydd sy'n digwydd ar y safle yn ystod y cyfnod monitro sydd ar ddod.

Mae cymhariaeth â thaflwybr y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn dangos y bu'n rhaid gwthio nôl yr anheddau y rhagwelwyd eu cwblhau oherwydd yr oedi yn y safleoedd sy'n dod ymlaen. Mae hyn â goblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau monitro eraill a rhoddir ystyriaeth i'r angen am unrhyw weithredu pellach mewn perthynas â'r dangosyddion penodol hynny. Bu'n rhaid asesu perfformiad un safle'n unig yn erbyn y dangosydd hwn yn y cyfnod monitro hwn ac nid oes tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw broblemau tymor byr i rwystro cyflenwi'r safle.

Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau monitro eraill a'r angen am unrhyw gamau pellach yn cael ei ystyried mewn cysylltiad â'r dangosyddion penodol hynny. Mae perfformiad o ddim ond un safle wedi gorfod cael ei hasesu yn erbyn y dangosydd hwn yn y cyfnod monitro hwn ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw broblemau tymor byr llesteirio cyflenwi safle.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu a yw'r safleoedd preswyl strategol a neilltuwyd yn y Cynllun yn cael eu cyflenwi'n unol â thargedau'r taflwybr tai.

Argymhelliad

1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

2. angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Cymeradwywyd cais materion a gedwir yn ôl Heol Wonastow (DC / 2015/00392) yn 2015/11/17 ar gyfer hyd at 340 o unedau sy'n cynnwys 238 o unedau marchnad a 102 o unedau fforddiadwy. Cynhwyswyd y caniatâd amlinellol ar gyfer y safle yn AMB 2014. Y targed yw 450 o unedau, anheddau ychwanegol i gael eu darparu drwy estyniad Fferm Drewen.

**2015-16 taflwybr CAATT

Tai Fforddiadwy

Canlyniad Monitro: Darparu 960 o unedau anheddau fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun

Polisi Strategol: Tai Fforddiadwy S4

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1, 3 a 4

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: H7, SAH1-SAH11

Newidiadau Cyd-destunol

Prisiau Tai

Mae'r amrywiadau a gofnodwyd ym mhrisiau tai cyfartalog y Sir ers 2012 wedi'u hamlinellu yn Adran 3 - Gwybodaeth Gyd-destunol. Mae goblygiadau posibl tueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro yn cael eu hasesu mewn perthynas â dangosydd 5 isod.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun * ¹	Cyflenwi 96 o anheddau fforddiadwy'r flwyddyn 2011-2021 (cyfanswm o 960 dros gyfnod y cynllun)	10% yn llai neu'n fwy na'r gyfradd adeiladu yn strategaeth y CDLI am 2 flynedd yn olynol	63
2. Nifer yr anheddau fforddiadwy a sicrhawyd ar safleoedd tai newydd	a. 35% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 neu fwy o aneddiadau yn y Prif Drefi a'r Aneddiadau Eilaidd Gwledig a nodir ym Mholisi S1	Cyfran y tai fforddiadwy a gyflawnwyd ar safleoedd datblygu ym mhob ardal yn disgyn o dan y gofyniad a nodir ym Mholisi S4	34% **

	b.25% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 neu fwy o Aneddiadau Glan Hafren ym Mholisi S1		Amherthnasol (Dim ceisiadau'n berthnasol)
	c. 60% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 3 neu fwy o anheddau yn y Prif Bentreffi a nodir ym Mholisi S1		60%
	ch. Mân bentrefi: safleoedd â chynhwysedd ar gyfer 4 o anheddau yn gwneud darpariaeth ar gyfer 3 i fod yn fforddiadwy; a safleoedd gyda chynhwysedd ar gyfer 3 o anheddau yn gwneud darpariaeth ar gyfer 2 i fod yn fforddiadwy.		Amherthnasol (Dim ceisiadau yn berthnasol)
3. Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd / a adeiladwyd ar Safleoedd Prif Bentreffi fel y nodwyd ym Mholisi SAH11	Safleoedd Prif Bentreffi i ddarparu 20 o dai fforddiadwy y flwyddyn ar y cyd 2014-2021	10% yn llai neu'n fwy na'r gyfradd adeiladu darged ar gyfer 2	15 ***

		flynedd yn olynol	
4. Nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithrio gwledig	Dim targed	Dim	0
5. Targed canran tai fforddiadwy ym Mholisi S4	Targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd	Prisiau tai cyfartalog yn cynyddu o 5% yn uwch na phrisiau sylfaenol lefelau 2012 yn cael eu cynnal dros 2 chwarter	Cyfeirier at y dadansoddiad isod (5)
Dadansoddiad			
1. Cwblhawyd cyfanswm o 63 o dai fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro, gan gyfrif am 27% o gyfanswm yr anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd. Mae bron i draean o'r anheddau a gwblhawyd ar hap-safleoedd yn Llan-ffwyst; 13 uned yn y Westgate a 10 uned ym Mhorth Gavenny. Lleolwyd 6 uned arall bellach ar safle'r Hen Labordy Gwyddoniaeth Fforensig yng Nghas-gwent. Mae'r caniatadau sy'n weddill i gyd yn ymwneud â chynlluniau tai fforddiadwy 100%, y cynllun mwyaf ohonynt yn cynnwys 16 o anheddau a gwblhawyd ar hen garejys domestig y tu cefn i Heol Thornwell, Cas-gwent a 9 annedd a gwblhawyd yn Hen Ysgol West End yng Nghil-y-coed. Roedd tri safle cynllun bychan 100% yn cyfrif am y 9 uned sy'n weddill Llwynu Lane, Y Fenni (6), Majors Barn, Y Fenni (2) a Sandy Lane, Cil-y-coed (1). Er bod y ffigur yn is na'r 96 o dai fforddiadwy oedd angen eu cwblhau'r flwyddyn rhwng 2013 a 2021, mae'n ffigur sylweddol uwch na'r cyfnod monitro diwethaf oedd yn cyfateb i 17 o unedau. Mae'r cynnydd yn y gyfradd gwblhau yn cyd-daro â datblygu hap-gynlluniau mwy fel Gavenny Gate a Westgate yn Llan-ffwyst. Mae'n werth nodi bod 102 o unedau fforddiadwy pellach wedi'u cynnwys yn y cais materion cadw yn Heol Wonastow a gafodd ganiatâd yn Nhachwedd 2015. Er gwaethaf hyn, mae'r tai fforddiadwy a gwblhawyd yn sylweddol is na tharged dynodedig y CDLI (96 y flwyddyn) gyda chyfanswm o 80 o anheddau fforddiadwy wedi'u cofnodi ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r cynnydd araf ar weithredu'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI, fel yr ystyriwyd hwy uchod mewn perthynas â Pholisïau S2 a S3, wedi golygu cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy o dan Bolisi S4. Fel y bydd safleoedd a neilltuwyd yn cael caniatâd cynllunio byddai disgwyl i'r tai fforddiadwy gynyddu yn unol â'r targed. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol hyd yma sy'n dangos nad yw Polisi S4 ei hun yn gweithredu'n effeithiol, er y bu oedi wrth benderfynu rhai ceisiadau cynllunio, yn enwedig Melin Bapur Sudbrook a Fferm Deri, oherwydd y trafodaethau ynghylch materion hyfywedd sy'n codi o			

ofynion Polisi S4. Mae'r materion hyfywedd eu hunain yn effeithio'n uniongyrchol ar y lefelau o dai fforddiadwy a sicrhawyd, fodd bynnag cynhelir asesiadau cadarn er mwyn sicrhau bod y cyfraniad posibl mwyaf yn cael ei sicrhau.

Bwriedir y mesurau a argymhellir yn y dadansoddiad o Bolisi S2 uchod i gynyddu'r cyflenwad tai, a ddylai fod o fudd i gyflenwi tai fforddiadwy. Nid oes angen unrhyw gamau penodol mewn perthynas â Pholisi S4 ond bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau cwblhau yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu ei effeithiolrwydd wrth ddarparu tai fforddiadwy.

Prif Drefi ac Aneddiadau Eilaidd Gwledig

Mae'r gyfran o dai fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd o 5 neu fwy o unedau ym Mhrif Drefi ac Aneddiadau Eilaidd Gwledig y Sir yn ystod y cyfnod monitro yn cyfateb i 34%. Roedd hyn yn is ychydig na tharged polisi'r CDLI o 35%.

Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar gyfanswm o 8 cais. Cynllun Heol Wonastow, Trefynwy oedd yr unig ganiatâd a gynhwyswyd yng nghanfyddiadau'r cyfnod monitro blaenorol. Caniatawyd cais Materion Cadw ar gyfer safle Heol Wonastow yn y cyfnod monitro cyfredol a oedd yn lleihau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy i 102 o unedau (sy'n cyfateb i 30% o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy) er mwyn darparu'r math o dai fforddiadwy sydd eu hangen yn yr ardal a darparu ar gyfer gofynion eraill sy'n gysylltiedig â dylunio.

Roedd y cynllun ail fwyaf yn cynnwys caniatâd ar gyfer 23 o unedau fforddiadwy ar y safle a neilltuwyd yn y CDLI i'r de o Lôn yr Ysgol ym Mhenperllenni (SAH10 (ii)). Roedd cynllun ar gyfer 26 uned arall o dai fforddiadwy 100% yn y Fenni a Chas-gwent, roedd un cynllun yn cynnwys adeiladu 12 o fflatiau ymddeol yn Hen Heol Henffordd, Y Fenni. Roedd y cais hwn hefyd yn cynnwys 5 fflat â chymorth, ond gan nad yw'r rhain yn ddefnydd C3 cyfangwbl, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

Roedd dau gais heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae'r ddau gynllun yn ymwneud ag addasiadau, yr Hen Gapel Pen y Fal, Y Fenni a Thŷ Tewdric, 22 Stryd y Gymraeg, Cas-gwent. Ni wnaed darpariaeth yng Nghapel Pen y Fal gan yr ystyriwyd bod y cynllun yn galluogi'r datblygiad sydd ei angen er mwyn arbed yr Adeilad Rhestredig. Darparwyd swm gohiriedig ar gyfer Tŷ Tewdric yn lle unrhyw dai fforddiadwy ar y safle, gan nad ystyrid yr ystafelloedd o faint digonol i fodloni safonau'r Gofyniad Ansawdd Datblygu. Nid oedd y swm gohiriedig yn gyfystyr â chyfraniad tai fforddiadwy llawn ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i 3 uned gan yr ystyrid na fyddai hyn yn hyfyw. Mae hyn yn unol â Pholisi S4 gan ei fod yn nodi y bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwneud yn amodol ar asesiad hyfywedd priodol.

Roedd gweddill y caniatadau a gofnodwyd yn y prif drefi a'r aneddiadau eilaidd gwledig ar gyfer safleoedd gyda chynhwysedd o lai na 5 uned ac, felly, yn is na'r trothwy a nodir ym Mholisi S4.

Ystyrrir, er na chyflenwir y ddarpariaeth tai fforddiadwy ar bob safle, y ceir cyfiawnhad clir dros wro o Bolisi S4. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus

er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r targed tai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi S4 yn AMBau y dyfodol.

Aneddiadau Glan Hafren

Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ardal Gan Hafren ar safleoedd o 5 uned neu fwy yn ystod cyfnod monitro'r cynllun. Caniatawyd dau gais ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy 100%, ynghyd â darparu cyfanswm o 5 uned. Mae'r ddau gynllun yn cael eu cynnal gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithas Tai Sir Fynwy) gyda'r nod penodol o ddarparu tai fforddiadwy yn y Sir.

Ni chafodd ceisiadau perthnasol eu penderfynu yn ystod y cyfnod monitro. Felly, nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad ystyrlon o effeithiolrwydd y polisi mewn perthynas â safleoedd o fewn ardal Glan Hafren ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd o'r fath yn ystod y cyfnod monitro nesaf er mwyn penderfynu ar y targedau tai fforddiadwy a nodwyd yn S4.

Prif Bentrefi

Caniaawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro o fewn y Prif Bentrefi ar gyfer safleoedd o 3 annedd neu fwy. Mae hyn yn ymwneud â'r safle a neilltuwyd ger Ysgol Trellech (SAH11 (xv)) ar gyfer 15 o anheddau. Cyrhaeddodd y caniatâd darged o 60% o unedau fforddiadwy. Mae nifer o Safleoedd Prif Bentrefi eraill hefyd ar hyn o bryd o fewn y system gynllunio / cyn cyflwyno cais, felly rhagwelir y bydd y rhain yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Er mai dim ond un cais a dderbyniwyd dros y trothwy o 3 neu fwy o anheddau, mae'r targed wedi ei gyrraedd, sy'n dangos bod Polisi S4 yn gweithio'n effeithiol o ran galluogi i gyflenwi tai fforddiadwy. Ar y llaw arall, derbynnir, gan ei fod yn ymwneud ag un caniatâd yn unig, ni ellir dadansoddi'n ystyrlon ar hyn o bryd effeithiolrwydd y polisi mewn perthynas â darpariaeth safleoedd mewn Prif Bentrefi. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r targed tai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi S4 yn AMBau y dyfodol.

Mân Bentrefi

Ni roddwyd caniatadau yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd bychain mewn Pentrefi Llai. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro unrhyw safleoedd mewn Mân Bentrefi er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r targed tai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi S4.

Caniaawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro ar y safleoedd dynodedig a neilltuwyd ym Mholisi SAH11. Roedd y caniatâd hwn yn gysylltiedig â'r safle ar gyfer 15 o anheddau gerllaw Ysgol Trellech (SAH11 (xv)). Cyrhaeddodd y caniatâd y targed o 60% o unedau fforddiadwy (9 annedd). Cafodd pump o'r unedau eu hadeiladu ar ddiwedd y cyfnod monitro, disgwylir y byddant yn cael eu cwblhau mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf.

Yn ychwanegol at y safle ar Trellech, cymeradwywyd dau gais arall ar safle Prif Bentref (Drenwydd Gelli-farch a Phenallt), yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol (A106). Mae nifer o Safleoedd Prif Bentref eraill hefyd ar hyn o bryd o fewn y system gynllunio / cyn cyflwyno cais, felly rhagwelir y bydd y rhain yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Er nad yw'r targed o ran Prif Bentrefi wedi cael ei gyflawni, bu'r cynnydd ers y cyfnod monitro blaenorol yn amlwg. Ystyrir bod y datblygiad o 15 annedd yn Nhryleg ac ychwanegiad o 2 safle ychwanegol i Adran 106 yn dangos bod datblygiad yn y safleoedd a neilltuwyd yn y Prif Bentrefi. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ceisiadau a chyfraddau cwblhau'n ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd Polisi S4 wrth gyflenwi tai fforddiadwy ar Brif Safleoedd y Pentrefi.

Ni chwblhawyd unrhyw anheddau'n ymwneud â chynlluniau eithrio gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r safle sengl o dai fforddiadwy ar gyfer adeiladu'ch cartref eich hun y cyfeirir ato yn yr AMB blaenorol wedi datblygu ymhellach, ond nid yw wedi'i gwblhau eto. Ni roddwyd caniatadau ychwanegol ar gyfer cynlluniau eithrio gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â chynlluniau eithrio gwledig.

Y sbardun ar gyfer cynnal profion hyfywedd ychwanegol mewn perthynas â'r targedau tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yw cynnydd mewn prisiau tai ar gyfartaledd o 5% neu fwy yn uwch na phris sylfaenol 2012 a gynhaliwyd dros 2 chwarter.

Fel yr amlinellir yn Adran 3, mae Data'r Gofrestrfa Tir yn dangos bod prisiau tai cyfartalog cyffredinol yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol, ac eithrio chwarter 2 2015 (mis Ebrill i Fehefin). Yn dilyn hynny, mae'r prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2016 (Ionawr i Fawrth) o £220,640 yn uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 2012 (£188,640). Er gwaethaf hyn, nid oedd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i fodloni. Byddai cynnydd o 5% yn ffigur sylfaenol prisiau chwarter 4 2012 yn cyfateb i gynnydd o £9,432 ac er bod prisiau tai ar gyfartaledd wedi codi'n gyffredinol dros y cyfnod monitro 2015-2016, nid yw prisiau wedi cynyddu gymaint â hynny'n barhaus dros y 2 chwarter. Y cynnydd mwyaf a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro oedd £5151 rhwng chwarter 4 2015 a chwarter 1 2016. Yn unol â hynny, ni fu newidiadau sylweddol mewn prisiau tai cyfartalog i olygu bod angen ailasesiad o'r dystiolaeth hyfywedd mewn perthynas â Pholisi S4. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro tueddiadau cyfartaledd prisiau tai yn AMBau y dyfodol er mwyn penderfynu ar unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithiol.

Dylid cydnabod yn ogystal, fodd bynnag, mai dim ond un elfen yn unig yw prisiau tai a allai effeithio ar hyfywedd datblygiadau. Byddai costau adeiladu, er enghraifft, wedi codi dros y cyfnod monitro hefyd. Er na phennwyd costau adeiladu fel dangosydd monitro yn y CDLI, bydd materion hyfywedd cyffredinol yn cael eu hadolygu fel yr amlygir gwybodaeth ar sail achos-wrth-achos ac mewn perthynas â gwaith dichonoldeb strategol ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw oblygiadau posibl pellach ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithiol.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
4. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
5. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

* Dangosyddion Craidd

¹ Dangosydd a Tharged yn seiliedig ar ardal gynllunio Sir Fynwy a Chynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn unig.

** yn cynnwys 100% o safleoedd tai fforddiadwy

*** Caniatâd a roddwyd ar gyfer SAH11 (xv) Tir ger Ysgol Trellech 15 uned (9 uned marchnad/6 uned fforddiadwy) [DC / 2015/00097]

Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

Nod / Canlyniad Monitro: Cadw'r cyfleusterau cymunedol a hamdden presennol a cheisio datblygu cyfleusterau ychwanegol

Polisi Strategol: S5 Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1 & 5

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: CRF1, CRF3

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth, 2016
1. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio	Dim targed *	Dim *	5
2. Nifer y cyfleusterau cymunedol / hamdden a gollwyd		Colli unrhyw gyfleuster cymunedol / hamdden mewn unrhyw flwyddyn	0

Dadansoddiad

1. Cymeradwywyd 5 cais cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro. Roedd dau o'r ceisiadau ar gyfer defnydd hamdden. Mae'r rhain yn cynnwys estyniad i'r ardal chwarae ar dir Neuadd Goffa Hood yn Devauden a darparu dwy ardal chwarae newydd wedi'u o fewn glaswelltir yr amwynder presennol yng Nghanolfan Ymwelwyr Llandegfedd ynghyd â storfa gychod ac adeilad cynnal a chadw newydd i'r ceidwad. Mae'r storfa gychod newydd ar gyfer storio cychod diogelwch a chychod ac offer y clybiau hŷn a'r clybiau iau. Fodd bynnag, mae'n disodli'r cynwysyddion storio presennol ar y safle yn hytrach na darpariaeth storio ychwanegol.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 3 chyfleuster cymunedol yn ystod y cyfnod monitro, gan gynnwys ysgol gyfun newydd yn Nhrefynwy. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer estyniadau i'r Uned SNRB / Anghenion Addysgol Arbennig yn Ysgol Gynradd Overmonnow, Trefynwy i ymestyn yr ardal addysgu ac i ddarparu man chwarae dan do o fewn y maes chwarae

presennol, ac ar gyfer rhan o annedd domestig presennol i gael ei ddefnyddio fel busnes gwarchod plant.

Bu gostyngiad yn nifer y cyfleusterau cymunedol / hamdden a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro (5 cyfleuster) o'i gymharu â'r AMB blaenorol (9 cyfleuster). Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, nid oes unrhyw awgrym nad oedd polisiau perthnasol y Cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli cyfleusterau cymunedol / hamdden yn ystod y cyfnod monitro, gan nodi bod y dangosydd targed a'r canlyniadau monitro i leihau colli cyfleusterau cymunedol a hamdden wedi cael eu cyflawni. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol ag AMB y llynedd pan gollwyd 3 chyfleuster o'r fath i ddefnyddiau eraill.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro colli cyfleusterau cymunedol / hamdden yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

* Nid ystyriwyd yn briodol gynnwys targed / sbardun ar gyfer y dangosydd hwn o gofio, mewn rhai achosion, bod y Cyngor yn edrych ar leihau nifer y cyfleusterau cymunedol neu ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.

Manwerthu

Monitro Nod / Canlyniad: Datblygiad manwerthu bwyd uniongyrchol newydd a nwyddau nad ydynt yn swmpus i ganolfannau lleol a thref y Sir a cheisio gwella'u bywiogrwydd, eu hatyniad a'u hyfywedd.

Polisi Strategol: S6 Manwerthu

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1 & 2

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd RET1-RET4

Newidiadau Cyd-destunol

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y NCT4 diwygiedig Manwerthu a Chanol Trefi a Phennod 10 PCC yn ystod mis Medi / Tachwedd 2015. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i geisio sicrhau bod polisi adwerthu a chanol trefi'n gyfoes ac yn cymryd i ystyriaeth anghenion, gofynion a newid cymeriad canol trefi a manwerthu yn yr 21ain ganrif, fel mae tueddiadau siopa'n esblygu. Disgwylir i fersiynau diwygiedig NCT4 a Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 10 gael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro nesaf a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn yr AMB nesaf.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill, 2015 - 31 Mawrth, 2016
1.Nifer y datblygiadau manwerthu bwyd newydd a nwyddau nad ydynt yn swmpus a ganiatawyd mewn canol trefi / canolfannau lleol fel cyfran o'r holl ddatblygiadau manwerthu a ganiatawyd	90% o arwynebedd llawr manwerthu newydd ar gyfer bwyd a nwyddau nad ydynt yn swmpus i gael eu lleoli yng nghanol trefi / lleol	Mae mwy na 10% o arwynebedd llawr manwerthu newydd ar gyfer bwyd a nwyddau nad ydynt yn swmpus yn cael eu datblygu y tu allan i ganol trefi / lleol mewn unrhyw flwyddyn	Caniatawyd 53.2% o arwynebedd llawr manwerthu mewn canol trefi / canolfannau lleol *
Canran yr unedau gwag o fewn ASC pob canol tref a lleol **	Dim cynnydd yn nifer yr unedau gwag:	Cyfraddau gwacter mewn canol trefi /	
	a.Y Fenni		5.8%

	(2014: 5.1%)	canolfannau lleol yn cynyddu am 2 flynedd yn olynol	
	b.Cil-y-coed		7.6%
	c. Cas-gwent		10%
	ch. Trefynwy (2014: 8.3%)		7.9%
	d. Magwyr (2014: 9.1%)		0%
	dd. Rhaglan (2014: 0%)		0%
	e. Brynbuga (2014: 7.8%)		11.1%
3. Canran y defnyddiau A1 ym mhrif ffryntiadau siopa'r Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy ***	% y defnyddiau A1 heb fod ddim llai na'r trothwyon a nodwyd ar gyfer prif ffryntiadau siopa trefi fel y'u diffinnir yn y CCA Ffryntiadau Siopa Cynradd **	% ar gyfer ffryntiadau siopa cynradd yn disgyn o dan y trothwy a nodir yn y CCA	
	a. Y Fenni • PSF1 Stryd y Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore & 1 Stryd Nevill (Targed 75%)		• 77%
	• PSF2 Rhodfa Cibi (Targed 100%)		• 100%
	• PSF3 Stryd Cross (51-60 a Neuadd y Dref) (Targed 55%)		• 36%
	b. Cil-y-coed • PSF4 Heol Casnewydd (Targed 65%)		• 65%

	c.Cas-gwent • PSF5 Stryd Fawr <i>(Targed 75%)</i>		• 80%
	• PSF6 Stryd y Santes Fair <i>(Targed 65%)</i>		• 65%
	ch. Trefynwy • PSF7 Stryd Monnow <i>(Targed 75%)</i>		• 76%
	• Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt & Stryd y Priordy (1-4) <i>(Targed 65%)</i>		• 57%

Dadansoddiad

1. Caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau manwerthu A1 dros y cyfnod monitro, un o'r rhain oedd ar gyfer defnydd manwerthu A1 yng nghanol tref Cas-gwent (newid defnydd o ddeintyddfa i A1 ar y llawr gwaelod a lefel islawr 216 m kg) a'r llall oedd ar gyfer siop gyfleustra newydd A1 190 metr sgwâr mewn lleoliad y tu allan i'r canol ym Maerdy, y Fenni. Yn unol â hynny, caniatawyd 53.2% o'r holl arwynebedd llawr manwerthu newydd mewn canol trefi / canolfannau lleol a 46.8% y tu allan i ganol trefi, sy'n golygu bod y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni. Fodd bynnag, nid yw'r caniatâd ar gyfer y siop gyfleustra y tu allan i'r canol (DC / 2014/01513) yn gwrthdaro ag unrhyw un o bolisïau'r CDLI. Er bod Polisi RET4 yn annog datblygiadau manwerthu o fewn canol trefi, mae Polisi S5 yn caniatáu cyfleusterau cymunedol megis siopau cyfleustra lleol o fewn ffiniau datblygu yn amodol ar angen manwerthu priodol a phroffion effaith. Ystyrir y datblygiad hwn yn briodol, felly, o ystyried amgylchiadau'r cais. Ar ben hynny, cafodd y ffaith i ganiatâd ar gyfer defnydd manwerthu A1 yng nghanol tref ei ystyried yn welliant ar berfformiad y llynedd pan na chofnodwyd caniatâd o'r fath.

O gofio hyn, ac o ystyried mai dim ond dau ganiatâd fu ar gyfer datblygiad manwerthu A1, nid ystyrir bod unrhyw bryderon gyda gweithredu polisïau manwerthu'r CDLI ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd fframwaith polisi manwerthu'r Cynllun.

Mae'r cyfraddau gwacter a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro ** ym mhob un o ardaloedd siopa canolog y Sir (ASC) yn is na'r gyfradd wacter yn y DU (12.4% Mawrth 2016, Cwmni Data Lleol). Mae'r cyfraddau gwacter rhwng y canolfannau yn amrywio o 0% ym Magwyr a Rhaglan i 11.1% ym Mrynbuga.

Mae cymhariaeth â chyfraddau gwacter y llynedd yn dangos bod 3 canolfan wedi gweld gostyngiad yn y cyfraddau gwacter – Cil-y-coed (9.2% i 7.6%), Trefynwy (8.3% i 7.9%) a Magwyr (9.1% i 0%) – tra'r oedd Rhaglan wedi cynnal cyfradd wacter o 0%, sy'n awgrymu bod y canolfannau hyn yn perfformio'n arbennig o dda. I'r gwrthwyneb, roedd 3 canolfan wedi cofnodi cynnydd mewn cyfraddau gwacter ers y cyfnod monitro blaenorol - Y Fenni (5.1% i 5.8%), Cas-gwent (9.0% i 10.0%) a Brynbuga (7.8% i 11.1%). Serch hynny, bu'r codiadau hyn yn ymylol ar y cyfan ac nid ydynt yn codi unrhyw bryderon ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau. Ar ben hynny, o ystyried bod pob un o gyfraddau gwacter canolfannau yn gyffredinol yn isel ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, dengys hyn bod canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn seiliedig ar gyfnod o 2 flynedd er mwyn galluogi tueddiadau canlyniadol i ddod i'r amlwg. Mae'r lefelau gwacter a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn, ynghyd â'r rhai a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, yn darparu'r ffigurau sylfaen i alluogi dadansoddiad cymharol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro lefelau gwacter yn AMBau y dyfodol i benderfynu ar unrhyw dueddiadau.

3. Mae canran y cyfraddau manwerthu A1 o fewn ffryntiadau siopa cynradd trefi, a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro, ** yn gyffredinol yn cyd-fynd â'r trothwyon a nodir yng Nghannllawiau Cynllunio Atodol Ffryntiadau Siopa Cynradd. Gosodwyd y trothwyon dynodedig mewn dau o'r Ffryntiadau Siopa Cynradd ar lefelau uwch na lefel bresennol defnyddiau manwerthu o heb fod yn A1 oherwydd bod dyhead i wella'u cynnig manwerthu h.y. PSF3 Stryd y Groes (51-60 a Neuadd y Dref) Y Fenni a PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd y Prior (1-4) Trefynwy. Ni fu unrhyw newid yn y gyfran defnyddiau manwerthu o fewn y ffryntiadau hyn ers y llynedd sy'n dangos na wnaed unrhyw gynnydd tuag at gyflawni'r trothwyon dynodedig. Mae'n bwysig felly gymryd safiad polisi cryf ar gynigion ar gyfer newid defnydd i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai manwerthu yn y ffryntiadau hyn er mwyn delio â'r mater hwn.

Mae cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn dangos bod cyfran y defnyddiau A1 o fewn ffryntiadau siopa cynradd trefi yn aros yn ddigynnewid, ac eithrio PSF1 Stryd y Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore & 1 Stryd Nevill, Y Fenni a PSF7 Stryd Monnow Trefynwy a gofnododd newidiadau ymylol (+ 1% i 77% a -1% i 76% yn y drefn honno). Mae'r cyntaf yn ymwneud â newid defnydd o uned A3 i ddefnydd A1 yn 53 Stryd Frogmore a'r ail yn ymwneud â newid defnydd o uned A1 i ddefnydd A2 yn 71 Stryd Monnow ¹, y ddau ffigur yn cydymffurfio â pholisi.

O ystyried hyn, ystyrir bod ffryntiadau siopa cynradd trefi yn fywiog ac yn hyfyw ac yn gweithredu'n dda ac nad oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd fframwaith polisi manwerthu'r Cynllun.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*2 ganiatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau manwerthu dros y cyfnod monitro, un yn y canol tref ac un y tu allan i'r canol.

**Papur Cefndir Manwerthu Sir Fynwy (Chwefror 2016). Dyddiad sylfaenol Hydref 2015

***CCA Ffryntiadau Siopa Cynradd Sir Fynwy, Ebrill 2016

¹DC / 2015/00040

Economi a Menter

Nod / Canlyniad Monitro: Sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth a diogelu tir cyflogaeth y Sir

Polisi Strategol: S8 Menter ac Economi, S9 Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 7

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: E1-E3, RE1, SAE1-SAE2

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill, 2015 - 31 Mawrth, 2016
1. Cyflenwad tir cyflogaeth / datblygu net	Cynnal digon o dir cyflogaeth i gwrdd â chyfradd manteisio ar 1.9 hectar y flwyddyn	Tir cyflogaeth annigonol ar gael i gwrdd â'r gyfradd manteisio a ddynodwyd o 1.9 hectar y flwyddyn	41.18 hectar
2. Nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth	Cynnal digon o dir cyflogaeth i gwrdd â chyfradd manteisio ar 1.9 hectar y flwyddyn	Tir cyflogaeth annigonol ar gael i gwrdd â'r gyfradd manteisio o 1.9 hectar y flwyddyn	1.131 hectar
3. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau newydd (yn ôl math) ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd fel y nodwyd ym Mholisi SAE1	Dim targed penodol	Diffyg datblygu ar safleoedd cyflogaeth strategol a nodir ym Mholisi SAE1	Caniatawyd chaniatâd cynllunio

		erbyn diwedd 2017	
4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) drwy setliad	Dim targed penodol	Dim	
	Prif Drefi		0.95 hectar (3.72ha **)
	Aneddiadau Glan Hafren		2.83 hectar
	Aneddiadau Eilaidd Gwledig		0.48 hectar
	Cyffredinol gwledig		0.22 hectar
5. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yn ôl sector * / **	Dim targed penodol	Dim	
	Gweithgynhyrchu		.93 hectar
	Cyflenwad trydan, nwy, ager ac aerdymheru; cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad		0.24 hectar
	Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur		0.48 hectar
	Cludiant a storio; gwybodaeth a chyfathrebu		2.83 hectar
	Gweithgareddau eiddo tirol; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; Gweithgareddau gweinyddol a chefnogi gwasanaethau		(3.72 hectar **)
6. Cyfanswm y tir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau cyflogaeth (h.y. heb fod yn B1, B2, B8)	Lleihau colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau nad ydynt yn B1, B2, B8	Colli unrhyw dir cyflogaeth B1, B2 neu B8 mewn unrhyw flwyddyn	0.56 hectar

7. Cyfran y gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy	Cynyddu cyfran y gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy (2014: 54.5%)	Dim	58.3%
8. Nifer y bobl sy'n mewn-gymudo	Lleihau lefel y mewn-gymudo dros gyfnod y cynllun (2014: 19,200)	Dim	17,800
Nifer y bobl sy'n all-gymudo o Sir Fynwy	Lleihau lefel yr all-gymudo dros gyfnod y cynllun	Dim	18,700
Dadansoddiad			
Mae 41.18 hectar o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r AMB blaenorol (46.8 hectar) sy'n cyfrif am ddatblygiad sydd ar hyn o bryd ar y gweill ar ddyraniadau SAE1 yn Quaypoint, Magwyr (SAE1b) a Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d). Felly, cynhaliwyd digon o dir cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro gan roi cyfle i gwrdd â'r gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9 hectar y flwyddyn. Mae Polisiâu S8 a S9 yn gweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn.			
Er bod digon o dir ar gael ar draws y Sir, roedd y gyfradd manteisio ar dir cyflogaeth (h.y. datblygiadau wedi'u cwblhau) yn gyfyngedig i 1.131 hectar dros y cyfnod monitro. Priodolwyd hyn yn gyfan gwbl i fanteisio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir (SAE2). Roedd cyfran helaeth o hyn (0.82 hectar) yn ymwneud â chwblhau dwy uned ddiwydiannol B2 ar Ystâd Ddiwydiannol Fferm Newhouse yng Nghas-gwent. Ymgwymerwyd â datblygiad ychwanegol hefyd ym Mragdy Magwyr (0.29 hectar) i gynorthwyo yn eu cynlluniau ehangu. Er bod y raddfa manteisio'n ymddangos yn isel mae wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r 0.38 hectar a gofnodwyd yn yr AMB blaenorol. Mae digon o dir cyflogaeth ar gael, cyfran fawr ohono wedi'i leoli ym Magwyr, ar hyd coridor yr M4, gan ddarparu cyfle gwych i sicrhau buddsoddiad. Mae'r ffigwr manteisio'n debygol o gynyddu'n sylweddol yn y cyfnod monitro nesaf oherwydd y datblygiad ar y gweill yn Quaypoint, Magwyr a Westgate, Llan-ffwyst ynghyd â'r caniatâd Materion Cadw a roddwyd yn Heol Wonastow, Trefynwy. Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn ymwneud â chyfanswm y cyflenwad tir yn hytrach na'r cyfraddau manteisio, bydd y dangosydd hwn, serch hynny, yn cael ei fonitro'n ofalus yn yr AMB yn y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â thir cyflogaeth.			
Cymeradwywyd tri chais ar gyfer caniatâd cynllunio ar safleoedd wedi'u neilltuo a ddynodwyd ym Mholisi SAE1 yn ystod y cyfnod monitro. Mae cyfanswm o 2.54 hectar yn Quaypoint, Magwyr (SAE1b) ar gyfer warws storio a dosbarthu (Dosbarthiad Defnydd B8) ynghyd â gwaith cysylltiedig i helpu i ymestyn y bragdy presennol sydd yn gyflogwr allweddol yn y rhanbarth. Mae'r ddau gais arall a gymeradwywyd yn gysylltiedig â datblygiad yn Westgate, Llan-ffwyst ar gyfer uned Coffi Costa a bwyty gyrru-drwyddo			

McDonald's sy'n cyfateb i arwynebedd o 0.56 hectar ac er nad yw, a bod yn fanwl gywir, yn ddefnydd cyflogaeth traddodiadol mae gan y bwyty ei hun y potensial i greu 45 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Er nad yw'n ymwneud â safle cyflogaeth a neilltuwyd SAE1, cymeradwywyd cais Materion Cadw yn y cyfnod monitro hwn ar gyfer 3.7 hectar ar Heol Wonastow, safle Defnydd Cymysg Strategol Trefynwy, yn dilyn caniatâd amlinellol am 6.5 hectar a roddwyd yn y cyfnod monitro blaenorol.

Bu rhywfaint o gynydd ar gyflawni'r safleoedd cyflogaeth strategol yn ystod y cyfnod monitro, yn enwedig o'i gymharu â'r AMB blaenorol lle na chafodd ceisiadau eu cymeradwyo. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â darparu safleoedd cyflogaeth strategol.

Mae'r dangosydd hwn yn ceisio monitro faint o arwynebedd llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd drwy anheddiad yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd geisiadau ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, sef cyfanswm o 4.48 hectar. O'r rhain, 1 caniatâd oedd ar safle busnes a diwydiannol (SAE1b) cyfanswm o 2.54 hectar, 3 chaniatâd ar safleoedd cyflogaeth a warchodir (safleoedd SAE2) sef cyfanswm o 0.93 hectar a 7 caniatâd ar dir cyflogaeth heb ei neilltuo, cyfanswm o 1.01 hectar.

Rhoddyd caniatâd hefyd ar gyfer 3.72 hectar o dir ar safle defnydd cymysg strategol y CDLI yn Heol Wonastow Trefynwy (arwynebedd llawr masnachol B1 a B8, iard storio, a pharcio). Fodd bynnag, gan fod y caniatâd amlinellol ar gyfer 6.5 hectar o dir cyflogaeth ar y safle hwn wedi'i gynnwys yn AMB 2014 nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyfredol i osgoi cyfrif ddwywaith Mae, serch hynny, yn bwysig cydnabod bod y rhan hon o'r safle wedi cael caniatâd cynllunio.

Roedd anheddiad Magwyr yng Nglan Hafren yn cyfrif am y rhan fwyaf o arwynebedd llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiad defnydd B a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro. Daeth hyn i gyfanswm o 2.83 hectar, pob un ohonynt ym Mragdy Magwyr, yn cynnwys 2.54 hectar ar ran ddynodedig busnes a diwydiannol safle SAE1b (B8 warws storio a dosbarthu) gyda 0.29 hectar arall yn y rhan cyflogaeth a warchodir o'r safle SAE2o (B8 iard storio). Daeth y caniatadau cyflogaeth (dosbarthiad defnydd B) i gyfanswm o 0.95 hectar yn Y Fenni yn cynnwys depo bychan ailgylchu B2 yr Hen Weithfeydd Nwy (SAE2c), gweithdai B1 yn Stryd Neville, estyniad B2 i ffatri bresennol Cranberry Foods (SAE2y) ac ôl-troed cynyddol B1 uned ddiwydiannol yn Lôn Nantgavenny. Roedd hefyd 2 ganiatâd ar gyfer cyflogaeth dosbarthiad defnydd B yn anheddiad eilaidd gwledig Rhaglan, sef cyfanswm o 0.48 hectar (estyniad B1 i weithdy presennol yn APS Automotive a newid defnydd B2 i garej trwsio cerbydau amaethyddol / ardal gwerthu cerbydau amaethyddol yn ogystal ar Fferm High House) Cofnodwyd 3 chaniatâd pellach yn aneddiadau gwledig Penallt (gweithdy B1), Llanisien (gweithdy gof B2) a Llanbadog (Newid defnydd B2 i weithdy storio a chynnal a chadw cerbydau) yn gwneud cyfanswm o 0.22 hectar.

Er nad oes targed penodol yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn awyddus i fonitro caniatadau cyflogaeth ar gyfer defnyddiau B yn y Sir. Mae cyfanswm yr arwynebedd

llawr cyflogaeth a ganiateir yn ystod y cyfnod monitro hwn, ynghyd â'r hyn a ganiatawyd yn 2014, wedi gwella cyfanswm y tir cyflogaeth ymhellach yn y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol.

Er bod dangosyddion 4 a 5 o'r adran hon yn ymwneud â dosbarthiadau defnydd B, mae'n ddefnyddiol nodi bod nifer o ganiatadau wedi'u rhoddi ar gyfer defnyddiau sy'n creu cyflogaeth o fath arall (h.y. heb fod yn ddefnydd B) yn ystod y cyfnod monitro, sef cyfanswm o 1.37 hectar, gan ddangos bod amrywiaeth o sectorau cynhyrchu cyflogaeth o fath arall yn ymddangos. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddiau A1 / A3 ar y safle busnes a diwydiannol dynodedig (SAE1d) ym Mharc Busnes Westgate, Llan-ffwyst ar gyfer Coffi Costa (0.24 hectar) a McDonalds gyrru-drwyddo (0.32 hectar), caffi bychan i gerddwyr yn Llanddewi Ysgyryd (0.04 hectar), gwesty yn Nhrefynwy (C1, 0.42 hectar) a chynigion amrywiol sui generis (0.35 hectar) gan gynnwys meddygfeydd milfeddygol yng Nghil-y-coed a Rhaglan.

Mae'r dangosydd hwn yn ceisio monitro cyfanswm y gofod llawr cyflogaeth a ganiatawyd ar gyfer dosbarthiadau defnydd B yn ôl sector yn Sir Fynwy. Roedd y rhan fwyaf o'r arwynebedd llawr cyflogaeth o'r fath a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer defnydd B8 (2.83 hectar), yna defnyddiau B2 (1.22 hectar) a defnyddiau B1 (0.43 hectar) Mae hyn yn wahanol i AMB y llynedd pan gyfrifai defnyddiau B1 am y rhan fwyaf o'r gofod llawr cyflogaeth a ganiatawyd.

Mae'r caniatâd yn y dyraniad defnydd cymysg yn Heol Wonastow yn un ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau B1 a B8 (3.72 hectar). Fodd bynnag, gan fod y caniatadau amlinellol ar gyfer 6.5 hectar o dir cyflogaeth ar y safle hwn wedi'u cynnwys yn AMB 2014 ni chynhwysir hyn yn y ffigurau cyfredol i osgoi cyfrif ddwywaith Mae, er hynny, yn bwysig cydnabod bod y rhan hon o'r safle wedi cael caniatâd cynllunio.

Gan droi yn fwy penodol at sectorau cyflogaeth, yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS) 2007 y DU, roedd y caniatadau cyflogaeth a gofnodwyd ar gyfer defnyddiau B dros y cyfnod monitro o fewn y sectorau canlynol:

- Gweithgynhyrchu (0.93 hectar)
- Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur / beiciau modur (0.48 hectar)
- Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (2.83 hectar)
- Cyflenwad trydan, nwy, ager ac aerdymheru; cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad (0.24 hectar)

Yn ogystal â'r uchod, mae'r caniatâd ar safle Heol Wonastow (3.72 hectar) yn dod o fewn yr eiddo tirol; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau'r sector gweinyddol a'r gwasanaeth cymorth.

Mae'r data yn dangos, er bod y cludiant / storio a'r sector gwybodaeth / cyfathrebu yn cyfrif am ddim ond 2 ganiatâd, roedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r arwynebedd llawr cyflogaeth (63.2%) a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro. Gellid disgwyl hyn gan fod defnyddiau cludiant / storio fel arfer â gofynion arwynebedd llawr sylweddol. Roedd y sector gweithgynhyrchu yn cyfrif am y rhan fwyaf o ganiatadau (6) ac ar gyfer un rhan o bump o

arwynebedd llawr a ganiatawyd (20.7%). Roedd 2 ganiatâd pellach yn y fasnach cyfanwerthu a manwerthu, y sector atgyweirio cerbydau modur / beiciau modur oedd yn cyfrif am 10.7% o arwynebedd llawr cyflogaeth a ganiatawyd ac 1 caniatâd yn y cyflenwad trydan, nwy, ager ac aerdymheru; y sector cyflenwi dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad (5.4% o arwynebedd llawr cyflogaeth a ganiateir).

Yn debyg i AMB y llynedd, mae'r sectorau gweithgynhyrchu a gwybodaeth / cyfathrebu cludiant / storio yn parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o ganiatadau cyflogaeth, er bod y sector olaf yn cyfrif am gyfran uwch o'r arwynebedd llawr a ganiateir.

Er nad oes targed penodol yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn mae'r Cyngor yn monitro sectorau cyflogaeth ddaw gerbron yn y Sir. Bydd hyn o gymorth i benderfynu a yw uchelgais y Cyngor ar gyfer twf yn y sectorau economaidd allweddol dynodedig, gan gynnwys mentrau gwybodaeth ddwys / uwch-dechnoleg, yn cael ei gyflawni. Gan mai'r ail gyfnod monitro yn unig yw hwn mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn parhau'n rhagarweiniol a bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol.

Fel y nodwyd uchod, mae nifer o ganiatadau wedi'u rhoddi ar gyfer defnyddiau sy'n creu cyflogaeth arall (h.y. heb fod yn ddefnydd B) yn ystod y cyfnod monitro. O ran sectorau cyflogaeth, mae'n ddefnyddiol cydnabod i'r rhain fod mewn gwahanol sectorau i ganiatadau dosbarth defnydd B a nodwyd uchod:

- Eiddo tirol, gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, sector gweithgareddau gweinyddol a'r gwasanaeth cymorth (0.33 hectar),
- Celfyddydau, adloniant a hamdden, sector gweithgareddau gwasanaeth eraill (0.02 hectar)
- Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (1.02 hectar).

Mae hyn yn dangos bod amryw o sectorau cynhyrchu cyflogaeth eraill yn amlygu'u hunain yn Sir Fynwy.

Cymeradwywyd 3 chais yn gysylltiedig â cholli tir cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro, 2 ohonynt yn gysylltiedig ag uned Coffi Costa a bwyty gyrru-drwyddo McDonalds ar safle busnes a diwydiannol dynodedig ym Mharc Busnes Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d) (a neilltuwyd ar gyfer defnyddiau B1 a B2). Er nad yw'r rhain yn ddosbarthiadau defnydd B traddodiadol caiff y cynigion eu hystyried yn dderbyniol ar sail polisi manwerthu ac ystyrir yr effeithiau posibl ar fywiogrwydd a hyfywedd canol tref y Fenni i fod yn fychan iawn ac nid oedd unrhyw safleoedd dilyniannol mwy ffafriol. Ymhellach, ystyriwyd y byddai'r cynigion yn creu cyfleoedd cyflogaeth ac na fyddai'n rhagfarnu dyheadau'r Cyngor ar gyfer y dyraniad cyflogaeth ehangach. Nodwyd hefyd bod y safle yn ffurfio rhan o ddatblygiad ehangach 'masnachol' a gymeradwywyd o dan ganiatâd amlinellol ym mis Hydref 2010.

Rhoddodd y cynnig arall ganiatâd ar gyfer estyniad i faes parcio Aldi ar safle cyflogaeth gwarchodedig yn Stryd y Felin, Y Fenni (SAE2a). O gofio bod y safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio anffurfiol yn gysylltiedig â'r garej, ystyriwyd na fyddai unrhyw effaith andwyol ar hyfywedd y garej. Yn ogystal, ystyrir bod angen am barcio ychwanegol yn siop Aldi Ystyrir bod y bwriad hefyd yn gyfrwng gwella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Ar y cyfan, felly, penderfynwyd bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor.

O ystyried bod caniatâd i 3 chynnig yn gysylltiedig â cholli tir cyflogaeth wedi'i gymeradwyo dros y cyfnod monitro, mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni. Fodd bynnag, fel y gwelwyd, mae colli tir yn cael ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLI. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisiâu'r CDLI ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath h yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n gysylltiedig â'r mater hwn.

Mae Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2015 yn dangos bod 58.3% o drigolion y Sir yn gweithio yn yr ardal. Er bod hyn yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 69.4%, mae'n welliant ar ffigwr y llynedd o 54.5%. Mae hyn yn awgrymu y bu rhywfaint o gynnydd wrth fodloni'r dyhead i gynyddu cyfran y gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg o sampl fechan ac felly dylid eu trin yn ofalus.

Yn ôl Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2015, mae gan Sir Fynwy all-lif net o 900 o gymudwyr - gyda 17,800 yn cymudo i mewn i'r Awdurdod i weithio a 18,700 yn cymudo allan. Roedd mewn-gymudo sylweddol o Dorfaen (3,000), Casnewydd (2,900), Blaenau Gwent (2,800) ac o'r tu allan i Gymru (8,000). Y prif ardaloedd ar gyfer all-gymudo oedd Casnewydd (3,900), Bryste (3,400), Caerdydd (2,500) a Thor-faen (2,100), gyda 6,400 arall yn cymudo i ardaloedd eraill y tu allan i Gymru. Mae'r gyfran uchel o gymudo i / o ardaloedd y tu allan i Gymru yn adlewyrchu'n glir leoliad Sir Fynwy fel awdurdod ar y ffin.

Mae dyhead i leihau lefelau'r mewn-gymudo a'r all-gymudo a gofnodwyd yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Er bod y lefelau all-gymudo wedi gostwng ers y cyfnod monitro diwethaf, mae all-lif net y gymudwyr wedi cynyddu i 900 (o 400). Mae hyn yn awgrymu bod lefel yr all-gymudo wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg o sampl fechan ac felly dylid eu trin yn ofalus.

Argymhelliad

1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
6. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
7. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
8. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (DDS) 2007. Mae'n cynnwys y sectorau hynny'n unig y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y cyfnod monitro. Am restr lawn o sectorau cyfeirier at Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007.

♦Ffynonellau Data: Papur Cefndir Tir Cyflogaeth Sir Fynwy ar gyfer cyfnod Ebrill 2015-Mawrth 2016

**Cais cynllunio wedi'i roi ar gyfer 3.72 hectar o dir ar ddryniad SAH4 Heol Wonastow ar gyfer defnydd B1 / B8 Mawrth 2016. Fodd bynnag gan i'r caniatâd amlinellol ar gyfer 6.5 hectar o dir cyflogaeth ar y safle hwn gael ei gynnwys yn AMB 2014 ni chynhwysir hwn yn ffigurau AMB 2015 er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith.

♦♦Wedi'u diwygio er mwyn egluro bod y dangosyddion hyn yn monitro dosbarthiadau defnydd B yn unig.

Menter Wledig

Nod / Canlyniad Monitro: Annog arallgyfeirio yn yr economi wledig

Polisi Strategol: S10 Menter Wledig

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1, 3, 5, 7 a 14

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: RE1-RE6

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill, 2015 - 31 Mawrth, 2016
1. Nifer y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a chynlluniau mentrau gwledig a gymeradwywyd *	Dim targed	Dim	10
Dadansoddiad			
1. Cymeradwywyd cyfanswm o 10 o geisiadau yn ymwneud â menter / arallgyfeirio gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 6 o'r geisiadau fel cynlluniau menter wledig. Er bod 3 o'r cynlluniau hyn yn ymwneud ag adeiladau newydd, cawsant eu cyfiawnhau am eu bod i gyd yn ymwneud â'r economi wledig, un ohonynt yn ymwneud ag adeiladu milfeddygfa ar safle gyferbyn â'r Farchnad Wartheg newydd a adeiladwyd ger Rhaglan. Roedd y ddau gynllun ychwanegol yn ymwneud â chodi gweithdy gof (Penallt) i gefnogi busnes ceffylau ac estyniad i fusnes llety cŵn sefydledig (Magwyr). Roedd dau gais menter wledig arall yn ymwneud yn bennaf ag addasu adeiladau presennol nad oeddent yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn flaenorol. Cymeradwywyd cynllun ar gyfer lleoliad priodas rhwng Matharn a Chas-gwent, roedd hwn yn cynnwys 8 ystafell wely gwadd ac o ganlyniad byddai'n cynnig buddion i ddarparwyr llety ychwanegol mewn ardaloedd cyfagos. Cymeradwywyd addasu rhan o adeilad coedwigaeth ger Penallt ar gyfer defnydd cysylltiedig, yn cynnwys swyddfa a gweithdy i hwyluso gweithio â phren. Ystyriwyd ei fod yn ddefnydd busnes cymedrol cynaliadwy a fyddai'n cefnogi'r economi leol ac ar yr un pryd yn helpu i reoli ardaloedd coetir. Roedd y cais arall ar gyfer cwblhau cynllun garej ddomestig a throsi caffi i gerddwyr ger Ysgyryd.			

Roedd y 4 cais oedd yn weddill yn ymwneud ag arallgyfeirio amaethyddol. Roedd dau yn ymwneud ag addasu adeiladau amaethyddol, pob un ohonynt wedi'u lleoli ger Rhaglan. Bydd i'r addasiadau hyn ddefnyddiau gwahanol iawn gan fod un yn ymwneud â garej trwsio cerbydau amaethyddol a'r llall yn ymwneud â defnydd gweithgaredd teuluol. Mae'r ddau gais arallgyfeirio amaethyddol terfynol yn ymwneud â maes parcio estynedig mewn canolfan sgiliau gwledig sefydledig ger Penallt ac ysgol farchogaeth fewnol i gael ei defnyddio mewn cysylltiad ag eco-weithgareddau presennol ar fferm yn Llanfihangel Troddi.

Bu cynnydd yng nghyfanswm cynlluniau arallgyfeirio gwledig a chynlluniau mentrau gwledig a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro (10 cynllun) o'i gymharu â'r AMB blaenorol (7 cynllun), gan awgrymu bod Polisi Strategol S10 i gefnogi polisiau rheoli datblygu yn cael ei weithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn yn AMBau y dyfodol i benderfynu ar effeithiolrwydd y fframwaith polisi mewn perthynas ag arallgyfeirio'r economi wledig.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Nid yw'r Cynlluniau Menter Wledig a restrir yma yn cyfeirio at y rheiny sydd angen cyfiawnhad arbennig fel y'u diffinnir gan NCT6

Economi Ymwelwyr

Nod / Canlyniad Monitro:	Annog twristiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel
Polisi Strategol:	Economi Ymwelwyr S11
Amcanion y CDLI a Gefnogwyd:	1, 3, 5 a 7
Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd:	T1-T3, RE6, SAT1

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd (<i>yn cynnwys estyniadau / addasiadau ac adeiladu o'r newydd</i>)	Dim targed	Dim	10 cynllun twristiaeth wedi'u cymeradwyo *
2. Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygu, newid defnydd neu waith dymchwel	Lleihau colli cyfleusterau twristiaeth	Colli unrhyw 1 cyfleuster twristiaeth mewn unrhyw 1 flwyddyn	0 cyfleuster twristiaeth wedi'i gymeradwyo
Dadansoddiad			
1. Cymeradwywyd 10 cais ar gyfer defnydd twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, 8 ohonynt ar gyfer cyfleusterau llety i dwristiaid. Roedd y rhain yn cynnwys 6 llety gwyliau (pob un yn addasiadau) mewn gwahanol aneddiadau **, estyniad i safle porthdy gwyliau presennol ym Mharc Gwledig St Pierre ar gyfer 5 porthdy ac adeiladu gwesty newydd 60 gwely yn Nhrefynwy (Premier Inn). Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn darparu dros 70 o welyau newydd a bydd yn rhoi hwb pellach i'r cyfleusterau llety i ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd dau gais pellach ar gyfer defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, sef caffi i gerddwyr yn Llanddewi Ysgyryd ac ardal chwarae newydd yng Nghanolfan Ymwelwyr Llandegfedd Mae nifer y cyfleusterau twristiaeth a gymeradwywyd yn debyg i'r rhai a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf sy'n dangos bod fframwaith polisi twristiaeth y CDLI yn gweithio i alluogi datblygu twristiaeth yn y Sir. Mae hefyd yn werth nodi i gais dros dro gael ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer lleoliad hamdden awyr agored yn Nôl y Castell, Y Fenni er mwyn galluogi'r Sir i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Gorffennaf / Awst 2016.			

Mae nifer y cyfleusterau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn awgrymu bod polisiâu perthnasol y Cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithiol i ganiatáu i ddatblygiadau o'r fath ddigwydd yn Sir Fynwy. Mewn ymateb i nifer cynyddol o ymholiadau ynglŷn â mathau newydd o lety i ymwelwyr gan gynnwys pebyll crwyn, pebyll a phodiau pren h.y. 'glamping', mae gweithgor swyddogion wedi adolygu polisiâu'r CDLI i sicrhau eu bod yn cefnogi'r maes datblygol hwn o dwristiaeth gynaliadwy. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu hadrodd yn ôl i Bwyllgor Dethol Economi a Datblygu'r Cyngor a bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro nesaf i roi eglurhad ar ddehongli / weithredu'r fframwaith polisi presennol mewn perthynas â chynigion o'r fath.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ceisiadau twristiaeth yn ofalus yn AMBau y dyfodol i benderfynu ar effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau i dwristiaid.

2. Nid oedd unrhyw geisiadau a ganiatawyd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, gan ddangos bod y dangosydd targed a'r canlyniad monitro hwn i leihau colli cyfleusterau twristiaeth wedi cael eu cyflawni. Mae hyn hefyd yn cymharu'n ffafriol ag AMB y llynedd pan gollwyd 5 cyfleuster o'r fath i ddefnyddiau amgen.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro colli cyfleusterau i dwristiaeth yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn, o gofio pwysigrwydd twristiaeth i economi'r Sir.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

* Llety i ymwelwyr yn bennaf: 6 llety gwyliau hunanarlwyo (addasiadau); Porthdai gwyliau (5); 1 gwesty - gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu dros 70 o welyau. Hefyd 2 gyfleuster i ymwelwyr (caffi a man chwarae).

**Tyndyrn, Tregare, Grysmwnt, Cwmcarfan, Mamheilad a Magwyr.

Defnydd Effeithlon o Adnoddau a Pherygl Llifogydd

Nod / Canlyniad Monitro: Sicrhau bod datblygiad yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy

Polisi Strategol: S12 Defnyddio Adnoddau Effeithlon a Pherygl Llifogydd

Amcanion y CDLI a 1, 8, 9, 10 & 11

Gefnogwyd:

Polisiâu eraill y CDLI a SD1-SD4
Gefnogwyd:

Newidiadau Cyd-destunol

Diweddarwyd NCT12 i adlewyrchu'r newidiadau i ofynion y Datganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r NCT a ddiweddarwyd hefyd yn cynnwys yr Hierarchaeth Ynni o'r Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru ac mae'n darparu cyfeiriad at Gynllun Oes Adeiladu ar gyfer Cymru 12. Nid yw'r newidiadau'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud addasiadau i bolisiau'r CDLI.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Cyfran y datblygiadau ar dir llwyd fel canran o'r holl ddatblygiadau a ganiatawyd (<i>nid yw'n cynnwys deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol</i>)	Cynyddu cyfran y datblygiadau ar dir llwyd	Dim cynnydd yng nghyfran y datblygiadau ar dir llwyd am 2 flynedd yn olynol (2014-15: 28% /17.3 hectar)	16.8% hectar
2. Nifer y datblygiadau (yn ôl categori NCT15) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn cwrdd â phob un o brofion NCT15	Pob datblygiad i gydymffurfio â gofynion NCT15	Caniatâd cynllunio'n cael ei roddi yn groes i ofynion NCT15	0
3. Nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle*	Cynydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle	Dim cynnydd blynyddol	8

4. Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle	Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle	Dim cynnydd blynyddol	4 **
--	--	-----------------------	------

Dadansoddiad

1. Caniatawyd cyfanswm o 62.7 hectar o ddatblygiadau yn ystod y cyfnod monitro, 10.51 hectar o'r cyfanswm wedi'u lleoli ar safleoedd tir llwyd. Mae hyn yn cyfateb i 16.8% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol) fel datblygiadau a ganiateir ar dir llwyd. Cydnabyddir bod Sir Fynwy wedi cyfyngu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar dir o'r fath. Mae cyfran fawr o ddatblygiadau tir llwyd a ganiatawyd (tua 65% o'r cyfanswm) yn gysylltiedig â lleiniau tai mewn ardaloedd cwrtil / gardd breswyl sy'n bodoli eisoes. Roedd y caniatadau eraill ar safleoedd tir llwyd yn amrywio o ddatblygiadau ar dir cyflogaeth ac ar safleoedd hen garej ddomestig i baneli solar ffotofoltaig ar fusnes gwledig sydd eisoes yn bodoli.

Mae cyfanswm y datblygiadau a ganiatawyd ar safleoedd tir llwyd yn is nag yng nghyfnod monitro'r AMB diwethaf. Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn ymwneud â dim cynnydd yng nghyfran y datblygiadau ar dir llwyd am ddwy flynedd yn olynol. Yn unol â hynny, bydd yn bwysig monitro'r dangosydd hwn yn yr AMB nesaf er mwyn canfod a yw'r targed o gynyddu cyfran y datblygiadau ar dir llwyd yn cael ei fodloni dros gyfnod o ddwy flynedd.

Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion NCT15 ym mharth gorlifdir C1 na pharth C2 dros y cyfnod monitro. Mae Polisi S12 o ganlyniad yn gweithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

3. Cymeradwywyd wyth o geisiadau yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd un o'r cynlluniau'n ymwneud â safle boeler biomas i gefnogi Gwesty / Bwyty sefydledig yn Ynysgynwraidd, er mwyn darparu'r busnes â ffynhonnell gynaliadwy o wres. Roedd y saith cynllun ychwanegol yn gysylltiedig â datblygiadau solar. Roedd tri ohonynt ar gyfer pŵer solar ar raddfa fechan tra ystyrir y pedwar sy'n weddill yn ffermydd solar. O'r ffermydd solar caniatawyd cynllun 2MW yn Nhrostre a lleolir dau yn ne'r Sir ym Magwyr a Sudbrook. Mae'r rhain yn ddau gynllun 5MW a bydd pob un yn darparu digon o ynni i gefnogi tua 1500 o gartrefi dros 25 mlynedd. Mae'r cynllun terfynol a ganiatawyd ar apêl yn ymwneud â Fferm Solar 7.9MW ar dir amaethyddol ger Drenewydd Gelli-farch. Bydd y cynllun hwn yn darparu'r ynni sy'n cyfateb i'r un a ddefnyddir gan tua 2000 o gartrefi'r flwyddyn.

Cofnododd yr AMB blaenorol gyfanswm o ddau gynllun. Felly bu cynnydd sylweddol yn nifer y cynlluniau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod Polisi Strategol S12 a'i bolisiâu ategol yn gweithredu'n

effeithiol o ran darparu ynni adnewyddadwy. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau'n effeithlon.

4. Ar adeg yr AMB diwethaf nid oedd unrhyw gynllun wedi'i gwblhau yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan ei fod yn seiliedig ar ganiatadau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro blaenorol. O'r ddau gais a gymeradwywyd yn yr AMB blaenorol mae'r cynllun biomas bellach yn weithredol. Fodd bynnag datblygiad yn cychwyn ar y cynllun solar eto. Yn ogystal â hyn mae nifer o gynlluniau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, fodd bynnag, wedi cael eu cwblhau ac yn weithredol. Mae un o'r cynlluniau solar ar raddfa fechan wedi'i adeiladu. Mae Fferm Solar 5MW yn Sudbrook hefyd yn weithredol. Mae'r gwaith biomas a gymeradwywyd yn Ynysgynwraidd hefyd wedi'i gwblhau.

Mae cwblhau a gweithredu 4 cynllun yn awgrymu bod Polisi Strategol S12 a'i bolisiâu ategol yn gweithredu'n effeithiol o ran darparu a chwblhau ynni adnewyddadwy Fodd bynnag, bu'n amlwg mai un o'r dylanwadau mwyaf ar ddatblygu ynni adnewyddadwy oedd y Tariff Cyflenwi Trydan (TCT), ac yn amlwg mae llai o gynlluniau yn mynd rhagddynt ers i'r TCT ostwng. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
4. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Dangosydd monitro ychwanegol a gynhwyswyd yn y fframwaith monitro er mwyn adnabod y cynlluniau yn 4.

**Yn seiliedig ar geisiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y safle ers mabwysiadu'r CDLI

Tirwedd, Isadeiledd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

Nod / Canlyniad Monitro: Diogelu mannau agored a safleoedd cadwraeth natur cydnabyddedig a phwysigrwydd tirwedd

Polisi Strategol: S13 Tirwedd, Isadeiledd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

Amcanion y CDLI a 8

Gefnogwyd:

Polisiâu eraill y CDLI a LC1-LC6, GI1 & NE1

Gefnogwyd:

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Cyfanswm y tir maes glas na neilltuwyd a gollir i ddatblygiadau yn y cynllun datblygu (yn cynnwys datblygiadau adeileddig newydd - tai, cyflogaeth ond nid yw'n cynnwys adeiladau amaethyddol)	Lleihau colli tir Maes glas na neilltuwyd	Colli unrhyw dir Maes glas na neilltuwyd mewn unrhyw 1 flwyddyn	44.6 hectar
2. Cyfanswm y mannau agored cyhoeddus / caeau chwarae a gollir i ddatblygiadau na neilltuwyd yn y cynllun datblygu	Lleihau colli mannau agored / caeau chwarae i ddatblygiadau na neilltuwyd yn y cynllun datblygu	Colli unrhyw fan agored o ganlyniad i ddatblygiad, heb ei neilltuo yn y cynllun datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn	0.76 hectar
3. Newid yn yr ardaloedd a'r poblogaethau o bwysigrwydd bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad - gan gynnwys newid mewn cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol / newid yn yr ardaloedd dynodedig	Fel lleiafswm ni fydd datblygiad yn achosi unrhyw golled net o fioamrywiaeth sydd o bwysigrwydd cydnabyddedig	Cofnodi colledion net yn yr ardaloedd a'r poblogaethau o bwysigrwydd bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad	Data heb fod ar gael

4. Datblygiadau a ganiatawyd / gwblhawyd sydd o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol / cenedlaethol pwysig *	Dim un wedi'i effeithio'n andwyol	Difrod neu ddarnio a gofnodwyd ar safleoedd / cynefinoedd dynodedig	0
5. Datblygiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt sy'n achosi niwed i werth cadwraeth natur Cyffredinol y safleoedd a ddynodwyd yn lleol	Lleihau datblygiadau a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol y safleoedd a neilltuwyd yn lleol	1 neu 2 ddatblygiad wedi arwain at niwed cyffredinol ar gyfer 2 flynedd yn olynol, neu 3 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at niwed mewn unrhyw 1 flwyddyn	Data heb fod ar gael
6. Nifer y datblygiadau newydd sy'n creu ac yn adfer cynefinoedd	Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n creu / adfer cynefinoedd	Dim	1
7. Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd â'r potensial ar gyfer goblygiadau sylweddol i dirwedd	Pob datblygiad i gyfrannu at amgylchedd o ansawdd uchel wedi'i gynllunio'n dda.	Canlyniadau monitro'n negyddol	Data heb fod ar gael

Dadansoddiad

1. Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 44 o ganiatadau ar dir glas na neilltuwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLI, sef cyfanswm o 44.6 hectar. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfanswm y tir glas na neilltuwyd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (26 hectar). Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Yn wir, cynlluniau ynni adnewyddadwy (arâe solar ffotofoltaig) oedd yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r tir glas na neilltuwyd yn y 39.26 hectar (88%). Amrywiai'r caniatadau hyn (5) o arâe solar domestig fechan i ffermydd solar, y mwyaf ohonynt yn 17.76 hectar yn Nrenwydd Gelli-farch. Er bod ardal sylweddol o dir glas na neilltuwyd yn cael ei chwmpasu gan y caniatadau hyn, ystyrir hwy'n dderbyniol mewn egwyddor gan y byddant yn darparu math o ynni adnewyddadwy a gyfiawnheir ar sail polisi. Yn y bôn, mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud â defnydd dros dro o dir amaethyddol; gall y tir gael ei adfer i'w hen statws (fel arfer ar ôl 25 mlynedd) a gellir parhau i'w bori â'r paneli solar yn y fan a'r lle.

Roedd y 5.34 hectar sy'n weddill o dir glas na neilltuwyd, a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro, yn ymwneud ag ystod o ddefnyddiau. Roedd 10 caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl (cyfanswm 1.3 hectar) - mae'r rhain yn amrywio o estyniadau i gwrtilau preswyl i anheddau newydd a gafodd eu hystyried yn dderbyniol yn nhermau polisi.

Gweithgareddau 'cefflyddiaeth', gan gynnwys stablau ac arena marchogaeth, oedd yn cyfrif am 11 o'r caniatadau eraill (cyfanswm o 1.39 hectar) - ystyriwyd y rhain yn ddefnyddiau tir priodol mewn ardaloedd gwledig ac roeddent yn cydymffurfio â fframwaith polisi'r CDLI. Roedd yna hefyd 3 chaniatâd yn ymwneud ag arallgyfeirio / menter wledig (cyfanswm o 0.5 hectar) a ystyriwyd yn briodol o ran polisi, yn enwedig wrth gefnogi busnesau gwledig. Caniatawyd cynigion eraill yn cynnwys twristiaeth, defnyddiau cymunedol, cyflogaeth a datblygiad ategol (0.52, 0.05, 0.1 a 0.68 hectar yn y drefn honno), a oedd yn cael eu hystyried eto i fodloni polisïau'r CDLI.

Er bod y data monitro'n dangos colli tir glas na neilltuwyd dros y cyfnod monitro o ganlyniad i'r caniatadau a grybwyllwyd, ac yn dilyn hynny, mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i fodloni, cyfiawnheir y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLI fel y gwelwyd uchod. Nid yw'n amlygu unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r CDLI ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath yn AMBau y dyfodol i benderfynu ar effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

2. Yn ystod y cyfnod monitro rhoddwyd 3 chaniatâd ar gyfer datblygiad mewn mannau agored na neilltuwyd yn y CDLI, sef cyfanswm o 0.76 hectar. Roedd cynnig ar gyfer maes parcio yn Ffordd Rockfield, Trefynwy yn cyfrif am y rhan fwyaf (0.53 hectar). Er ei dynodi fel ardal o bwysigrwydd amwynder yn y CDLI dan bolisi DES2, ystyriwyd na fyddai colli'r ardal hon yn groes i feini prawf polisi DES2 ac na fyddai'n effeithio'n andwyol ar Ardal Gadwraeth Trefynwy. Ar ben hynny, barnwyd y byddai darparu maes parcio yn yr ardal hon yn cymryd rhywfaint o bwysau oddi ar y meysydd parcio canol tref ac yn gymorth i leihau tagfeydd o fewn rhwydweithiau'r canol tref a fyddai o fudd i'r canol tref yn gyffredinol.

Mae'r ddau ganiatâd arall a arweiniodd at golli mannau agored na neilltuwyd yn ymwneud â datblygiad preswyl - 12 o fflatiau ymddeol / 5 llety cymorth i fyw yn Hen Heol Henffordd, Y Fenni (0.22 hectar) a chwartil preswyl yng Nghil-y-coed (0.01 hectar). O ran y fflatiau ymddeol, ni neilltuir y tir yn benodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol fel ardal o bwysigrwydd amwynder dan bolisi DES2 ac oherwydd bod y tir wedi'i rentu o dan drwydded i berchnogion eiddo unigol mewn tai cyfagos er mwyn ymestyn eu gerddi nid ystyriwyd bod polisi S5 a CRF3 (diogelu mannau agored presennol) yn berthnasol. Ystyriwyd bod yr egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol gan fod y safle o fewn ffin ddatblygu'r dref ac mae angen lleol profedig am y math o lety a gynigir. Mae'r caniatâd arall yn ymwneud â newid defnydd ardal fechan o dir y Cyngor na chaiff ei ddefnyddio i gwrtil preswyl. Nid yw'r ardal wedi'i neilltuo fel amwynder mannau agored dan bolisi DES2, nid yw'n cael ei defnyddio at ddiben penodol ac o gydymffurfio â pholisïau eraill y CDLI ystyrir bod y cais yn dderbyniol.

Tra mae'r data monitro'n dangos colli gofod mannau agored na neilltuwyd yn ystod y cyfnod monitro, oherwydd y caniatâd uchod ac yn dilyn hynny, mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i fodloni, mae'r golled yn cael ei chyfiawnhau o fewn y cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLI, fel y gwelwyd uchod. Nid yw'n amlygu unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r CDLI ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

O ystyried yr anhawster o fesur a monitro'r wybodaeth hon yn effeithiol, bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddileu o fframwaith monitro'r CDLI a'i eithrio o AMBau dilynol.
Nid oedd unrhyw ddatblygiadau pwysig a ganiatawyd neu a gwblhawyd o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol / cenedlaethol yn ystod y cyfnod monitro, gan awgrymu bod y dangosydd targed a'r canlyniad monitro i ddiogelu safleoedd o'r fath a neilltuwyd wedi cael eu cyflawni. Mae hyn yn dangos bod y fframwaith polisi sy'n ymwneud â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithiol wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol / cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd a ganiatawyd ac a gwblhawyd o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.
Methu â monitro gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd. Bydd y potensial ar gyfer monitro'r dangosydd hwn ar gyfer cyfnod 2016-2017 yn cael ystyriaeth bellach yn yr AMB nesaf.
Roedd un cais yn ymwneud ag adeiladu dau bwl bywyd gwyllt mewn cae bychan y tu ôl i annedd yn Maryland, ger Trellech. Er gwaethaf y ffaith bod y safle wedi'i leoli o fewn AHNE Dyffryn Gwy, bydd y pyllau er budd bywyd gwyllt yn yr ardal ac yn effeithio'n dderbyniol ar y dirwedd wledig. Er mai un cais yn unig a gynhwysir, mae'n debygol y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn helpu i adfer cynefinoedd drwy well rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd. Er nad oes sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â'r dangosydd hwn, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi mewn perthynas â'r Dirwedd, yr Isadeiledd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.
7. O ystyried yr anhawster o fesur a monitro'r wybodaeth hon yn effeithiol, bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddileu o fframwaith monitro'r CDLI a'i eithrio o AMBau dilynol.
Argymhelliad
1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro
3. Dileu dangosydd.
4. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
5. Chwilio am ffordd ymlaen er mwyn monitro'r mater hwn yn effeithiol yn ystod y cyfnod monitro nesaf.
6. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
7. Dileu dangosydd.

*Dangosydd wedi'i ddiwygio yn unol â dangosydd AG er hwyluso casglu data

Gwastraff

Nod / Canlyniad Monitro:	Cwrdd â chyfraniad y Sir at gyfleusterau gwastraff lleol
Polisi Strategol:	Gwastraff
Amcanion y CDLI a Gefnogwyd:	12
Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd:	W1-W6, SAW1

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol fel y nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol	Anelu at ddarparu rhwng 2.2 a 5.6 hectar ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd o fewn adeilad wedi'u lleoli ar safleoedd cyflogaeth B2 priodol dros gyfnod y cynllun	Cyfanswm tir cyflogaeth B2 yn disgyn o dan 5.6 hectar	Lle ar gyfer gwastraff a ganiatawyd 0.24 hectar (h.y. 11% o 2.2 hectar i 4% o 5.6 hectar) Safleoedd rheoli gwastraff dynodedig posibl yn 26.86 hectar
Dadansoddiad			
Cymeradwywyd un cais yn ymwneud â chyfleuster rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hwn yn ymwneud â chyfleuster ailgylchu depo bychan / storfa fechan ar hen waith nwy yn Y Fenni ar safle o 0.24 hectar. Mae'r cais yn ymwneud ag ailgylchu gwastraff swmpus domestig ar raddfa fechan at uchafswm o 400 tonnell o wastraff trefol yn unig. Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud, felly, i gwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol o rhwng 2.2 a 5.6 hectar yn ystod cyfnod y Cynllun. Bu gostyngiad yng nghyfanswm y tir sydd ar gael ar gyfer safleoedd posibl rheoli gwastraff (h.y. safleoedd cyflogaeth B2 a safleoedd gwaredu neu reoli gwastraff presennol) o'r 35.4 hectar a neilltuwyd yn y CDLI i 26.86 hectar (o ganlyniad i'r nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth B2 yn Quaypoint, Magwyr a Westgate, Llan-ffwyst). Mae digon o dir yn parhau i fod ar gael, felly, ar gyfer safleoedd rheoli gwastraff posibl mewn perthynas â'r gofyniad uchaf o 5.6 hectar.			

Argymhelliad
1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Mwynau

Nod / Canlyniad Monitro: Diogelu ardaloedd o adnoddau agregau

Polisi Strategol: S15 Mwynau

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 12

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: M1-M3

Newidiadau Cyd-destunol

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

Mae'r Bennod newydd hon yn integreiddio i mewn i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) bolisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau a gafodd eu hamlinellu'n flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Ni wnaed newidiadau i bolisi presennol fel rhan o'r ymarfer integreiddio a diddymwyd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru o ganlyniad. Nid yw'r newidiadau hyn yn arwain at ofyniad i wneud addasiadau i bolisiâu cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Graddfa'r adnoddau agregau a echdynnwyd ar dir cynradd fel canran o gyfanswm y capasiti a nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol *	Mae lleiafswm banc tir 10 mlynedd i gael ei gynnal	Nid yw banc tir 10 mlynedd yn cael ei gynnal	0
2. Nifer y datblygiadau parhaol, nad ydynt yn ymwneud â mwynau a ganiatawyd, nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi M2 **	Lleihau'r nifer o ddatblygiadau nad ydynt yn fwynau parhaol ar safleoedd a ddiogelir	Os bydd unrhyw ddatblygiadau o'r fath yn cael eu caniatáu	0
Dadansoddiad			
1. Ni chyflawnwyd unrhyw echdynnu mwynau o dir yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro. Ni fu, felly, unrhyw leihad yn y banc tir, sy'n dibynnu ar y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn Chwarel Ifftwn, Rogiet. Ni chafodd y chwarel hon ei gweithio am beth amser, ond gall fanteisio ar ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes o ystyried pwysigrwydd cynnal banc tir 10 mlynedd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol.			

Ni roddwyd unrhyw ganiatadau ar gyfer datblygiadau sefydlog heb ymwneud â mwyngloddio ar safleoedd a ddiogelir nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro.

Mae hyn yn dangos bod Polisi M2 yn cael ei weithredu'n effeithiol ac nad oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro

*Dangosyddion Ychwanegol Llawlyfr CDLI (2006/2015)

**Diwygiwyd y dangosydd i gynnwys cyfeiriad at Bolisi M2 am eglurhad

Trafnidiaeth

Nod / Canlyniad Monitro: Cynyddu mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau bod pob datblygiad yn bodloni egwyddorion cynllunio trafndiaeth gynaliadwy

Polisi Strategol: Trafnidiaeth S16

Amcanion y CDLI a Gefnogwyd: 1-6, 9 & 13

Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd: MV1-MV10

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer y gwelliannau i drafnidiaeth a sicrhawyd trwy gytundebau Adran 106	Dim targed	Dim	3 chytundeb A106 yn cyflwyno gwelliannau i drafnidiaeth
2. Datblygiad yng nghynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol * (CTLI) a nodir ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen cyflawni'r CTLI	Nid yw cynigion y CTLI yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflawni'r CTLI	Nid yw cynigion y CTLI y manylir arnynt ym Mholisi MV10 yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflawni'r CTLI	Datblygiad y manylir arno yn y dadansoddiad isod
Dadansoddiad			
Mae'r gwelliannau canlynol i drafnidiaeth wedi'u sicrhau trwy gytundebau Adran 106 dros y cyfnod monitro: Tir i'r de o Lôn yr Ysgol, Penperllenni (Cam 1): Gwelliannau i groesffordd Goytre Arms (£ 40,000) Cynllun Teithio Gwyrdd / gwelliannau i gerddwyr yn y cyffiniau (£ 923 fesul annedd, cyfanswm o £ 36,920).			

- i'r de o Lôn yr Ysgol, Penperllenni (Cam 2):
Cynllun Teithio Gwyrdd / gwelliannau i gerddwyr yn y cyffiniau (£ 923 fesul annedd, cyfanswm o £ 23,061)

- Tir yn Heol Trefynwy / Lôn Greenway, Trellech:

Adeiladu palmentydd i gysylltu tir y maes parcio ag Ysgol Gynradd Trellech (£ 6,500)
Fel y nodwyd uchod, mae nifer o welliannau i drafnidiaeth wedi'u sicrhau trwy gytundebau Adran 106, y cyfan yn ymwneud â datblygiadau preswyl. Mae dau o'r tri chytundeb A106 yn ymwneud â'r tir a neilltuwyd yn y CDLI ym Mhenperllenni. Yn unol â fframwaith polisi trafndiaeth y CDLI, mae'r gwelliannau'n ceisio annog dulliau trafndiaeth gynaliadwy a sicrhau bod y datblygiadau'n bodloni egwyddorion cynllunio trafndiaeth gynaliadwy.

Er nad oes targed penodol yn ymwneud â'r dangosydd hwn, mae gan y Cyngor ddiddordeb o ran monitro faint o welliannau trafndiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106. Fel y gellid disgwyl, o ystyried bod rhai o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael caniatâd, nifer cymharol fechan o welliannau trafndiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106 yn ystod y ddau gyfnod monitro cyntaf (cyfanswm o 6). Fodd bynnag, gan fod y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI yn symud ymlaen, rhagwelir y sicrheir cynnydd yn nifer y gwelliannau i drafnidiaeth gynaliadwy drwy naill ai'r A106 neu brosesau ASC. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn AMBau y dyfodol.

Mae datblygiad cynlluniau'r CTLI * a nodir ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen y CTLI fel a ganlyn:

B4245 / Ffordd Gyswllt M48: Dim cynnydd. Mae cynllun gwella coridor yr M4 presennol yn cynnig cyffordd newydd rhwng Magwyr / Gwndy a Rogiet a fyddai'n darparu cyswllt rhwng y B4245 a'r M48 (a'r M4), ond i'r gorllewin o Rogiet. Mae cynnydd ar Ffordd Gyswllt y B4245 / yr M48 yn dibynnu ar ganlyniad y penderfyniad ar gynllun gwella coridor yr M4.

Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd Y Fenni: Cynhwysir y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol newydd fel " gwelliannau i fynediad gorsaf reilffordd a chyfnewidfa'r Fenni". Cynhwysir cyfnewidfa / parcio a theithio'r Fenni yn rhestr y cynlluniau posibl a nodwyd gan Drafnidiaeth Cymru (TC) i'w cyflwyno o dan Fetro arfaethedig De-ddwyrain Cymru. Gallai cynnydd pellach ddibynnu ar y penodiad o bartner gan Drafnidiaeth Cymru a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2017.

Disgwylir ystyried mynediad i gerddwyr a beicwyr i'r orsaf hefyd fel rhan o ymarfer Mapiau Rhwydwaith Integredig Y Fenni dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Gorsaf Reilffordd a Chyfnewidfa Gorsaf Fysiau Cas-gwent: Cynhwysir y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol newydd fel " gwelliannau i fynediad gorsaf reilffordd a chyfnewidfa Cas-gwent". Cynhwysir cyfnewidfa / parcio a theithio Cas-gwent yn rhestr y cynlluniau posibl a nodwyd gan Drafnidiaeth Cymru (TC) i'w cyflwyno o dan Fetro arfaethedig De-ddwyrain Cymru. Gallai cynnydd pellach ddibynnu ar y penodiad o Weithredwr a Phartner Datblygu gan Drafnidiaeth Cymru a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2017. Mae'r cyfleusterau bysiau yng ngorsaf Cas-gwent hefyd yn debygol o gael eu hystyried fel rhan o'r astudiaeth gyfredol o lwybr bws TrawsCymru yn cysylltu Cas-gwent ac Aberhonddu. Mae Network Rail hefyd yn

adolygu sefyllfa'r bont droed hygyrch ac ymddengys bod problemau gyda'r bont droed gyfredol (grisiau yn unig). Mae Network Rail hefyd wedi adnewyddu'r to ar floc yr estyniad / y toiledau segur, ac mae CSF yn edrych i mewn i opsiynau i ddod nôl â'r adeilad hwn i'w ddefnyddio fel swyddfa docynnau /pwynt gwybodaeth ar gyfer twristiaeth a thoiled.

Disgwylir ystyried mynediad i gerddwyr a beicwyr i'r orsaf hefyd fel rhan o ymarfer Mapiau Rhwydwaith Integredig Cas-gwent dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Cyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren (CTH): Cynhwyswyd y cynllun yn y CTLI newydd fel "gwelliannau i fynediad a chyfnewidfa gorsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren". Cwblhawyd pont droed hygyrch newydd, swyddfa docynnau newydd ac estyniad maes parcio gogleddol newydd yn ystod gwanwyn 2016. Archwilir opsiynau ar gyfer gwell mynediad beicio ar hyd Heol yr Orsaf a thuag at Gil-y-coed yn ogystal ag estyniad i ochr ddeheuol y maes parcio. Cynhwysir gorsaf CTH hefyd yn y cynlluniau sy'n cael eu hystyried gan dîm Metro TC. Cynhwysir Cyfnewidfa / parcio a theithio CTH hefyd yn y rhestr o gynlluniau posibl a nodwyd gan Drafnidiaeth Cymru i'w darparu o dan Fetro arfaethedig De Ddwyrain Cymru. Gallai cynnydd sylweddol pellach ddibynnu ar benodi Gweithredwr a Phartner Datblygu gan Drafnidiaeth Cymru a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2017.

Disgwylir ystyried mynediad i gerddwyr a beicwyr i'r orsaf hefyd fel rhan o ymarfer Mapiau Rhwydwaith Integredig Cil-y-coed-Magwyr dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Parcio a Theithio Mynwy: Dim cynnydd.

Parcio a Theithio Cas-gwent: Dim cynnydd.

Dolenni Cyswllt 2 Trefynwy: Mae Is-adran Ddrafnidiaeth CSF wedi cynghori bod elfennau sylweddol o'r cynllun wedi cael eu cyflwyno, gyda rhai mân welliannau i'w cyflwyno yn 2016 fel rhan o Raglen Enillion Mesur Teithio Llesol. Mae'r elfennau sy'n weddill yn cael eu hadolygu fel rhan o ymarfer Mapiau Rhwydwaith Integredig Trefynwy dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Bu rhywfaint o gynnydd pellach tuag at gyflwyno cynlluniau'r CTLI * a nodir ym Mholisi MV10 dros y cyfnod monitro cyfredol. Mae elfennau o gyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren wedi cael eu darparu (pont droed newydd hygyrch, swyddfa docynnau newydd ac estyniad gogleddol newydd i'r maes parcio), ynghyd â rhai mân welliannau mewn perthynas â'r cynllun Dolenni Cyswllt 2 Trefynwy. Fel y nodwyd uchod, mae nifer o brosiectau yn cael eu cynnwys fel cynlluniau posibl o dan Fetro arfaethedig De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys cyfnewidfa gorsaf reilffordd Y Fenni a gorsaf reilffordd a chyfnewidfa gorsaf fysiau Cas-gwent. Gallai cynnydd sylweddol pellach ddibynnu ar benodi Gweithredwr a Phartner Datblygu gan Ddrafnidiaeth Cymru a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2017 a bydd yn cael ei adrodd yn y cyfnod monitro nesaf.

Gallai gwelliannau ychwanegol gael eu hystyried fel rhan o ymarfer Mapiau Rhwydwaith Integredig dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), gan gynnwys mynediad i gerddwyr a beicwyr i'r Fenni, Cas-gwent a gorsafoedd rheilffordd Cyffordd Twnnel Hafren. Er na nodir yn benodol

ym Mholisi MV10, bydd unrhyw gynnydd ar y cynlluniau hyn yn cael eu hadrodd yn yr AMB yn y dyfodol.

Mae'r CTLI yn nodi nifer o gynlluniau trafndiaeth ychwanegol sy'n cael eu rhaglennu i'w cyflwyno dros y cyfnod 2015-2020, gan gynnwys rhodfa newydd gorsaf reilffordd Magwyr a Gwndy. Unwaith eto, er na nodir yn benodol ym Mholisi MV10, mae datblygiad cynlluniau o'r fath yn cael ei fonitro yn AMBau y dyfodol.

O gofio bod y CTLI yn ei ail flwyddyn yn unig, mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn aros yn rhagarweiniol Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro datblygiad y cynlluniau uchod yn AMBau y dyfodol i benderfynu a ydynt yn cael eu gweithredu'n unol ag amserlen cyflawni'r CTLI.

Argymhelliad

1. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy 2015 (CTLI) wedi disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Mae'r cynlluniau trafndiaeth a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cael eu dwyn ymlaen i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol - yn unol â hynny mae geiriad y dangosydd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Gwneud Lle a Dylunio

Nod / Canlyniad Monitro:	Gwarchod safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig
Polisi Strategol:	S17 Gwneud Lle a Dylunio
Amcanion y CDLI a Gefnogwyd:	& 15
Polisiâu eraill y CDLI a Gefnogwyd:	DES1-4, HE1-4

Newidiadau Cyd-destunol

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach	Perfformiad 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016
1. Nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol	Dim ceisiadau o arweiniodd at golli adeiladau rhestredig	Mae colled o fwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 blynedd neu fwy yn olynol *	Cyfeirier at ddadansoddiad (1) isod
2. Nifer yr ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cyfredol o gymeriad	100% o'r Gwerthusiadau Ardal Cadwraeth drafft a neilltuwyd erbyn 2016 **	Ni chyfarfyddir â'r targed	19 wedi'u cwblhau (100%) Cyfeirier at ddadansoddiad (2) isod
3. Sampl o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau â'r posibilrwydd o oblygiadau amgylcheddol / dylunio sylweddol	Pob datblygiad i gyfrannu at greu amgylchedd o ansawdd uchel a gynlluniwyd yn dda	Mae'r canlyniadau monitro'n negyddol	Cyfeirier at ddadansoddiad (3) isod
4. Sampl o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau â'r posibilrwydd o effeithio'n sylweddol ar adeiladau o	Dim effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol	Mae unrhyw ddatblygiad yn effeithio'n andwyol ar yr	Cyfeirier at ddadansoddiad (4) isod

ddiddordeb hanesyddol / archeolegol, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth		amgylchedd hanesyddol	
5. Achlysuron pan ganiatawyd datblygiadau a fyddai'n cael effaith andwyol ar adeilad rhestredig, ardal gadwraeth, safle o arwyddocâd archeolegol, neu barc tirwedd hanesyddol neu'u lleoliad	Nid yw cynigion datblygu yn cael effaith andwyol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol a'u lleoliad	Rhoddir 1 neu ragor o ganiatadau cynllunio pan fo gwrthwynebiadau i'r gweddill yn dal heb eu penderfynu gan Dîm Cadwraeth y Cyngor , Cadw neu GGAT	Ni chofnodwyd un

Dadansoddiad

1. Nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol:

	Dyddiad Sylfaen y CDLI 2011	2014	2015
Adeiladau Rhestredig	2146	2154	2153
Henebion Cofrestredig	169	164	164
Parciau a Gerddi Hanesyddol	44	45	45
Ardaloedd Archeolegol Sensitif	10	10	10
Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol	3	3	3

Dadrestrowyd un Adeilad Rhestredig Gradd II gan Cadw yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ymwneud â Ffermdy Thornwell yng Nghas-gwent. Nid oedd unrhyw newidiadau mewn perthynas â Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro.

Nid oedd canlyniad unrhyw geisiadau wedi arwain at golledion i nifer yr adeiladau rhestredig neu'r safleoedd hanesyddol yn ystod y cyfnod monitro. Mae Polisi S17 yn gweithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

2. Mabwysiadwyd deunaw o Arfarniadau Ardal Gadwraeth fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro. Ar adeg yr AMB blaenorol dim ond un Ardal Gadwraeth oedd ag arfarniad cymeriad cyfredol. Mae cyfanswm o 19 o Arfarniadau Ardal Gadwraeth wedi'u mabwysiadu bellach fel CCA, ac felly, y targed o 100% o'r Arfarniadau Ardal Gadwraeth drafft a nodwyd erbyn 2016 wedi cael eu bodloni.

Bydd y 12 o Arfarniadau Ardal Gadwraeth sy'n weddill yn cael eu datblygu yn y dyfodol yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.

3. Mae Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n mynychu taith ddylunio flynyddol, roedd yr olaf o'r teithiau dylunio hynny wedi'i chynnal ym mis Medi 2015. Nid oedd taith ddylunio

2015 wedi ystyried unrhyw geisiadau a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol yn syml oherwydd yr oedi rhwng mabwysiadu'r CDLI a chwblhau'r safle. 4. Bydd teithiau dylunio'r dyfodol yn cynnwys ceisiadau a gafodd eu hystyried ar ôl mabwysiadu'r CDLI, er ei bod yn ddealladwy y gallai ceisiadau gymryd nifer o flynyddoedd cyn iddynt gael eu cwblhau. Ie bo'n bosibl, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â dylunio.
Mae Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n mynychu taith ddylunio flynyddol, roedd yr olaf o'r teithiau dylunio hynny wedi'i chynnal ym mis Medi 2015. Nid oedd taith ddylunio 2015 wedi ystyried unrhyw geisiadau a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol yn syml oherwydd yr oedi rhwng mabwysiadu'r CDLI a chwblhau'r safle. Bydd teithiau dylunio'r dyfodol yn cynnwys ceisiadau a gafodd eu hystyried ar ôl mabwysiadu'r CDLI, er ei bod yn ddealladwy y gallai ceisiadau gymryd nifer o flynyddoedd cyn iddynt gael eu cwblhau. Ie bo'n bosibl, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus yn AMBau y dyfodol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â datblygiadau gyda photensial i effeithio'n sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol / archeolegol, Henebion Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth.
Nid oedd unrhyw ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod monitro â gwrthwynebiad oedd yn dal heb ei benderfynu gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu GGAT. Mae Polisi S17 yn gweithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.
Argymhelliad
1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro
4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro
5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro
*Diwygiwyd geiriad y Sbardun i egluro bod y sbardun yn ymwneud â cholli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 blynedd neu fwy yn olynol. **Diwygiwyd geiriad y Targed ar gyfer eglurhad, yn ymwneud â'r 18 o'r Arfarniadau Ardal Gadwraeth drafft a oedd ar y gweill yn ystod y cyfnod cyn mabwysiadu'r CDLI.

6 Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd

Methodoleg

- 6.1 Mae monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn estyn asesiad perfformiad y CDLI yn erbyn Amcanion Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwebaeth yn y golofn olaf i ddisgrifio'r cynnydd a darparu argymhelliad. Ni chynhwysir pob un o'r dangosyddion a restrwyd yn wreiddiol yn y fframwaith monitro AG, darperir gwybodaeth yn unig ar gyfer y dangosyddion hynny lle mae data ar gael. Yn ychwanegol at y dangosyddion a gafodd eu diwygio neu'u dileu yn yr AMB blaenorol, mae nifer o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf wedi'u diwygio ymhellach. Mae'r Tabl Dangosyddion AG a Ddiwygiwyd / Ddilëwyd yn nodi unrhyw ddangosyddion sydd wedi'u diweddarw ers Adroddiad Monitro Blyneddol 2014-2015 ac yn amlinellu'r rhesymeg dros hyn. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth bellach ar gael, mewn achosion eraill mae'r data sydd ar gael yn annigonol o ran manylion i alluogi monitro defnyddiol.
- 6.2 Gallai Dangosyddion fod wedi'u diwygio lle mae bwlch yn y data i ganiatáu coladu gwybodaeth debyg, mae'r testun wedi'i italeiddio i dynnu sylw at y dangosyddion hynny sydd wedi gweld newid ers yr AMB blaenorol. Ceir hefyd gorgyffwrdd gyda rhai dangosyddion CDLI, caiff y dangosyddion hyn eu marcio'n drwm a'u lliwio'n wyrdd er eglurder. Bwriad hyn yw darparu syniadaeth o'r cydgysylltiad a geir rhwng monitro'r CDLI a monitro'r AG. Darperir sylwadau cryno er y dylid cyfeirio at Adran 5 o Ddadansoddiad Polisi CDLI am wybodaeth ychwanegol.
- 6.3 Mae nifer o ddangosyddion AG lle na chyhoeddir gwybodaeth yn flynyddol, er enghraifft y rheiny sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau'n flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain o anghenraid yn mynd i fod yn ddefnyddiol o ran symud ymlaen parthed monitro yn y dyfodol. Maent wedi cael eu cadw er mwyn darparu llinell sylfaen, ond mae gwaith wedi'i wneud i geisio dod o hyd i ffynonellau eraill o wybodaeth, fodd bynnag, ymddengys nad yw'r rhain ar gael.
- 6.4 Ni ddefnyddiwyd y system sgorio goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro CDLI ar gyfer Monitro'r AG. Mae llawer o amcanion yr AG yn rhai uchelgeisiol. Yn ogystal, byddai'n rhaid ystyried nifer o ffactorau, ac nid y CDLI yn unig, wrth gyflawni'u nodau. Nid yw Monitro'r AG yn cynnwys targedau fel y cyfryw, yn wahanol i fonitro'r CDLI, ac felly byddai'n anodd dehongli'r sylwebaeth yng nghyd-destun system sgorio goleuadau traffig. Mae'r symbolau sy'n gysylltiedig â rhai dangosyddion yn nodi'r cyfeiriad sy'n ddymunol ar gyfer newid. Mae'r symbolau yn cyfeirio at: (+) cynnydd neu fwy; (-) gostyngiad, llai neu ddim a; (dn) dim newid. Gan fod hyn yn ymwneud ag ail fonitro'r AG ers mabwysiadu'r CDLI caiff ei gymharu â'r llinell sylfaen a osodwyd yn yr AMB blaenorol yn unig, bydd tueddiadau a amlygir yn dod yn fwy amlwg yn AMB y dyfodol. Yn unol â hyn, cyfeirir at gyfeiriad y newid fel un perthnasol yn yr adran sylwadau. Mae

hyn yn cael ei ddefnyddio i asesu cynnydd y CDLI tuag at gwrdd â'r dangosyddion datblygu cynaliadwy a nodwyd.

- 6.5 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn fframwaith monitro'r AG yn bennaf yn ymwneud ag amrywiaeth eang o ddata a gynhyrchwyd yn fewnol gan wahanol adrannau'r Cyngor ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Lle bo ffynonellau'r data'n rhai allanol, darperir troednodyn i sicrhau bod y ffynhonnell ddata'n hawdd ei hadnabod.

Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
Hygyrchedd	Caniatáu mynediad teg i bawb i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen arnynt, mewn ffordd sy'n lleihau dibyniaeth ar y defnydd o geir	1. Teithio cyfartalog i bellter gwaith (-) 2. Cyfran y bobl sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio (+) 3. Cyfran y gweithlu sy'n aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith, yn ôl ystadegau teithio i'r gwaith (+) 4. Cyfran y datblygiadau tai a gwblhawyd o fewn y prif drefi neu'n gyfagos, Sefydliadau Glan Hafren, Aneddiadau Eilaidd Gwledig (AEG) a gwledig cyffredinol, fel y nodwyd ym Mholisi S1.	1. 21.9 cilomedr ** 2. 16.7% ** 3. 58.3% ***** 4. Prif Drefi: 40.2%, Glan Hafren: 8.1%, AEG: 37.2%, Cyffredinol Gwledig: 14.5% 5. 100%	1 - 2. Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Mae'r pellter cyfartalog o deithio i'r gwaith yn 21.9 cilomedr. Ni chyhoeddir data tan y cyfrifiad nesaf yn 2021, o ganlyniad, ni ellir sicrhau cymhariaeth ystyrlon tan hynny. Bydd y data wedyn yn aros yr un fath yn AMBau y dyfodol. 3. Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru'n dynodi bod 58.3% o weithlu Sir Fynwy'n aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Mae hyn wedi cynyddu o 3.8% ers yr AMB blaenorol yn unol â'r cyfeiriad o newid sy'n ddymunol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg o sampl fechan ac felly dylid eu trin yn ofalus. 4. Y Prif Drefi ddarparodd y gyfran fwyaf o dai a gwblhawyd dros gyfnod y monitro sy'n cyfateb i 40.2% o'r ffigur cyffredinol. Darparodd yr Aneddiadau Eilaidd Gwledig 37.2% a'r Cyffredinol Gwledig sy'n cynnwys y Prif Bentreffi 14.5%. Darparodd Aneddiadau Glan

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
		5. <i>Canran y datblygiadau mawr* newydd o fewn 10 munud o gerdded i wasanaeth bysys aml a rheolaidd (+) (ac eithrio mwynau, gwastraff a chaniatadau ynni adnewyddol)'</i>		Hafren y cyfraniad lleiaf o 8.1% dros y cyfnod monitro yn hytrach na'r 43% ddarparwyd adeg y cyfnod monitro blaenorol. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 sy'n ymwneud â'r Strategaeth Ofodol yn darparu dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. 5. O'r pum cynllun perthnasol, roedd pedwar yn ymwneud â defnydd preswyl a'r cynllun sy'n weddill i ddefnydd cyflogaeth. Lleolir pob un o'r pum cynllun o fewn 10 munud o gerdded at wasanaeth bws aml a rheolaidd. Parhau i fonitro amcan AG.
Tai	Darparu amrywiaeth o fathau a deiliadaethau o dai sy'n galluogi pobl i ddiwallu'u hanghenion tai	1. Pobl sydd angen tai (-) 2. Tai Fforddiadwy a Gwblhawyd (+) 3. Tai fforddiadwy marchnad gyffredinol a gwblhawyd 4. Dwysedd tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd 5. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y nodwyd ym mholisi S3.	1. Meincnod 474 dros gyfnod o 5 Mlynedd (dyddiad sylfaen 2015) 2. 63 3. 171 4. Caniatâd wedi'i roi i 2, dwyseddau o 30/34 5. 340 o anheddau a ganiatawyd, 0 wedi'u cwblhau 6. 0 wedi'i gwblhau 7. Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth	1. Cyhoeddwyd Asesiad Marchnad Tai Lleol (AMTLI) 2015 -2020 ym mis Ebrill 2015. Mae'r AMTLI newydd yn defnyddio methodoleg wahanol i'r un a ddefnyddiwyd i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y CDLI. Nid yw'r canlyniadau, felly, yn uniongyrchol gymharol. Ni ddylid ystyried y ffigur 474 fel targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan nad cartrefi newydd yw'r unig gyflenwad o dai fforddiadwy yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o dai rhent preifat ac i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Er bod y ffigur wedi gostwng fymryn ers yr AMB blaenorol mae'n arwydd o'r angen cyfredol ac amcanestynedig am dai fforddiadwy yn y Sir ac yn gosod meincnod y gall y Cyngor weithio tuag ato.

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth		
		6. Nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithrio gwledig 7. Nifer yr anheddau a ddarparwyd yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2 8. Cyflenwad tir ar gyfer tai	8. 4.1 o Flynyddoedd	2 - 5. Cwblhawyd 63 o dai fforddiadwy a chwblhawyd 171 o dai marchnad dros y cyfnod monitro. O'r 2 safle a neilltuwyd ac a dderbyniodd ganiatâd, mae'r dwyseddau cyfartalog yn neu'n uwch na'r targedau dwyseddau a osodwyd yn y CDLI. Mae hyn yn dangos cynnydd yng nghyfanswm yr anheddau a gwblhawyd o'r AMB blaenorol, lle cwblhawyd 205 o anheddau, gan fodloni'r cyfeiriad boddhaol o newid. Ni chwblhawyd unrhyw Safleoedd Strategol dros y cyfnod monitro, caniatwyd fodd bynnag 340 o anheddau yng nghais Materion Cadw Heol Wonastow. Cynhwyswyd y caniatâd Amlinellol ar gyfer y safle yn yr AMB blaenorol. 6. Ni chwblhawyd unrhyw dai mewn perthynas â'r cynlluniau eithrio gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Bu datblygiad pellach yn y safle tai fforddiadwy adeiladu un tŷ eich hunan y cyfeirir ato yn yr AMB blaenorol, ond ni chafodd ei gwblhau hyd yn hyn. 7. Mae'r tabl drosodd yn rhoi dadansoddiad o'r 234 o anheddau a gwblhawyd, o gymharu â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 sy'n ymwneud â'r Strategaeth Ofodol yn darparu dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. <table><tr><td>2015 - 2016</td><td>Targed</td></tr></table>	2015 - 2016	Targed
2015 - 2016	Targed					

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth														
				<table><tr><td>Prif Drefi</td><td>40.2%</td><td>41%</td></tr><tr><td>Glan Hafren</td><td>8.1%</td><td>33%</td></tr><tr><td>Uwchradd Gwledig</td><td>37.2%</td><td>10%</td></tr><tr><td>Cyffredinol Gwledig</td><td>14.5%</td><td>16%</td></tr></table>			Prif Drefi	40.2%	41%	Glan Hafren	8.1%	33%	Uwchradd Gwledig	37.2%	10%	Cyffredinol Gwledig	14.5%	16%
				Prif Drefi	40.2%	41%												
				Glan Hafren	8.1%	33%												
				Uwchradd Gwledig	37.2%	10%												
				Cyffredinol Gwledig	14.5%	16%												
8. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Fynwy (CATGT) parthed cyfnod 2015 yn dangos, yn seiliedig ar ddull gweddilliol y Sir, fod cyflenwad tir ar gyfer tai am 4.1 o flynyddoedd.																		
Parhau i fonitro amcan AG.																		
Iechyd, diogelwch a diogeliad	Gwella iechyd a lles trwy annog ffyrdd o fyw iachach, ac amddiffyn pobl rhag perygl a all effeithio ar eu hiechyd a / neu’u diogelwch	1. <i>Cyfanswm y mannau agored a grëwyd o ganlyniad i ganiatadau cynllunio</i>	1. 4.6 hectar	1. Cymeradwywyd cyfanswm o 4.6 hectar o fannau agored o ganlyniad i ganiatadau cynllunio yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn dangos bod datblygiadau a ganiatawyd drwy'r broses gynllunio yn hwyluso darparu mannau agored newydd yn llwyddiannus.														
			Parhau i fonitro amcan AG.															
Cymuned	Cefnogi a hyrwyddo cymeriad unigryw cymunedau lleol a chydlynad cymunedol	1. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio (+) 2. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gollwyd i	1. 5 2. 0 3. 0.76 hectar	1. Dros y cyfnod monitro cymeradwywyd cyfanswm o 5 cais fel naill ai gyfleusterau cymunedol neu hamdden. Roedd 2 o’r rhain at ddefnydd hamdden a 3 ar gyfer cyfleusterau cymunedol. Tra cymeradwywyd 9 yn ystod y cyfnod monitro blaenorol mae’r canlyniadau’n dal i ddangos cynnydd ac felly’n ganlyniad cadarnhaol, byddai'n afrealistig disgwyl														

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
		ddefnyddiau eraill. 3. Cyfanswm y mannau agored cyhoeddus / caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiadau na neilltuwyd yn y cynllun datblygu		cynnydd ar y nifer yn yr AMB blaenorol gan i'r ffigur blaenorol gael ei ystyried yn un uchel. Am ragor o fanylion cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden. 2. Ni chollwyd unrhyw gyfleusterau cymunedol yn ystod y cyfnod monitro. Collwyd tri yn yr AMB blaenorol, ac felly mae canlyniadau'r AMB presennol yn gadarnhaol. Am ragor o fanylion cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden. 3. Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd 3 chaniatâd ar ardaloedd o fannau agored sydd heb eu neilltuo ar gyfer datblygiad yn y CDLI sef cyfanswm o 0.76 hectar. Roedd un yn ymwneud â safle tai fforddiadwy ac un arall ar gyfer maes parcio i helpu i wasanaethu canol tref Mynwy, y ddau ohonynt felly yn cefnogi'r gymuned yn effeithiol mewn ffyrdd amgen. Mae'r cais terfynol yn ymwneud ag estyniad bychan o ardal gardd ar dir a fu'n segur yn flaenorol. Mae'r ffigur yn ymwneud â mannau agored cyhoeddus a gollwyd bron wedi haneru o gymharu â'r cyfnod monitro blaenorol. Am ragor o fanylion cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Thirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol. Parhau i fonitro amcan AG.

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
Bioamrywiaeth	Gwarchod, gwerthfawrogi, rheoli a gwella ecosystemau iach, cynefinoedd ac amrywiaeth rhywogaethau naturiol, gwerthfawrogi buddiannau cadwraeth natur lle bynnag y'u ceir	Datblygiadau a ganiateir sy'n achosi niwed i werth Cadwraeth Natur gyffredinol y safleoedd a ddynodwyd yn lleol (-) Nifer o ddatblygiadau newydd sy'n creu ac adfer cynefinoedd - Hectarau o goetir hynafol a gollir i ddatblygiadau (-) Datblygu a ganiateir mewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol / o bwys cenedlaethol.	- Data heb fod ar gael - Un cais - Coetir hynafol tua 0.005ha o bosibl a gollir i ddatblygiadau - Data heb fod ar gael	2. Roedd un cais yn ymwneud ag adeiladu dau bwl bywyd gwyllt mewn cae bychan tu ôl i annedd yn Maryland, ger Trellech. Bydd y pyllau yn gwella buddiannau bywyd gwyllt yn yr ardal ac yn cael effaith dderbyniol ar y dirwedd wledig. Am ragor o fanylion cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 sy'n ymwneud â Thirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol. 3. Roedd cyfran fechan o goetir hynafol o bosib wedi'i cholli i ddatblygiad dros y cyfnod monitro. Roedd hyn yn ymwneud â chael gwared ar nifer fach o goed ffrwythau anghynhyrchiol a chollen y tu cefn i eiddo preswyl er mwyn darparu lle ar gyfer paneli solar domestig. Fodd bynnag, nid yw'r safle hwn yn elwa o ddynodiad cadwraeth natur lleol ac nid oes statws Gorchymyn Diogelu Coed ar yr un o'r coed, ni chodwyd unrhyw bryderon o'i golli. 1 & 4. Ni ellir monitro gweddill y dangosyddion hyn gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd, ac nid yw CGBLI Sir Fynwy yn gyfredol. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o fonitro'r dangosyddion hyn ar gyfer y cyfnod 2016-2017 yn yr AMB nesaf. Parhau i fonitro amcan AG.
Tirwedd	Cynnal a gwella ansawdd a chymeriad y	1. Nifer o goed a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed a gollir i	1. Mae un goeden a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed	1. Collwyd un goeden â Gorchymyn Cadw Coed arni i ddatblygiad dros y cyfnod monitro. Fodd bynnag, gwnaed cais i gael gwared â ffawyddden farw

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
	dirwedd, gan gynnwys ei gyfraniad i leoliad a chymeriad aneddiadau	ddatblygiadau (-)	wedi'i cholli.	cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno, o ganlyniad i gywasgiad daear. Gwnaed iawn am hyn drwy gynnwys coeden yn y cynllun i ddisodli'r goeden a gollwyd. Parhau i fonitro amcan AG.
Amgylchedd Adeiledig	Cynnal a gwella'r amgylchedd adeiledig ar gyfer ei gymeriad gweledol ynghyd â'i nodweddion unigryw a chreu gwell amgylchedd byw.	<i>Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel.</i> <i>Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. (h.y. caniatadau ar ôl mabwysiadu'r CDLI a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2015-2016)</i> <i>Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau a'r posibilrwydd o oblygiadau dylunio/amgylcheddol arwyddocaol.</i>	8 4 - Amherthnasol	1. Cymeradwywyd wyth cais yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd un yn ymwneud â chynllun biomas a saith cynllun ychwanegol yn gysylltiedig â datblygiad solar. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o ddau gynllun yn yr AMB blaenorol. Am ragor o fanylion cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Adnoddau Effeithlon a Pherygl Llifogydd. 2. Cwblhawyd cyfanswm o 4 cynllun ynni adnewyddadwy ac maent nawr yn weithredol. Adeg yr AMB diwethaf nid oedd un cais wedi'i gwblhau a gynhwysai gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd hyn i'w ddisgwyl am ei fod yn seiliedig ar ganiatadau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro blaenorol. Mae dau o'r cynlluniau a gwblhawyd yn ymwneud â biomas a'r ddau arall ag ynni solar, un ar raddfa fechan ac un cynllun mawr. Am fanylion pellach cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Adnoddau Effeithlon a Pherygl Llifogydd. 3. Mae Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n mynychu taith ddylunio flynyddol. Cynhaliwyd y daith ddylunio

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				ddiwethaf ym mis Medi 2015, ond ni roddodd ystyriaeth i unrhyw geisiadau a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol. Cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Wneud Llefydd a Dylunio am fanylion pellach. Parhau i fonitro amcan AG.
Treftadaeth hanesyddol	Deall, gwerthfawrogi, gwarchod ac adfer, lle bo angen, dreftadaeth ddiwylliannol hanesyddol yr ardal, gan gynnwys nodweddion yr amgylchedd adeiledig a lled-naturiol	Nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol (-) Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau a'r posibilrwydd o effeithio'n sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol / archeolegol, henebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth wedi'u heffeithio'n andwyol gan ddatblygiad. Nifer yr ardaloedd cadwraeth gydag arfarniad cyfredol o gymeriad	- Adeiladau Rhestredig: 2153, Henebion Rhestredig: 164, Parciau a Gerddi Hanesyddol: 45, Ardaloedd Archeolegol Sensitif: 10 a Thirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol: 3 - Amherthnasol 19 o arfarniadau cyfredol o gymeriad Ardal Cadwraeth.	- Dadrestrowyd un adeilad rhestredig gan Cadw yn ystod y cyfnod monitro gan leihau'r stoc o Adeiladau Rhestredig o 2154 i 2153. Roedd hyn yn ymwneud â dadrestru Ffermdy Thornwell yng Nghas-gwent. Nid oedd unrhyw newidiadau mewn perthynas â Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro. - Mae Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn mynychu taith ddylunio flynyddol. Cynhaliwyd y daith ddylunio ddiwethaf ym mis Medi 2015, ond ni roddodd ystyriaeth i unrhyw geisiadau a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol. Cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Wneud Llefydd a Dylunio am fanylion pellach. - Cynhyrchwyd 19 o Arfarniadau Ardal Cadwraeth a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Cyfeirier at y Gwneud Llefydd a Dadansoddi Polisi Dylunio yn

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				Adran 5 am fanylion pellach. Parhau i fonitro amcan AG.
Aer	Lleihau pob math o lygredd aer er budd ansawdd aer lleol a chyfanrwydd yr atmosffer er mwyn amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd	1. Nifer y lleoliadau lle mae ansawdd yr aer yn fwy na lefelau amcan y flwyddyn (-) 2. Canran y bobl a gyflogir sy'n defnyddio'u car / fan fel eu prif ffordd o deithio i ac o'r gwaith naill ai drwy yrru neu fel teithiwr (-) 3. Cyfran y bobl a gyflogir sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio (+)	1. Un lleoliad yng Nghas-gwent 2. 81.4% ** 3. 16.7% **	1. Cafodd lefel amcan blynyddol nitrogen deuocsid ei fwyafu mewn un lleoliad yn unig yn 2015. Roedd yn ymwneud â Bryn Hardwick yng Nghas-gwent. Dyna'r flwyddyn gyntaf lle na chafwyd unrhyw ormodiant ym Mrynbuga. Ni fu gormodiant ychwaith ar y lefelau amcan ar gyfer PM10 a PM2.5 dros flwyddyn galendr 2015. Y rhain, ynghyd â Nitrogen Deuocsid yw'r unig lygryddion a fonitrwyd yn Sir Fynwy, gan mai cerbydau yw'r prif ffynonellau llygredd. Lleolir Tiwbiau Monitro yng Nghas-gwent, Llan-ffwyst, Trefynwy a Brynbuga gan mai'r rhain yw'r ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd â phroblemau ansawdd aer. 2 - 3. Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Cymerwyd y dull hwn o ystadegau cymudo o Gyfrifiad 2011 sy'n dynodi bod 81.4% o bobl a gyflogir yn defnyddio'u car / fan fel eu prif gyfrwng teithio i ac o'r gwaith. Ni chyhoeddir data tan y cyfrifiad nesaf yn 2021, ac o ganlyniad, ni ellir gwneud cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Bydd y data hwn wedyn yn aros yr un fath yn AMBau y dyfodol. Parhau i fonitro amcan AG.

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
Ansawdd dŵr	Cynnal a gwella ansawdd dŵr daear, dŵr wyneb a dŵr arfordirol	% yr afonydd sy'n cyrraedd statws ansawdd dŵr 'da' (+) - Cyfran y safleoedd a neilltuwyd a phob datblygiadau arall o dros 10 annedd / 1hectar sy'n cynnwys SDCau(+)	32% *** 4 o 5	1. Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (CFFD) yn cyfuno statws ecolegol a chemegol wrth gofnodi, bydd angen i'r corff dŵr wyneb gyrraedd statws da yn y ddwy elfen er mwyn cyrraedd 'statws da' yn gyffredinol. O'r afonydd a aseswyd ar draws Sir Fynwy, ystyriwyd bod 32% wedi cael statws 'da' yn 2015. Mae CNC wedi newid eu dull o gofnodi ac mae'r set data a ddefnyddir yn y cyfnod monitro hwn yn ymwneud â rhychwant mewn blynyddoedd, yn yr achos hwn 2012-2014. Tra gostyngodd y ffigur ers y cyfnod monitro diwethaf, ni ellir dod i gasgliadau fan fod yr AMB blaenorol yn ymwneud â set data a dull o fesur statws ansawdd dŵr oedd yn wahanol. 2. O'r pum cais perthnasol a ganiatawyd, roedd pedwar yn ymwneud â chynlluniau preswyl a'r llall â safle cyflogaeth. Roedd y pedwar cynllun preswyl i gyd yn cynnwys SDCau yn amrywio o balmantu athraidd ar y safle i system bwl agored ar gyfer draenio dŵr wyneb. Nid oedd y cynnig cyflogaeth yn cynnwys SDCau yn ei ddatblygiad. Ni chafodd y dangosydd hwn ei fonitro yn yr AMB diwethaf ac felly ni ellir cymharu. Mae'r canlyniadau, fodd bynnag, yn gadarnhaol a pharheir i fonitro'r dangosydd mewn AMBau yn y dyfodol. Parhau i fonitro amcan GC.
Cyflenwad dŵr	Cynnal cyfanswm y dŵr sydd ar gael gan	1. Cyfran y cyrff dŵr daear yn cyrraedd statws	1. 100% ***	1. Lleolir Sir Fynwy o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Coch Defonaidd y Wysg (HDC), Hen

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
	gynnwys cyflenwadau dŵr yfed a dŵr daear a lefelau afonydd	ansawdd 'da' (+)		Dywodfaen Coch Defonaidd Eilaidd Gwy a Chalchfaen Carbonifferaidd Deheuol Gwy a'r Wysg. Roedd gan y tri chorff dŵr daear o statws da am gyfanswm dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn parhau yr un fath â'r cyfnod monitro blaenorol. Parhau i fonitro amcan GC.
Perygl llifogydd	Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u lleoli i osgoi'r perygl llifogydd, a sicrhau na chaiff perygl llifogydd ei gynyddu mewn mannau arall	Nifer y caniatadau i ddatblygu ym Mharthau Llifogydd C1 ac C2 heb gwrdd â phob prawf NCT 15 (-) - Cyfran y safleoedd a neilltuwyd a'r holl ddatblygiadau eraill dros 10 annedd / 1hectar sy'n cynnwys SDCau (+) - Achosion lle profodd afonydd lif isel yn yr haf (-)	0 4 o 5 0 ***	1. Ni chaniatawyd ceisiadau cynllunio yn groes i ofynion NCT15 yn naill ai Parth C1 neu orlifdir C2 dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn unol â'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid, gan i un cais gael ei gynnwys yn yr AMB blaenorol. Penderfynwyd, fodd bynnag, bod modd cyfiawnhau'r cais hwn. 2. O'r pum cais perthnasol a ganiatawyd, roedd pedwar yn ymwneud â chynlluniau preswyl a'r llall â safle cyflogaeth. Roedd y pedwar cynllun preswyl i gyd yn cynnwys SDCau yn amrywio o balmantu athraidd ar y safle i system bwl agored ar gyfer draenio dŵr wyneb. Nid oedd y cynnig cyflogaeth yn cynnwys SDCau yn ei ddatblygiad. Ni chafodd y dangosydd hwn ei fonitro yn yr AMB diwethaf ac felly ni ellir cymharu. Mae'r canlyniadau, fodd bynnag, yn gadarnhaol a pharheir i fonitro'r dangosydd mewn AMBau yn y dyfodol. 3. Mae tair prif orsaf monitro afonydd yn Sir Fynwy. Cofnododd Gorsafoedd Medryddu Afon Wysg ynghyd ag Afon Gwy lifoedd yn is na'r 95 canradd dros y

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				cyfnod monitro. Cofnododd yr Afon Gwy 5 niwrnod a'r Afon Wysg 1 diwrnod. Yn y ddau achos roedd y rhain yn is na'r cyfartaledd o 18 niwrnod y flwyddyn a ddefnyddir fel arwydd nodweddiadol o lifoedd haf isel. Ni chofnododd Gorsaf Fedryddu Grysmwnt unrhyw llifoedd yn is na'r lefel targed dros y cyfnod. Mae hyn yn welliant ar ddata a gofnodwyd yn yr AMB blaenorol, tra eto nid oedd hyn yn gostwng islaw 18 diwrnod y flwyddyn ac roedd nifer y diwrnodau'n gostwng yn sylweddol. Parhau i fonitro amcan AG.
Mwynau a gwastraff	Sicrhau y rheolir deunyddiau a mwynau cynradd mewn modd cynaliadwy, drwy ddiogelu ardaloedd mwynau, annog ailddefnyddio ac ailgylchu ac osgoi gwaredu terfynol o adnoddau.	1. Nifer y datblygiadau parhaol heb ymwneud â mwynau a'r safleoedd a ddiogelir nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi M2 (-) 2. Canran y gwastraff tai yn Sir Fynwy sy'n cael ei ailgylchu a'i wrteithio (+) 3. Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd, yn cael ei fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol fel y	1. 0 2. Data ddim ar gael eto **** 3. ha a ganiateir 4. 0	1. Ni chyfeiriwyd ceisiadau roi ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn mwynau parhaol ar safleoedd a ddiogelir nad oedd yn cydymffurfio â Pholisi M2 ystod y cyfnod monitro. 2. Nid yw'r wybodaeth sy'n ymwneud â chyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy wedi cael ei gyhoeddi eto ac ni fydd yn dod ar gael tan fis Hydref 2016. Nododd y AMB blaenorol 66.6% yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio. Unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael, bydd yn cael ei gynnwys yn yr AMB. 3. Roedd 0.24ha ganiateir yn ystod y cyfnod monitro. Er bod hyn yn swm cymharol isel o ddatblygiad mae'n dangos bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyfanswm y capasiti rheoli gwastraff ar

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
		nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. 4. Maint yr adnoddau agregau cynradd a echdynnwyd o'r tir fel canran o'r cyfanswm capasiti a nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.		gyfer cyfnod y cynllun. 26.86ha o safleoedd gwastraff posibl a nodwyd yn weddill. Am ragor o fanylion cyfeiriwch at y Dadansoddiad Polisi Gwastraff yn Adran 5. 4. Ni echdynnwyd unrhyw agregau cynradd o'r tir dros y cyfnod monitro. Ni fu gostygniad, felly, yn y banc tir yn Sir Fynwy. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 sy'n ymwneud â Mwynau. Parhau i fonitro amcan AG.
Tir / pridd	Defnyddio tir yn effeithlon drwy flaenoriaethu datblygiadau ar dir a ddatblygwyd eisoes lle bo hynny'n bosibl, a defnyddio tir presennol yn effeithlon drwy fynd i'r afael â halogiad a diogelu pridd amaethyddol gradd uwch.	1. Cyfran y datblygu a ganiateir ar dir glas fel canran o'r holl ddatblygiadau ac eithrio deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol (nc neu -) 2. Cyfran y tir maes glas a gollwyd i ddatblygiad na neilltuwyd yn y cynllun datblygu 3. Dwyseddau cyfartalog blynyddol datblygiadau tai newydd (+) 4. Hectar o dir	1. 83.2% 2. 44.6 hectar 3. 22 dwysedd yr hectar 4. 0	1. Caniatwyd datblygu cyfanswm o 62.70 hectar dros y cyfnod monitro, 52.19 hectar ar safleoedd maes glas. Roedd hyn yn cyfateb i 83.2% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol) fel rhai a ganiatwyd ar dir maes glas. Disgwylir cyfran uchel oherwydd bod gan Sir Fynwy gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Ar ben hynny, cyfrifai ffermydd solar a ganiatwyd dros y cyfnod monitro am gyfran sylweddol o ddatblygiadau ar dir maes glas. 2. Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 44 o ganiatadau ar dir maes glas na neilltuwyd i'w ddatblygu yn y CDLI, sef cyfanswm o 44.6 hectar. Mae hyn yn sylweddol uwch na swm y tir maes glas a ganiatwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (26

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
		<i>amaethyddol Gradd 3a a gwell a gollwyd i ddatblygiadau mawr * (ac eithrio tir a neilltuwyd yn y CDLI a datblygiad amaethyddol).</i>		hectar). Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Am fanylion pellach cyfeirier at Ddadansoddiad Polisi Tirlun, Isadeiledd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol yn Adran 5. 3. Roedd dwysedd cyfartalog blynyddol yr holl dai newydd yn cyfateb i 22 o anheddau yr hectar. Mae hyn yn debyg i'r AMB blaenorol a oedd yn ymwneud â chyfanswm o 21 o anheddau yr hectar, mae'r canlyniadau er hynny yn dangos cynnydd o'r cyfnod monitro blaenorol ac felly datblygiad cadarnhaol. Ar ben hynny tra bod y ffigwr hwn yn is na tharged y CDLI o 30 annedd yr hectar, dim ond 4 cais ar gyfer safleoedd o dros 10 dderbyniodd ganiatâd dros y cyfnod monitro. Roedd y rhan fwyaf o'r caniatadau yn gysylltiedig â lleiniau mewnlenwi mewn gerddi, gan leihau dwysedd y datblygiadau yn gyffredinol. 4. Ni chollwyd unrhyw dir amaethyddol ar Radd 3a a gwell i ddatblygiadau mawr dros y cyfnod monitro. Dylid nodi, tra oedd y tair fferm solar a ganiatawyd dros y cyfnod monitro yn cynnwys tir Gradd 3a a gwell, mae'n dal yn bosibl i ddefaid bori'r tir. Mae'r cynlluniau'n ymwneud â defnydd dros dro o dir amaethyddol a gellir ei droi'n ôl yn dir amaethyddol unwaith y digomisiynnir y cynlluniau.

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				Parhau i fonitro amcan AG.
Ynni	Er sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad newydd ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.	1. Nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (gan eithrio deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol)	1. 8	1. Cymeradwywyd wyth cais dros y cyfnod monitro ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd un yn ymwneud â chynllun biomas a'r saith cynllun ychwanegol yn ymwneud â datblygiad solar. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o ddau gynllun yn yr AMB blaenorol. Am fanylion pellach cyfeirier at Ddadansoddiad Polisi Adnoddau Effeithlon a Pherygl Llifogydd yn Adran 5. Parhau i fonitro amcan AG.
Cyflogaeth	Darparu ystod o swyddi o fewn Sir Fynwy sy'n helpu i gwrdd ag anghenion y gweithlu preswyl	1. Cyflenwad tir net ar gyfer cyflogaeth / datblygiad a manteisio ar gyflogaeth (+) 2. Cyfran y gweithlu cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth. 3. Cyfran y gweithlu preswyl sy'n gweithio yn Sir Fynwy (+) 4. Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-) 5. Canran yr unedau gwag o fewn ASC pob tref a chanolfan leol	1. Cyflenwad 41.18 hectar, Manteisio 1.131hectar 2. 0.6 hectar 3. 58.3% ***** 4. 21.9 cilomedr ** 5. Y Fenni: 5.8%, Cil-y-Coed: 7.6%, Cas-gwent: 10%, Trefynwy: 7.9%, Magwyr: 0%, Rhaglan: 0%, Brynbuga: 11.1%	1. Dynododd y Papur Cefndir i Dir Cyflogaeth fod 41.18 hectar o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir. Er bod digon o dir ar gael, roedd y gyfradd sy'n manteisio ar y tir cyflogaeth yn gyfyngedig i 1.131 hectar dros y cyfnod monitro. Mae hyn er hynny yn cyfateb i gynnydd o'i gymharu â'r cyfnod monitro blaenorol ddaeth i 0.38 hectar yn unig ac mae, o ganlyniad, yn gynnydd cadarnhaol. Am wybodaeth bellach cyfeirier at Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5. 2. Cymeradwywyd 3 chais yn ymwneud â cholli tir cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro, 2 ohonynt yn ymwneud ag uned Coffi Costa a bwyty gyrru drwyddo McDonalds mewn safleoedd busnes a diwydiannol a neilltuwyd ym Mharc Busnes Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d). Fodd bynnag, cydnabyddir bod y defnyddiau hyn yn creu swyddi a ystyriwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol ar y safle. Y cais arall a ganiatawyd

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				oedd ar gyfer estyniad i faes parcio Aldi ar safle cyflogaeth a ddiogelwyd y Stryd y Felin, Y Fenni (SAE2a). Fodd bynnag cyfiawnheir colli tir cyflogaeth o fewn cyd-destun a fframwaith polisi'r CDLI. Am wybodaeth bellach cyfeirier at Ddadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5. 3. Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn nodi bod 58.3% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Mae hyn wedi cynyddu 3.8% ers yr AMB blaenorol yn unol â'r cyfeiriad dymunol o newid. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn am fod y data yn seiliedig ar arolwg o sampl fechan ac felly dylid ei drin yn ofalus. 4. Mae'r pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yn 21.9 cilomedr. Ni chyhoeddir data tan y cyfrifiad nesaf yn 2021, ac o ganlyniad, ni ellir gwneud cymhariaeth ystyrlon tan hynny. Bydd y data hyn wedyn yn aros yr un fath yn AMBau y dyfodol. 5. Mae'r cyfraddau adeiladau gwag a gofnodwyd yn yr Ardaloedd Siopa Canolog (ASC) ar gyfer pob canolfan canol tref a lleol y Sir yn is na'r gyfradd adeiladau gwag yn y DU (12.4% Mawrth 2016, Cwmni Data Lleol). Am fanylion llawn cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi Manwerthu yn Adran 5. Parhau i fonitro amcan AG.

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth																												
Creu cyfoeth	Codi ffyniant ac ansawdd bywyd trwy ddatblygu economi leol fwy hunangynhaliol ac annog twf cynhenid	1. Ystod o Safleoedd Defnydd Cymysg Dynodoedig SAE1 / SAE2 / sydd ar gael. Dosbarthiad a maint (+) 2. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl anheddiad. 3. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl sector 4. Cyfran y gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+) 5. Nifer y bobl sy’n mewngymudo i Sir Fynwy 6. Nifer y bobl sy’n allgymudo o Sir Fynwy 7. Gwariant Twristiaeth (+) 8. Nifer y cynlluniau arallgyfeirio / menter wledig a gymeradwywyd 9. Nifer y cynlluniau twristiaeth a	1. Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth 2. Prif Drefi: 0.95 hectar (3.72 hectar Heol Wonastow), Glan Hafren: 2.83 hectar, RSS: 0.48 hectar, Cyffredinol Gwledig: 0.22 hectar 3. Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth 4. 58.3% ***** 5. 17,800 ***** 6. 18,700 ***** 7. £ 186.65 Miliwn ***** 8. 10 9. 10 10. 0	1. Mae'r tabl isod yn nodi'r amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir yn ôl lleoliad, ynghyd â maint y safleoedd sydd ar gael. Er bod cyfran fawr o dir wedi ei leoli ym Magwyr mae dosbarthiad ar draws y Prif Drefi a rhai o'r Aneddiadau Eilaidd Gwledig. <table><tr><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw Lleoliad / y Safle</th><th>Dosbarth Defnydd Safle</th><th>Tir gweddill sydd ar gael (hectar)</th></tr><tr><td>SAE1a</td><td>Cymru'n Un, Magwyr (gorllewin)</td><td>B1</td><td>4.0</td></tr><tr><td>SAE1b</td><td>Quay Point, Magwyr</td><td>B1/B2 / B8</td><td>13.76</td></tr><tr><td>SAE1c</td><td>Europark Gwent, Magwyr</td><td>B8</td><td>13.3</td></tr><tr><td>SAE1d</td><td>Westgate, Llan-ffwyst</td><td>B1 / B2</td><td>1.9</td></tr><tr><td>SAE1e</td><td>Heol Ross, Y Fenni</td><td>B1 / B2</td><td>1.5</td></tr><tr><td>SAE1f</td><td>Fferm Newhouse, Cas-gwent</td><td>B2 / B8</td><td>4.0</td></tr></table>	Cyfeirnod y Safle	Enw Lleoliad / y Safle	Dosbarth Defnydd Safle	Tir gweddill sydd ar gael (hectar)	SAE1a	Cymru'n Un, Magwyr (gorllewin)	B1	4.0	SAE1b	Quay Point, Magwyr	B1/B2 / B8	13.76	SAE1c	Europark Gwent, Magwyr	B8	13.3	SAE1d	Westgate, Llan-ffwyst	B1 / B2	1.9	SAE1e	Heol Ross, Y Fenni	B1 / B2	1.5	SAE1f	Fferm Newhouse, Cas-gwent	B2 / B8	4.0
Cyfeirnod y Safle	Enw Lleoliad / y Safle	Dosbarth Defnydd Safle	Tir gweddill sydd ar gael (hectar)																													
SAE1a	Cymru'n Un, Magwyr (gorllewin)	B1	4.0																													
SAE1b	Quay Point, Magwyr	B1/B2 / B8	13.76																													
SAE1c	Europark Gwent, Magwyr	B8	13.3																													
SAE1d	Westgate, Llan-ffwyst	B1 / B2	1.9																													
SAE1e	Heol Ross, Y Fenni	B1 / B2	1.5																													
SAE1f	Fferm Newhouse, Cas-gwent	B2 / B8	4.0																													

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth			
		gymeradwywyd 10. Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygiadau, newid defnydd neu ddymchwel		SAE1g	De Woodside, Brynbuga	B1	1.3
				SAE1h	Pill Row, Cil-y-coed	B1 / B8	1.0
				SAE1i	Parc Beaufort, Cas-gwent	B1	0.42
				SAE2l	Heol Wonastow, Trefynwy	B1 / B2 / B8	0.55
				SAE2w	Cymru'n Un, Magwyr	B1 / B2 / B8	0.57
				SAH2	Heol Crick, Porth Sgiwed	B1	1.0
				SAH3	Fairfield Mabey, Cas-gwent	B1	2.8
				SAH4	Heol Wonastow, Trefynwy	B1	2.78
				SAH5	Fferm Rockfield, Gwndy	B1	2.0
				2. Mae mwyafrif y caniatadau'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro wedi'u lleoli yn			

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth				
				Ardal Glan Hafren ac yn cyfateb i 2.83 hectar. Dilynodd y Prif Drefi gyda 0.95 hectar fodd bynnag caniatawyd 3.72 hectar ychwanegol yn Heol Wonastow, Trefynwy. Roedd y caniatâd amlinellol ar gyfer y safle hwn wedi'i gynnwys yn ym AMB blaenorol ac o ganlyniad nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigurau cyfredol i osgoi cyfrif ddwywaith. Cyfrifai'r Aneddiadau Eilaidd Gwledig a'r Cyffredinol Gwledig am y nifer lai o ganiatadau sef cyfanswm o 0.7 hectar dros y cyfnod monitro. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5. 3. Mae'r tabl isod yn nodi'r sectorau hynny lle digwyddodd defnydd cyflogaeth yn unig dros y cyfnod monitro. Caniatawyd y gyfran fwyaf o ofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau Defnydd B yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Storio a gweithgynhyrchu hefyd yn cyfrif am gyfran sylweddol. Caniatawyd cymysgedd o ddefnyddiau B1 a B8 hefyd yn Heol Wonastow, Trefynwy (3.72 hectar), gan fod y caniatad amlinellol ar gyfer y safle hwn wedi ei gynnwys yn yr AMB blaenorol ac nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyfredol i osgoi cyfrif ddwywaith. Cyfeirier at Ddadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5. <table><tr><th>Sector</th><th>Maint (hectar)</th></tr><tr><td>Gweithgynhyrchu</td><td>0.93 hectar</td></tr></table>	Sector	Maint (hectar)	Gweithgynhyrchu	0.93 hectar
Sector	Maint (hectar)							
Gweithgynhyrchu	0.93 hectar							

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth	
				Masnach cyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur	0.48 hectar
				Cyflenwad trydan, nwy, ager ac aerdymheru; cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad	0.24 hectar
				Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu	2.83 hectar
				Gweithgareddau eiddo tirol; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chefnogaeth	(3.72 hectar Ffordd Wonastow)
				4. Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn nodi bod 58.3% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Mae hyn wedi cynyddu o 3.8% ers yr AMB blaenorol yn unol â'r cyfeiriad dymunol o newid. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg o sampl fechan ac felly dylid ei drin yn ofalus. 5 - 6. Dynododd Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2015 gyfanswm o 17,800 yn cymudo i mewn i Sir Fynwy a 18,700 yn cymudo allan o Sir Fynwy. Mae hyn yn cymharu â 19,200 yn cymudo i mewn i Sir Fynwy a 19,600 yn cymudo allan o Sir Fynwy dros y cyfnod monitro blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi	

Pennawd	Amcanion	Dangosyddion AG	Data	Sylwebaeth
				gormod o bwys ar y ffigurau hyn oherwydd fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl fechan ac felly dylid eu trin yn ofalus. Mae Dadansoddi Polisi Economi a Menter yn Adran 5 yn darparu dadansoddiad pellach o'r wybodaeth hon. 7.Mae adroddiad STEAM Sir Fynwy (2016) yn nodi'r gwariant twristiaeth blynyddol fel £ 186.65 miliwn dros gyfnod 2015. Cymharodd hyn â £ 173.15 miliwn dros gyfnod 2014, sy'n cyfateb i gynnydd o 6.6%. 8. Cymeradwywyd cyfanswm o 10 cais yn gysylltiedig ag arallgyfeirio / a menter wledig yn ystod y cyfnod monitro, a gellir cael manylion llawn yn Nadansoddiad Polisi Menter Wledig yn Adran 5. 9 - 10. Cymeradwywyd cyfanswm o 10 cynllun twristiaeth dros y cyfnod monitro yn amrywio o lety gwyliau unigol i westy 60 gwely. Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oedd yn ymwneud â cholli unrhyw gyfleusterau twristiaeth dros y cyfnod monitro. Mae Dadansoddiad Polisi Economi Ymwelwyr yn Adran 5 yn darparu manylion llawn o'r math o gyfleusterau twristiaeth a gafwyd yn ystod y cyfnod monitro. Parhau i fonitro amcan AG.

* Datblygiad Mawr - datblygiad yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: datblygiadau o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar neu fwy ar gyfer

ceisiadau amlinellol; datblygu adeilad neu adeiladau pan fo'r gofod llawr i'w greu yn 1000m² neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; ennill neu weithio mwynau, neu ddefnydd o dir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau; neu, ddatblygiad gwastraff.

** Ffigur yn deillio o Gyfrifiad 2011

*** Adnoddau Naturiol Cymru

**** Wastedataflow – Cyfoeth Naturiol Cymru

***** Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (2016)

***** Adroddiad STEAM Sir Fynwy (2016)

Dangosyddion AG a Ddiwygiwyd / Ddilëwyd - Mae'r dangosyddion hyn wedi'u diweddarw ers Adroddiad Monitro Blynnyddol 2014-2015

Pennawd	Dangosydd Gwreiddiol AG	Rheswm dros ddiwygio
Hygyrchedd	Canran y datblygiadau newydd o fewn taith gerdded o 10 munud o wasanaeth bws aml a rheolaidd (+)	Nodwyd yn yr AMB diwethaf y diwygid y dangosydd hwn i ymwneud â datblygiad mawr yn unig. Darperir diffiniad o ddatblygiad mawr yn y troednodyn. Eithrir Ceisiadau Mwynau, Gwastraff ac Ynni Adnewyddadwy ac fe nodwyd hynny.
Iechyd, diogelwch a diogeledd	Nifer y mannau amwynder agored a nodwyd mewn canolfannau DES2 a hamdden (+)	Diwygiwyd y dangosydd hwn yn unol â dangosydd Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r maint o fannau agored a grëwyd. Mae'r swm o fannau agored cyhoeddus a gollwyd i ddatblygiad eisoes wedi'i gynnwys o dan y pennawd Cymunedol.
Bioamrywiaeth	Nifer y datblygiadau newydd yn cyflenwi rhwymedigaethau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol ar gyfer Cynullun Gweithredu Bioamrywiaeth (+)	Er mwyn cael cysondeb mae o fudd defnyddio'r un dangosydd ag a ddefnyddir wrth fonitro'r CDLI sy'n ymwneud â nifer o ddatblygiadau newydd sy'n creu ac adfer cynefinoedd.
	Newid yn yr ardaloedd a phoblogaethau o bwysigrwydd bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad.	O ystyried yr anhawster o fesur a monitro'r wybodaeth hon yn effeithiol, mae'r dangosydd hwn wedi'i ddileu o fframwaith monitro'r CDLI. Felly, mae'n briodol dileu hwn o'r AG ac eithrio'r dangosydd o'r AMBau dilynol.
	Datblygiad a ganiatwyd o fewn, neu sy'n debygol o effeithio'n andwyol, ar ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol / cenedlaethol o bwys.	Methwyd â monitro'r dangosydd hwn yn flaenorol, mae wedi ei ddiwygio i ymwneud â datblygiad a ganiatawyd o fewn yr ardaloedd hynny am fod y data hyn ar gael.
	Datblygiadau y rhoddwyd iddynt ganiatâd cynllunio sy'n peri niwed i werth cadwraeth natur yn gyffredinol mewn safleoedd a ddynodwyd yn lleol	Mae hwn yn ddyblygiad y dangosydd AG arall dan yr un pennawd. Nid oes unrhyw fudd o gadw ddau ddangosydd. Felly, mae'r dangosydd wedi cael ei ddileu.
Amgylchedd adeiledig	Nifer o ddatblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle.	Mae'r dangosydd hwn wedi cael ei ddiwygio yn unol â dangosyddion Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Pennawd	Dangosydd Gwreiddiol AG	Rheswm dros ddiwygio
	Nifer o ddatblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle.	Nodir gwybodaeth ychwanegol mewn cromfachau er mwyn darparu eglurhad pellach, mae hyn yn nodi (hy caniatadau, yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2015-2016).
Treftadaeth hanesyddol	Nifer yr adeiladau rhestredig ddymchwelwyd	Diwygiwyd y dangosydd hwn yn unol â dangosydd y CDLI. Mae'n fwy gwerthfawr i fonitro'r newid yn nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol eraill, gall y rhesymau dros y newid gael eu nodi yn y sylwebaeth a byddai felly'n fwy amlwg os yw adeiladau wedi'u dileu.
Tir / pridd	Hectarau o bridd amaethyddol Gradd 3a a gwell sy'n cael ei golli i ddatblygiad (-)	Nodwyd yn yr AMB diwethaf y byddai'r dangosydd hwn yn cael ei ddiwygio i ymwneud â datblygiad mawr yn unig ac eithrio dyraniadau CDLI a datblygiadau amaethyddol. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn ddigon cyfleus. Diweddarwyd y Radd i 'Radd 3a a gwell' i adlewyrchu'r diffiniad o'r tir gorau a'r mwyaf amlbwrpas yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

7 Casgliadau ac Argymhellion

- 7.1 Dyma'r ail AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Sir Fynwy. Er mai am 2 flynedd yn unig y bu'r CDLI yn weithredol, daeth tueddiadau i'r amlwg drwy'r broses fonitro yn dangos fel mae polisïau'n gweithredu fel y'u bwriadwyd ac eraill nad ydynt yn gweithredu felly. Mae'r AMB yn dangos cynnydd da wrth gyflwyno llawer o bolisïau'r Cynllun gyda thargedau dynodedig yn cael eu bodloni a strategaeth y CDLI yn dal i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae'r AMB hefyd yn dangos bod elfennau penodol o'r Cynllun wedi datblygu'n arafach nag y bwriadwyd ac yn destun pryder.
- 7.2 Mae Adran 5 yn darparu asesiad manwl o'r modd mae polisïau strategol y Cynllun, a pholisïau ategol cysylltiedig, yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol dynodedig ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad gwybodus am gynnydd y Cynllun o ran cyflawni'r targedau / canlyniadau a'r polisïau monitro yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar y sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad:

Targedau / canlyniadau monitro * sy'n cael eu cyflawni	49
Targedau / canlyniadau monitro * nad ydynt yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, ond nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi	17
Targedau / canlyniadau monitro nad * ydynt yn cael eu cyflawni gyda phryderon dilynol dros weithredu'r polisi	11
Ni ellir llunio unrhyw gasgliad o ganlyniad i'r data cyfyngedig sydd ar gael	2

Ar gyfer y dangosyddion hynny sydd heb darged / sbardun mae canlyniadau monitro'n cael eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny

Canfyddiadau Allweddol

- 7.3 Mae gwybodaeth a gesglir drwy'r broses fonitro'n dangos bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion targed a'r canlyniadau monitro'n cael eu cyflawni (sgôr goleuadau gwyrdd), sy'n dangos bod polisïau perthnasol y Cynllun yn cyflawni fel y'u bwriadwyd. Mae'r cyflawniadau mwyaf sylweddol yn cynnwys y canlynol:

Strategaeth a Thai

- Mae cynnydd yn parhau tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.
- Mae targedau polisi tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yn cael eu diwallu'n gyffredinol mewn perthynas â chaniatadau cynllunio a roddwyd yn y prif drefi a'r prif bentrefi.

Economi a Menter

- Mae gan y Sir gyfanswm o 4 1.8 hectar o dir cyflogaeth, sy'n dangos y cynhelir digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r gyfradd fanteisio a ddynodwyd .
- Bu cynnydd o ran y caniatadau cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatadau'n cael eu rhoddi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth ar safleoedd busnes a safleoedd diwydiannol a neilltuwyd (SAE1), safleoedd cyflogaeth a ddiogelir (SAE2) a safleoedd heb eu neilltuo (cyfanswm o 4.48 hectar). Rhoddwyd caniatâd hefyd i 3.72 hectar o dir ar safle defnydd cymysg strategol y CDLI yn Heol Wonastow Trefynwy.
- Cymeradwywyd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a chynlluniau mentrau gwledig (10).
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 10 cyfleuster twristiaeth, 8 ohonynt yn ymwneud â llety i dwristiaid. Nid oedd unrhyw geisiadau a ganiatawyd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth.

Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol

- Mae cyfraddau gwacter yn yr ardaloedd siopa canolog yn holl drefi'r Sir a'r canolfannau lleol yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae cyfradd y defnyddiau manwerthu A1 mewn Ffryntiadau Siopa Cynradd yn gyffredinol yn cyd-fynd â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Ffryntiadau Siopa Cynradd.
- Mae cyfanswm o 5 cyfleuster cymunedol a hamdden wedi cael caniatâd cynllunio ac ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn ymwneud â cholli cyfleusterau cymunedol / hamdden.

Yr amgylchedd

- Ni chollwyd adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.
 - Mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyfanswm capasiti rheoli gwastraff ar gyfer cyfnod y CDLI ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y banc tir mwynau.
 - Caniatawyd cyfanswm o 8 cynllun yn ymgorffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (gan eithrio deiliaid tai, newid defnydd a defnydd amaethyddol).
 - Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 / C2 nad oeddent yn cwrdd â phrofion TAN15.
- 7.4 Mae hyn yn dangos bod llawer o'r fframwaith polisi'n gweithio'n effeithiol gan ganiatáu datblygu priodol, a bod cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu'r CDLI.
- 7.5 Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod amrywiol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni ond nid oes pryderon cyfatebol dros weithredu polisi (sgôr goleuadau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach bod rhesymau dros gyfiawnhau'r perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn cynrychioli unrhyw

broblem sylfaenol wrth weithredu'r fframwaith polisi neu'r strategaeth ar hyn o bryd. Mae'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â hyn fel a ganlyn:

Tai

- Bu cynnydd cyfyngedig gyda chyflenwi safleoedd a neilltuwyd yn y Prif Bentrefi (SAH11). Fodd bynnag, gan fod dau safle Prif Bentref ychwanegol wedi'u cymeradwyo yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol, credir bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd targed dynodedig y CDLI.

Economi a Menter

- Cymeradwywyd 3 chais yn ymwneud â dosbarthiad defnydd tir cyflogaeth B, sef cyfanswm o 0.56 hectar. Fodd bynnag, cyfiawnhawyd y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLI.

Yr Amgylchedd

- Roedd 16.8% (10.51ha) o'r datblygiadau a ganiatawyd ar dir llwyd (ac eithrio deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol). Er bod y gyfran hon yn is na'r gyfradd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf nid oedd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i fodloni. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n ofalus yn yr AMB nesaf.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 44.6 hectar o dir glas heb ei neilltuo sy'n sylweddol uwch na'r hyn a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, pob un ohonynt wedi'i gyfiawnhau ar sail polisi ac yn ymwneud â defnydd dros dro o dir amaethyddol.

7.6 Er gwaethaf yr uchod, mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses fonitro wedi nodi nifer o ddangosyddion targed / ganlyniadau monitro nad ydynt yn symud ymlaen fel y'u bwriadwyd (sgôr goleuadau traffig coch). Penderfynodd ymchwiliad pellach bod pryderon ynghylch gweithredu'r agweddau hyn ar y fframwaith polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Strategaeth a Thai

- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 234 o anheddau newydd (marchnad gyffredinol a fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 205 y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 439 wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na tharged dynodedig y CDLI o gwblhau 488 o anheddau'r flwyddyn.
- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 63 o anheddau fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 17 y cofnodwyd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol, yn cyfateb i gyfanswm o 80 o anheddau wedi'u cwblhau ers

mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na tharged dynodedig y CDLI o gwblhau 96 o anheddau fforddiadwy'r flwyddyn.

- Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Fynwy dros gyfnod 2015-16 yn dangos bod gan y Sir gyflenwad tir ar gyfer tai am 4.1 flynedd (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a ragnodir yn Nodyn Cynllunio Technegol 1).
- Bu cynnydd cyfyngedig gyda darparu safleoedd strategol a neilltuwyd ar gyfer tai. Ac eithrio safle Heol Wonastow, ni roddwyd caniatâd cynllunio i un o'r safleoedd strategol ers mabwysiadu'r Cynllun.
- Roedd yr anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn aneddiadau Glan Hafren yn sylweddol is na thargedau dynodedig y CDLI.

7.7 Mae'n amlwg nad yw polisiâu allweddol darparu tai'r CDLI yn cael eu cyflawni mor gyflym â'r disgwyl ac mae'r diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd yn destun pryder. Un ffactor sylfaenol sy'n cyfrannu at y diffyg hwn yw'r datblygiad arafach na'r disgwyl ar safleoedd tai strategol a neilltuwyd. Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i neilltuo yn y CDLI i fodloni'r gofynion dynodedig dros gyfnod y Cynllun, nid yw'r safleoedd yn datblygu mor gyflym â'r disgwyl am amrywiaeth o resymau, llawer ohonynt yn annibynnol o'r system gynllunio, megis yr economi ehangach a'r farchnad dai. Mae hyfywedd safleoedd yn ffactor o bwys sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu safleoedd ac ar asesiadau hyfywedd yn arafu'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r oedi mewn cyflenwi safleoedd wedi effeithio ar nifer yr anheddau marchnad gyffredinol a'r anheddau fforddiadwy gaiff eu cyflwyno drwy'r system gynllunio. Ystyrir hefyd bod gofyniad TAN1 i Awdurdodau Cynllunio Lleol seilio cyfrifiad cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai ar y dull gweddilliol yn ffactor sy'n cyfrannu at y diffyg presennol o dir ar gyfer tai yn y Sir.

7.8 O ran cyflenwi tai, roedd y 7 safle tai strategol y CDLI i fod i gyflwyno oddeutu 2,020 o unedau allan o'r angen am gyfanswm o 4,500 o unedau, gyda'r gweddill yn cael eu darparu trwy gyfrwng safleoedd trefol a neilltuwyd (SAH8 Ffordd Tudor, Wyesham a SAH9 Coed Glas, Y Fenni) , SAH10 safleoedd aneddiadau eilaidd gwledig, SAH11 safleoedd prif bentrefi, a hap-safleoedd eraill. Darperir cynnydd ar ddarparu safleoedd tai strategol y CDLI yn yr adran dadansoddi polisi ar gyfer Polisi S3 sy'n dangos diffyg dros gyfnod y cynllun o 615 o anheddau o'r safleoedd strategol.

7.9 Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai er mwyn galluogi bodloni gofynio tai cyffredinol y Cynllun. Mae'r dystiolaeth monitro yn dangos bod sefyllfa'r cyflenwad tir ar gyfer tai'n annhebygol o wella yn y tymor byr ac mae'n annhebygol iawn y bydd Sir Fynwy'n ail-ennill cyflenwad 5 mlynedd o dan y Cynllun cyfredol. Yn unol â hynny, mae angen neilltuo safleoedd ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Ystyrir, felly, fod adolygiad cynnar o'r Cynllun mabwysiedig yn angenrheidiol, o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso adnabod a neilltuo tir ychwanegol ar gyfer tai sy'n hyfyw ac yn gyflawnadwy.

7.10 Mae i ddiffyg dilyniant mewn safleoedd tai strategol a neilltuwyd (heblaw Heol Wonastow) oblygiadau amlwg i gyflenwad tir ar gyfer tai ac mae hefyd yn destun

pryder, er mae cynnydd yn cael ei wneud wrth ddwyn llawer o'r safleoedd hyn ymlaen ac nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r safleoedd a neilltuwyd yn gyflawnadwy (fel y nodir yn Adran 5). Felly mae'n annhebygol y bydd angen adolygu priodoldeb y rhan fwyaf o'r safleoedd presennol a neilltuwyd yn y CDLI, ond ystyrir hyn yn fanylach fel rhan o adolygiad y Cynllun. Serch hynny, mae'r gyfradd gyflenwi arafach na'r disgwyl yn awgrymu bod angen neilltuo safleoedd ychwanegol sy'n hyfyw ac yn gyflawnadwy ac yn cyfrannu'n wirioneddol at y cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai.

- 7.11 Mae'r caniatadau a roddwyd a'r anheddau a gwblhawyd sy'n is na'r disgwyl yn aneddiadau Glan Hafren hefyd i'w priodoli i'r cynnydd arafach na'r disgwyl mewn safleoedd tai strategol a neilltuwyd yn yr ardal hon. Fodd bynnag, ystyrir mai problem dros dro'n unig yw hon, yn hytrach na phroblem gydag addasrwydd neu effeithiolrwydd y strategaeth ei hun.
- 7.12 Tra cydnabyddir y byddai adolygiad cynnar yn digwydd cyn yr adolygiad statudol 4 blynedd (sy'n ddyledus yn 2018), o ystyried y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth fater y cyflenwad tir ystyrir bod adolygiad cynnar yn angenrheidiol. Byddai hyn hefyd yn gymorth i geisio osgoi 'cynllunio trwy apelio' a datblygiadau ad hoc yn dod ymlaen y tu allan i system y cynllun datblygu a heb fod yn unol â strategaeth y Cynllun. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y bydd mabwysiadu ymagwedd bragmatig at benderfynu ceisiadau gwro ar gyfer safleoedd datblygu preswyl yn gymorth yn y cyd-destun hwn (fel y cydnabyddir yn NCT1, paragraff 6.2).
- 7.13 Yn wyneb hyn, ystyrir bod adolygiad cynnar o'r CDLI yn angenrheidiol oherwydd y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol adolygu unrhyw agweddau eraill o'r Cynllun ar hyn o bryd.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

- 7.14 Gwnaed cynnydd gyda'r gwaith o baratoi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol i helpu i hwyluso dehongli a gweithredu polisi'r CDLI y manylir arno yn Adran 3. Bydd paratoi / mabwysiadu'r CCA yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf.

Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)

- 7.15 Mae Adran 6 yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Mae peth gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y CDLI a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n helpu i ddangos sut mae monitro'r CDLI a monitro'r AG yn gysylltiedig â'i gilydd.
- 7.16 Mae rhai o ganfyddiadau penodol mwyaf nodedig yr AG yn ystod y cyfnod monitro presennol yn cynnwys y ffeithiau canlynol:
- Mae 100% o'r datblygiadau mawr newydd a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro hwn wedi'u lleoli o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a rheolaidd.
 - 4.6 hectar o dir agored o ganlyniad i ganiatadau cynllunio.
 - Collwyd i ddatblygiad un goeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed.

- Mae un lleoliad lle mae lefelau nitrogen deuocsid yn uwch na'r amcan blynyddol.
- Mae 4 o'r 5 safle a neilltuwyd a'r holl ddatblygiadau eraill o fwy na 10 annedd / 1 hectar wedi cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy yn y cynllun.
- Mae 100% o gyrff dŵr daear â statws maint 'da'.
- Dim achosion lle profodd afonydd ar draws y Sir lif isel yn yr haf.
- Dim un hectar o dir amaethyddol Gradd 3a a gwell wedi'i golli i ddatblygiad mawr.
- Cynnydd o 6.6% yn y gwariant ar dwristiaeth (£ 186,650,000).

7.17 Mae monitro'r AG yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. Fel y cyfryw mae'n cael ei gymharu â'r data gwaelodlin a nodir yn yr AMB blaenorol yn unig, a bydd tueddiadau a amlygir yn dod yn fwy amlwg yn AMBau y dyfodol.

Argymhellion

7.18 Mae'r AMB ar gyfer 2015-16 yn dangos y gwnaed cynnydd da wrth weithredu llawer o bolisiâu'r Cynllun ac ar y cyfan mae'r strategaeth yn dal i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae'r AMB hefyd yn dangos nad yw polisiâu allweddol darpariaeth tai'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd a'r diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai'n destun pryder sydd angen mynd i'r afael ag ef os yw gofynion tai'r Cynllun i'w bodloni. Ystyrir adolygiad cynnar o'r CDLI felly yn angenrheidiol oherwydd y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Mae diwygio'r Cynllun yn debygol o gynnwys adnabod / neilltuo safleoedd ychwanegol sy'n hyfyw ac yn gyflawnadwy er mwyn rhoi hwb i'r cyflenwad tir. Gan nad oes unrhyw bryderon ynghylch polisiâu eraill y Cynllun, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol adolygu unrhyw agweddau eraill o'r Cynllun ar hyn o bryd.

7.19 Argymhellion:

1. Cychwyn adolygiad cynnar o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn sgil yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso adnabod / neilltuo tir ychwanegol ar gyfer tai. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu Adroddiad Adolygu a fydd yn nodi ac yn esbonio cwmipas gofynnol y Cynllun diwygiedig.
2. Cyflwyno'r ail AMR i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r AMB ar wefan y Cyngor.
3. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi AMBau yn olynol.